



RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:

27/2019

DYDDIAD CYHOEDDI:

26/06/2019

Gwerthusiad o Amrywiaeth mewn Democratiaeth: Adroddiad Terfynol

Gwerthusiad o Amrywiaeth mewn Democratiaeth

Adroddiad Terfynol

Awduron: Jenny McConnel ac Susie Stevenson, Miller
Research

Adroddiad Ymchwil Llawn: McConnel, J. ac Stevenson, S. (2019). *Gwerthusiad o Amrywiaeth mewn Democratiaeth: Adroddiad Terfynol*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, Adroddiad Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth rhif 27/2019.
Ar gael ar: <https://llyw.cymru/gwerthusiad-o-amrywiaeth-mewn-democratiaeth-0>

Barnau'r ymchwilydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid rhai
Llywodraeth Cymru o angenrheidrwydd

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â:

Merisha Hunt

Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

Ffôn: 03000 628345

E-bost: Merisha.Hunt003@llyw.cymru

Tabl cynnwys

Rhestr Tablau	ii
Geirfa	iii
1. Cyflwyniad	1
2. Adolygiad llenyddiaeth	4
3. Methodoleg	24
4. Trosolwg o Raglen Amrywiaeth mewn Democratiaeth	29
5. Cynllun Mentora	34
6. Ymgyrch Gyfathrebu	57
7. Cynllun Annog Cyflogwyr	80
8. Cronfa Drws i Ddemocratiaeth (D2D)	87
9. Cyd-drafod â phleidiau gwleidyddol	95
10. Casgliadau	106
11. Argymhellion	112
Cyfeiriadau	122
Atodiad A Casgliadau ochr yn ochr ag Argymhellion Ar ôl Pwyso a Mesur ..	128
Atodiad B Model Rhesymeg	136
Atodiad C Methodoleg fanwl	137
Atodiad D Aelodaeth y Grŵp Llywio	148
Atodiad E Astudiaethau Achos	149
Atodiad F Matrics Aeddfedrwydd	158
Atodiad G: Cylch Gorchwyl Hyrwyddwyr Amrywiaeth	162

Rhestr Tablau

Tabl 1 Demographeg Cynghorwyr Etholedig o Gymharu â Phoblogaeth Cymru mewn canrannau	13
Tabl 2 Crynodeb o gyfweiliadau lled-strwythuredig a gynhaliwyd	26
Tabl 3 Ymlyniad gwleidyddol mentoriaid ac aelodaeth Cynghorwyr Cymru o bleidiau gwleidyddol	41
Tabl 4 Demograffeg mentoreion	44
Tabl 5 Gweithgareddau Cyfathrebu a Hyrwyddo	61
Tabl 6 Ymatebwyr i Arolwg Llywodraeth Leol o Ymgeiswyr	78
Tabl 7 Trafodaeth Theori Newid a Datblygiad y Model Rhesymeg	138
Tabl 8 Crynodeb o gyfweiliadau lled-strwythuredig a gynhaliwyd	144

Geirfa

Acronym / Gair allweddol	Diffiniad
AmD	Amrywiaeth mewn Democratiaeth
BME	Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig
BSL	Iaith Arwyddion Prydain
D2D	Drws i Ddemocratiaeth
CLILC	Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
DiD	Amrywiaeth mewn Democratiaeth
LGB+	Pobl Lesbiaidd, Hoyw, Ddeurywiol a chyfeiriadedd anheterorywiol arall
LGBT+	Pobl Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol, a chyfeiriadedd anheterorywiol arall a/neu hunaniaeth rywiol amhenodol
Mentor	Rhywun sy'n cynnig anogaeth, cefnogaeth a chyngor
Mentorai (mentoreion)	Rhywun (rhywrai) sy'n derbyn anogaeth, cefnogaeth a chynghor y mentor
OVW	Un Llais Cymru
WFGA	Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)
WLGA	Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

1. Cyflwyniad

Trosolwg

- 1.1 Cynhaliwyd y rhaglen Amrywiaeth mewn Democratiaeth rhwng mis Gorffennaf 2014 a mis Mawrth 2017 a chafodd ei chyllido a'i gweithredu gan Lywodraeth Cymru. Cafodd y rhaglen ei lansio mewn ymateb i'r argymhellion a amlinellir yn Ar ôl Pwysu a Mesur: Sicrhau Democratiaeth Amrywiol mewn Llywodraeth Leol yng Nghymru,¹ adroddiad dros weithredu yn erbyn y diffyg amrywiaeth sydd wedi treiddio drwy lywodraeth leol yng Nghymru (Grŵp Arbenigwyr ar Amrywiaeth mewn Llywodraeth Leol, 2014).
- 1.2 Cafodd y rhaglen hon ei ffurfio hefyd mewn ymateb i bolisi, fel Deddf Cydraddoldeb (2010), ac mewn cysondeb â pholisi a ddatblygwyd wrth weithredu'r rhaglen, megis y ddeddf arwyddocaol, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (2015). Yr adroddiad Ar ôl Pwysu a Mesur a arweiniodd weledigaeth y rhaglen Amrywiaeth mewn Democratiaeth – cynnydd yn amrywiaeth unigolion sy'n sefyll i gael eu hethol i lywodraeth leol, gyda'r nod mwy hirdymor o gynyddu amrywiaeth mewn llywodraeth leol yng Nghymru er mwyn sicrhau cynrychiolaeth gywirach o'r cymunedau a'r etholwyr, a mwy o atebolrwydd i'w dinasyddion. Mae'r weledigaeth hon wedi ei rhannu'n nodau ac amcanion allweddol ac fe'i trafodir mewn mwy o fanylder yn [Atodiad A](#) yr adroddiad hwn.
- 1.3 Ochr yn ochr â'r rhaglen, roedd argymhellion yn adroddiad Ar ôl Pwysu a Mesur yn cyfeirio'n ogystal at gasglu data yn ffurf dau arolwg: Arolwg o Ymgeiswyr Llywodraeth Leol, a'r Arolwg o Aelodau sy'n Ymadael. Caiff yr Arolwg o Ymgeisgwyr Llywodraeth Leol ei

¹ Cafodd y Grŵp Arbenigol ar Amrywiaeth mewn Llywodraeth Leol ei sefydlu gan y Gweinidog dros Lywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth yn haf 2013. Eu diben oedd adolygu data meintiol ac ansoddol i gynhyrchu argymhellion ar sut y gellir gwella amrywiaeth mewn llywodraeth leol. Caiff yr argymhellion hyn eu dogfennu o fewn yr adroddiad Ar ôl Pwysu a Mesur, a oedd yn gyrru sail rhesymegol y rhaglen Amrywiaeth mewn Democratiaeth.

drafod yn fanwl o fewn yr ymgyrch gyfathrebu, gan mai un o nodau'r rhaglen Amrywiaeth mewn Democratiaeth oedd gwella ymatebion. Mae'r Arolwg Aelodau sy'n Ymadael, fodd bynnag, hefyd yn bwysig ei ystyried gan fod adroddiad Ar ôl Pwyso a Mesur yn argymhell casglu data ar y rheini sy'n ymadael, er mwyn asesu'r rhesymau pam (Grwp Arbenigwyr ar Amrywiaeth mewn Llywodraeth Leol, 2014). Cafodd yr arolwg ei weinyddu yn 2017 gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i archwilio'r rhesymau tu ôl i'r penderfyniad i ymadael, a'u profiad cyffredinol o lywodraeth leol.

Ynglŷn â'r gwerthusiad

- 1.4 Cafodd Miller Research, ar y cyd â'r Athro Laura McAlister, Joanne Sullivan a Four Cymru, eu comisiynu gan Lywodraeth Cymru i gynnal gwerthusiad annibynnol o'r rhaglen Amrywiaeth mewn Democratiaeth ym mis Ebrill 2018. Mae gwerthusiad annibynnol trylwyr yn rhoi asesiad gwrthrychol o ganlyniadau ac effeithiau unrhyw brosiect neu raglen benodol.

Strwythur yr adroddiad terfynol

- 1.5 Yr adroddiad hwn yw allbwn terfynol y gwerthusiad, sy'n dogfennu'r canfyddiadau o'r holl gamau a gwblhawyd fel rhan o'r gwerthusiad hwn. Fe wnaeth cam cyntaf y gwerthusiad arwain at Adroddiad Cychwynnol, a oedd yn rhoi dealltwriaeth o gefndir y prosiect, a methodoleg ddatblygedig ar gyfer tasgau'r ymchwil. Yr ail gam (a'r ail allbwn) oedd yr Adroddiad Interim, a oedd yn crynhoi canfyddiadau allweddol o adolygiad desg o lenyddiaeth, dogfennaeth rhaglenni a data monitro rhaglenni.
- 1.6 Mae'r adroddiad terfynol hwn yn rhoi trosolwg o'r canfyddiadau allweddol ynghylch effeithiau rhaglen Amrywiaeth mewn Democratiaeth ar sail tystiolaeth o ganfyddiadau'r astudiaethau desg, a gweithgareddau gwaith maes. Ei brif ddiben yw rhoi dealltwriaeth o effeithiolrwydd y rhaglen, a chynnig argymhellion i Lywodraeth Cymru eu hystyried, pe baent yn penderfynu gweithredu rhaglen debyg yn y

dyfodol. Bydd gweddill yr adroddiad hwn wedi'i strwythuro fel a ganlyn:

- Mae Adran 2 yn adolygu'r llenyddiaeth berthnasol, gan roi cefndir a fydd yn galluogi dealltwriaeth o gyd-destun rhaglen Amrywiaeth mewn Democratiaeth.
- Mae Adran 3 yn rhoi trosolwg o'r dull a ddefnyddir ar gyfer y gwerthusiad. Mae'r adran hon hefyd yn dangos sut mae Theori Newid a model rhesymeg y rhaglen a ddeilliodd ohono wedi arwain gweithgareddau'r gwerthusiad. Gellir gweld ymhelaethiad ar y dull a'r model rhesymeg yn [Atodiad B](#) ac [Atodiad C](#) o'r ddogfen hon.
- Mae Adrannau 4-9 yn crynhoi'r dystiolaeth a gasglwyd hyd yma ar raglen Amrywiaeth mewn Democratiaeth. Mae hyn wedi'i strwythuro gyda rhaglen ar bob maes gweithredu o fewn y rhaglen Amrywiaeth mewn Democratiaeth, yr argymhellion, amcanion y maes gweithredu hwnnw a'u heffeithiau. Mae hyn yn cynnwys yr adrannau canlynol:
 - Trosolwg o'r rhaglen Amrywiaeth mewn Democratiaeth
 - Cynllun Mentora
 - Ymgyrch Gyfathrebu
 - Cynllun Annog Cyflogwyr
 - Cronfa Drws i Ddemocratiaeth (D2D)
 - Cyd-drafod â phleidiau gwleidyddol
- Mae'r adran derfynol yn rhoi crynodeb o'r hyn a drafodwyd hyd yma: casgliadau, ac argymhellion i Lywodraeth Cymru a sefydliadau / unigolion eraill sydd â diddordeb mewn cynyddu amrywiaeth mewn etholiadau (llywodraeth leol).

2. Adolygiad llenyddiaeth

- 2.1 Mae'r adolygiad llenyddiaeth hwn yn gosod y cyd-destun y gweithredwyd y rhaglen Amrywiaeth mewn Democratiaeth ynddo. Mae adran gyntaf yr adolygiad hwn yn amlinellu'r cyd-destun polisi ar lefelau rhyngwladol, Llywodraeth y Deyrnas Unedig a Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn cynnwys adroddiadau a ysgrifennwyd gan Lywodraeth Cymru, papurau academiaidd, ac ymchwil a gynhyrchwyd sefydliadau eraill sy'n gweithio i hyrwyddo cydraddoldeb cynrychiolaeth grwpiau a ymylir. Mae'r ail adran yn edrych ar yr hyn mae ymchwil a wnaed eisoes wedi'i nodi fel rhwystr i bobl o gefndiroedd amrywiol wrth sefyll mewn etholiad. Mae'r drydedd adran yn rhoi trosolwg o gynlluniau blaenorol a gwersi a ddysgwyd. I grynhoi, cyflwynir crynodeb o sut mae'r holl ffactorau hyn wedi dylanwadu ar ffordd y cyflwynwyd rhaglen Amrywiaeth mewn Democratiaeth.

Cyd-destun polisi

Cyd-destun polisi (Rhyngwladol a'r Undeb Ewropeaidd)

- 2.2 Mae polisïau ar sawl lefel o lywodraeth ac iddynt o nod o gynyddu amrywiaeth cynrychiolwyr etholedig. Mae Siartr Hawliau Sylfaenol yr Undeb Ewropeaidd – (gyda statws cyfreithiol dyrchafedig o dan Gytundeb Lisbon) – yn amddiffyn yr hawl i bleidleisio a sefyll fel ymgeisydd mewn etholiadau, ac yn hyrwyddo amrywiaeth diwylliannol, ieithyddol a chrefyddol (Llywodraeth y Deyrnas Unedig, 2017). Mae polisïau arwyddocaol eraill yn cynnwys Cyfarfod Copenhagen o'r Gynhadledd ar Ddimensiwn Dynol y Gynhadledd ar Ddiogelwch a Chydweithrediad Ewrop, sy'n amddiffyn hawliau lleiafrifoedd wrth sefyll etholiad (Sefydliad Diogelwch a Chydweithrediad yn Ewrop, 1990). Yn yr un modd, mae Cyfarwydddeb Hil yr Undeb Ewropeaidd yn hyrwyddo'r 'egwyddor o driniaeth gyfartal rhwng pobl waeth beth fo'u tarddiad hiliol neu ethnig' (Baclija, et al., 2008, p. 233).

Y Deyrnas Unedig

2.3 Ar lefel y Deyrnas Unedig, mae amryw o fesurau deddfwriaethol a pholisi wedi ceisio cynyddu cydraddoldeb a lleihau gwahaniaethu yn erbyn pobl sydd â nodweddion gwarchodedig; y mwyaf arwyddocaol yw Deddf Cydraddoldeb (2010), a oedd yn diweddar ac yn integreiddio deddfwriaeth cydraddoldeb a oedd yn bod eisoes (megis y Ddeddf Tâl Cyfartal, a'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd) mewn un darn o ddeddfwriaeth. Mae'r Ddeddf yn diffinio 'nodweddion gwarchodedig' y bernir eu bod mewn perygl o arwain at wahaniaethu ar eu sail, gan gynnwys:

- oedran
- rhyw
- cyfeiriadedd rhywiol
- anabledd
- 'hil' / ethnigrwydd
- trawsryweddol (newid rhyw)
- beichiogrwydd a mamolaeth
- priodas a phartneriaeth sifil
- crefydd neu gred (gan gynnwys diffyg cred)

Mae Adran 106 o Ddeddf Cydraddoldeb (2010) yn dal heb gael ei deddfu. Mae'n galw am fwy o dryloywder ar amrywiaeth ymgeiswyr a swyddogion a etholir, ac felly gall ddarparu dyletswydd i awdurdodau lleol gyhoeddi'r wybodaeth hon (ac eithrio yn achos priodas a phartneriaeth sifil, a beichiogrwydd a mamolaeth).

Cymru

2.4 Roedd nifer sylweddol o ddatblygiadau polisi yn ymwneud ag amrywiaeth mewn llywodraeth leol wedi digwydd cyn lansio'r rhaglen Amrywiaeth mewn Democratiaeth.

2.5 Bum mlynedd cyn lansio'r gwasanaeth Amrywiaeth mewn Democratiaeth yn 2009, cyhoeddwyd yr adroddiad 'At ein

Gwasanaeth?’ ac roedd yn amlinellu nifer o gynigion i helpu cynghorwyr a chynyddu cyfranogiad democrataidd o fewn llywodraeth leol (Panel Arbenigwyr Comisiwn y Cynghorwyr, 2009). Roedd yr argymhellion yn rhagflaenu Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 (‘y Mesur’). Prif fwriad y Mesur oedd cryfhau rôl cynghorwyr, gan ganolbwyntio ar y rheini y tu allan i safleoedd gweithrediaeth / arweinyddiaeth (Llywodraeth Cymru, 2011). Gan ymwneud â materion amrywiaeth a chynrychiolaeth, mae’r mesur yn pennu amrywiol argymhellion i lywodraeth leol.

- Awdurdodau lleol i ystyried nifer o gyfleoedd hyfforddi (gan gynnwys ar gydraddoldeb ac amrywiaeth) i’w haelodau.
- Dylai awdurdodau lleol adolygu, yn rheolaidd, y graddau y mae cyfarfodydd yn cael eu cynnal ar adegau sydd yr un mor hygyrch i’r holl aelodau.
- Mae hawl gan aelodau awdurdodau lleol i absenoldeb am resymau teuluol (ee mamolaeth).
- Dylai cynghorau gyd-drafod â’r cyhoedd i raddau helaethach ar faterion sy’n ymwneud â phrosesau craffu, fel modd o wella iechyd democratiaeth leol.
- Dylai strategaethau cyfathrebu i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd ar graffu ystyried allgyrraedd at wahanol nodweddion gwarchodedig.

2.6 Yn 2013 fe wnaeth y Prif Weinidog sefydlu’r Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus. Nod y Comisiwn oedd archwilio ffyrdd y gellir gwella’r ffordd y caiff gwasanaethau cyhoeddus eu darparu (Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus, 2014). Roedd yr adroddiad (Adroddiad Williams) yn ystyried cwmipas a ffurf bresennol gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, yng nghyd-destun newidiadau presennol, a rhai ar ddigwydd, i’r economi, demograffeg a gwariant cyhoeddus. Mae’n bwysig nodi bod yr adroddiad yn cydnabod bod angen amrywiaeth mewn safleoedd arweiniol er mwyn galluogi newid wrth

ddarparu gwasanaethau, ac y gallai diffyg arweinwyr amrywiol mewn safloedd gweithredol a gwleidyddol lesteirio datblygiad dulliau newydd ar arloesol. Yn ogystal, roedd yr adroddiad yn nodi y dylai 'parchu amrywiaeth' fod yn un o egwyddorion allweddol darparu gwasanaethau lleol, ac yn argymhell y dylai awdurdodau lleol gymryd camau pellach i gyd-drafod â'r cyhoedd yn gyffredinol, a 'bod yn rhaid cynnal a gwella cynrychiolaeth cymunedau a chymdogaethau' (Y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus, 2014) (Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus, 2014). Mae'r argymhellion hyn yn ymwneud yn uniongyrchol â gwasanaethau cyhoeddus (yn hytrach na gwleidyddiaeth ac etholiadau), fodd bynnag mae'r argymhellion hyn yn ymwneud yn uniongyrchol â rhai tybiaethau sy'n sail i'r rhaglen Amrywiaeth mewn Democratiaeth, y byddai amrywiaeth o fewn sefydliad yn arwain at newid cadarnhaol a gwella llesiant cyhoeddus (yn achos Amrywiaeth mewn Democratiaeth, ymwneud y cyhoedd â llywodraeth leol).

2.7 Yn dilyn cyflwyno'r Mesur ac Adroddiad Williams, cymerwyd nifer o gamau pellach yn ystod 2014 a 2015 cyn lansio'r rhaglen Amrywiaeth mewn Democratiaeth. Mae'n bwysig nodi eu bod yn amlygu newidiadau a diwygiadau i lywodraeth leol a oedd yn cael eu cynnig wrth i Amrywiaeth mewn Democratiaeth gael ei gynllunio a'i lansio (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2018):

- Cyhoeddwyd y Papur Gwyn yn dwyn y teitl Datganoli, Democratiaeth a Chyflawni ym mis Gorffennaf 2014. Roedd yn ymateb i Adroddiad Williams, a oedd yn cynnwys argymhellion megis lleihau'r nifer o awdurdodau lleol.
- Gwahoddodd Llywodraeth Cymru awdurdodau lleol i gyflwyno cynigion am gyfuno gwirfoddol ar ran Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, ym mis Medi 2014.

- Ar ddiwedd 2014, fe wnaeth y Sefydliad Siartredig Cyllid a Chyfrifyddiaeth amlinellau costau uno, ac fe wnaeth Llywodraeth Cymru gyhoeddi'r ymatebion i'r Papur Gwyn Datganoli, Democratiaeth a Chyflawni.

2.8 Yn yr un modd, cafodd yr adroddiad 'Ar ôl Pwysu a Mesur – Sicrhau Democratiaeth Amrywiol mewn Llywodraeth Leol yng Nghymru' ei ddatblygu gan banel annibynnol o arbenigwyr y gofynnwyd iddynt gynghori Llywodraeth Cymru. Ymatebodd yr adroddiad gan ystyried newidiadau a gynigiwyd gan Lywodraeth Cymru yn ystod 2014. Roedd y pwyslais yn parhau ar ddemocratiaeth a chyfranogiad amrywiol fodd bynnag, gan argymhell, er enghraifft, fod cynghorwyr yn dilyn gweithgareddau mentora, er mwyn ehangu cyfranogiad mewn llywodraeth leol, a bod 'hyrwyddwyr mentora' yn cael eu sefydlu mewn cynghorau (Llywodraeth Cymru, 2014 (a)).

2.9 Yn 2015, ar ôl lansio'r rhaglen Amrywiaeth mewn Democratiaeth, fe wnaeth nifer o newidiadau i ddeddfwriaeth Cymru barhau i gefnogi'r gyriant am ymyraethau sy'n canolbwyntio ar amrywiaeth mewn llywodraeth leol. Mae'n bwysig nodi y gellir gweld bod cyflwyno Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gweithio law yn llaw â'r rhaglen. Yn gyffredinol, mae'r rhaglen Amrywiaeth mewn Democratiaeth yn gydnaws ag amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol – wrth amlinellu Cymru sy'n Fwy Cyfartal fel Amcan Llesiant allweddol (Llywodraeth Cymru, 2015). Yn benodol, mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn diffinio hyn fel 'cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial waeth beth fo'u cefndir neu amgylchiadau'.

2.10 Roedd newidiadau eraill o fewn 2015 a welodd newidiadau (arfaethedig) i lywodraeth leol, yn cynnwys (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2018):

- Y Papur Gwyn ar Ddiwygio Llywodraeth Leol: Grym i Bobl Leol – a oedd yn cynnwys argymhellion ar sut i gynyddu amrywiaeth

cynghorwyr etholedig, a chynyddu llais a chyfraniad cymunedol yn y ffordd y gweithredir llywodraeth leol

- Cyhoeddwyd bil drafft seiliedig ar y Papur Gwyn Datganoli, Democratiaeth a Chyflawni (uchod) ar gyfer ymgynghori ac roedd yn cynnwys yr amcan allweddol o gynyddu llywodraethiant, atebolrwydd a pherfformiad cymunedol
- Cyflawnodd y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol waith craffu cyn-ddeddfwriaethol ar y Bil Drafft Llywodraeth Leol (Cymru), a oedd yn cynnwys ymgynghori cyhoeddus.

2.11 Yn 2016, cyhoeddwyd y Papur Gwyn – Diwygio Llywodraeth Leol – Cadernid ac Adnewyddiad. Roedd y papur yn dangos arwydd penodol o ymrwymiad i ganfyddiadau'r adroddiad Ar ôl Pwyso a Mesur, ac yn cynnig newidiadau i etholiadau a phleidleisio a oedd yn cynnwys:

- archwilio sut i ddatblygu cofrestr electronig sengl i Gymru (a fyddai'n cofrestru etholwyr yn awtomatig)
- symud i dymhorau pum-mlynedd ar gyfer llywodraeth leol
- ystyried deddfwriaeth a fydd yn caniatáu i gynghorau unigol benderfynu pa system bleidleisio sydd orau ganddynt.

2.12 Mae Amcan 5 o Gynllun Cydraddoldeb Strategol ac Amcanion Cydraddoldeb Llywodraeth Cymru (2016-2020) (Llywodraeth Cymru, 2016) yn datgan yr ymrwymiad i 'gyflwyno cronfa fwy amrywiol o benderfynwyr mewn bywyd cyhoeddus' trwy fynd i'r afael â'r rhwystrau cysylltiedig. Un o'r camau gweithredu allweddol yw i Lywodraeth Cymru 'gydweithio â chyflogwyr i hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r gwerth iddynt hwy o gael y sgiliau a'r profiad y gall staff eu caffael trwy weithredu fel cynghorwyr llywodraeth leol' er mwyn ehangu'r amrywiaeth o bobl a all sefyll etholiad.

2.13 Wrth edrych ymlaen, polisi arall sy'n effeithio ar ymyraethau ar lefel leol yw cynnig i ddiwygio strwythurau llywodraeth leol a rheolau ynghylch etholiadau. Ar ôl etholiadau lleol 2017, cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ar Ddiwygio Etholiadol ym maes

Llywodraeth Leol yng Nghymru (Llywodraeth Cymru, 2018). Roedd yr ymgynghoriad yn gwahodd barn y cyhoedd ar gynigion i gynyddu cyfranogiad mewn democratiaeth leol, pwy ddylai fod yn gymwys i bleidleisio, a sut y dylid trefnu etholiadau (Llywodraeth Cymru, 2018). Roedd y cynigion roedd ymatebwyr yn cytuno â hwy, i gynyddu cyfranogiad mewn etholiadau, ac mewn llywodraeth leol, yn cynnwys:

- Symleiddio gweithdrefnau a llenyddiaeth pleidleisio drwy'r post (68% yn cytuno)
- Cael gorsafoedd pleidleisio symudol yn ystod etholiadau lleol (78% yn cytuno)
- Pleidleisio electronig ac o bell mewn etholiadau lleol (72% yn cytuno â'r cyntaf a 61% â'r ail)
- Gostwng oedran pleidleisio mewn etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru i 16 (68% yn cytuno).

2.14 Yn dilyn yr ymgynghoriad ac wrth amlinellu blaenoriaethau deddfwriaethol Cymru, dywedodd y Prif Weinidog y bydd 'y llywodraeth yn cyflwyno bil llywodraeth leol, a fydd yn cynnwys diwygio trefniadau etholiadol awdurdodau lleol, gan gynnwys gostwng yr oedran pleidleisio i gynnwys pobl ifanc 16 ac 17 oed.' (Llywodraeth Cymru, 2018).

2.15 Ym mis Mawrth 2018, fe wnaeth Llywodraeth Cymru ymgynghori ar y Papur Gwyrdd 'Cryfhau Llywodraeth Leol: Cyflawni dros ein Pobl' (Llywodraeth Cymru, 2018). Nod yr ymgynghoriad oedd ceisio barnau ar y cynigion a nodwyd yn y Papur Gwyrdd. Roedd y cynigion sydd o arwyddocâd i'r gwerthusiad hwn yn cynnwys:

- cyfres o ddewisiadau cyfuno i helaethu awdurdodau lleol yng Nghymru
- cynyddu grym a hyblygrwydd cynghorwyr i ddeddfu newid yn eu hardaloedd lleol (megis mewn tai)
- newid y tâl a'r gefnogaeth mae cynghorwyr yn eu cael.

- 2.16 Ym mis Gorffennaf 2018, roedd datganiad Ysgrifennydd y Cabinet yn cynnwys cyhoeddi gweithgor annibynnol – ‘i hyrwyddo dull ar y cyd a fydd yn dylanwadu ar ddyfodol llywodraeth leol a darparu gwasanaethau yn y dyfodol’, a oedd yn cynnwys edrych ar sut y gellir gwella amrywiaeth mewn llywodraeth leol (Llywodraeth Cymru, 2018). Yn hwyr yn 2018, etholwyd Prif Weinidog newydd ac felly newid i swyddi'r cabinet. Mae Julie James AC wedi cael ei phenodi'n Weinidog Tai a Llywodraeth Leol. Er gwaethaf y newidiadau hyn, hyd at fis Mawrth 2019, nid oes unrhyw newidiadau wedi cael eu cyhoeddi i dirwedd deddfwriaeth diwygiadau llywodraeth leol (megis cyfuniadau gwirfoddol).

Rhwystrau rhag cymryd rhan

- 2.17 Mae llawer o rwystrau strwythurol, cymdeithasol a diwylliannol a all rwystro pobl o gefndiroedd amrywiaeth rhag sefyll mewn etholiad llywodraeth leol. Roedd y rhaglen Amrywiaeth mewn Democratiaeth yn canolbwyntio ar rwystrau diwylliannol a chymdeithasol (megis hyder), tra bod deddfwriaeth Llywodraeth Cymru yn gosod pwyslais ar faterion strwythurol a sefydliadol – fel darpariaeth gofal plant o fewn y Mesur fel y trafodir uchod. Mae'n bwysig er hynny ystyried y rhwystrau strwythurol a sefydliadol yma – er mwyn ystyried y cyddestun roedd y rhaglen Amrywiaeth mewn Democratiaeth yn gweithredu ynddo. Er bod yr adroddiad hwn yn cydnabod cymhlethdodau sut mae hunaniaethau ac anfanteision unigol yn cyd-groesi, nid yw'r adran hon yn ceisio cyfrif am brofiadau pawb. Yn hytrach, gan ddefnyddio ymchwil blaenorol, mae'r arolwg hwn yn cyflwyno rhwystrau a brofir gan wahanol grwpiau / hunaniaethau demograffaid ac yn eu trafod mewn dull mwy thematig (megis cyllid fel rhwystr).
- 2.18 Nod yr adolygiaeth llenyddiaeth hwn oedd amlinellu'r dadleuon ynghylch sut i gynyddu cydraddoldeb ac amrywiaeth o fewn llywodraeth. Yn y pen draw, mae mynediad anghyfartal at gyfleoedd

(megis rhwystrau a wynebir gan ymgeiswyr posibl) yn aml yn ganlyniad y rhyngweithio rhwng gweithgaredd unigolyn a strwythurau cymdeithasol (a fel arall) a all gynnal ac ymestyn anghydraddoldeb (Apter & Garnsey, 1994). Er enghraifft, os mai merched sy'n darparu'r prif ffynhonnell o ofal plant, yna maent yn debygol o brofi anfantais economaidd o gymharu â dynion, yn sgil amser oddi wrth y farchnad lafur (gan ostwng incwm ac o bosibl rwystro camu ymlaen mewn gyrfa). O ganlyniad, gallant ei chael yn anodd fforddio cymryd amser i ffwrdd o'r gwaith i ymgyrchu ar gyfer etholiad, neu i gyflawni dyletswyddau cynghorydd (Grwp Arbenigwyr ar Amrywiaeth mewn Llywodraeth Leol, 2014). Mae'r adolygiad isod yn dangos bod rhaglen Amrywiaeth mewn Democratiaeth yn ceisio mynd i'r afael â rhai o'r rhyngweithiadau cymdeithasol, unigol a strwythurol sy'n galluogi anghydraddoldeb – er mwyn gwella cydraddoldeb cyfle i ymgeiswyr yn etholiadau lleol 2017 yng Nghymru.

Cynrychiolaeth swyddogion etholedig yng Nghymru

- 2.19 Er mwyn dangos bod rhwystrau rhag ethol ymgeiswyr amrywiol i lywodraeth leol yng Nghymru – ac, felly, yr angen cyffredinol am y rhaglen – mae'r tablau isod yn cyflwyno cymhariaeth o ddemograffeg cynghorwyr sir a etholwyd yn 2012 a 2017, ochr yn ochr â data cyfrifiad fel cymharydd. Gwendid y dadansoddiad hwn yw nad yw'n cyfrif yn drawsadrannol nac am hunaniaethau lluosog (megis y nifer o gynghorwyr benywaidd anabl), ond mae, er hynny, yn rhoi darlun defnyddiol o'r anghydraddoldeb sy'n bresennol o fewn llywodraeth leol.²

² Ffigurau a hunan-adroddwyd yw'r rhai a nodir yma. Mae ymchwil pellach wedi cael ei wneud gan Chwarae Teg a'r Gymdeithas Diwygio Etholiadol ar ddemograffeg cynghorwyr.

Tabl 1 Demographeg Cynghorwyr Etholedig o Gymharu â Phoblogaeth Cymru mewn canrannau

Cynrychiolwyr Etholedig				
		2012	2017	Cenedlaethol
Benywaidd		28	33	50.9
BME		0.6	1.8	4.4
Oedran	18-39	7	17	24.7 ³
	40-59	34	38	26.8
	60+	57	47	25.1
LGB+		3	7.1	1.7

Ffynhonnell: StatsCymru – Poblogaeth Breswyl yn ôl Rhyw ac Oedran (StatsCymru, 2011) Data Cyfrifiad ONS, Poblogaeth yn ôl Rhyw ac Ethnigrwydd (ONS, 2011) ONS, Hunaniaeth Rywiol y DU (ONS, 2016), Arolwg Ymgeiswyr Llywodraeth Leol Cymru 2012⁴ (Llywodraeth Cymru, 2013) Arolwg Ymgeiswyr Llywodraeth Leol Cymru 2017 (Llywodraeth Cymru, 2018)

2.20 Newidiodd y fethodoleg casglu data ar gyfer yr Arolwg Ymgeiswyr Llywodraeth Leol rhwng 2012 a 2017, ac o'r herwydd, nid yw'n bosibl gwneud cymhariaeth uniongyrchol o newidiadau i broffil ymgeiswyr llywodraeth leol yn ystod y cyfnod hwnnw. Yn 2012, gweinyddwyd yr arolwg gan Lywodraeth Cymru, ac yn 2017 gan Data Cymru – a allai fod wedi effeithio ar gyfraddau ymateb.⁵ Yn ogystal, mae'r ffordd mae'r arolwg yn holi cwestiynau ynghylch anabledd yn amrywio'n sylweddol, ac felly nid yw cymhariaeth uniongyrchol yn bosibl. Yn 2012 roedd yn cynnig y dewis i ymgeiswyr nodi a oedd ganddynt anabledd neu beidio, lle yn 2017 roedd yn rhoi cyfle i gyfeirio'n ogystal at salwch hirdymor neu amhariad iechyd. Yn 2012, dywedodd 14 y cant o gynghorwyr etholedig fod ganddynt anabledd, ac yn 2017, dywedodd 11 y cant fod ganddynt anabledd a dywedodd 18 y cant fod ganddynt salwch neu anabledd sy'n cyfyngu ar weithgareddau. Y

³ Mae'r ffigur hwn yn adlewyrchu'r boblogaeth 20-39 oed, gan nad oes dadansoddiad ar gyfer dros 18 ar gael o'r ffynhonnell hon.

⁴ Nid yw Arolwg Ymgeiswyr Llywodraeth Cymru 2012 yn cynnwys canlyniadau o Sir Fôn oherwydd i'r etholiad gael ei ohirio yno, a'i gynnal yn 2013 yn lle hynny.

⁵ Mae mwy o fanylder i'w gael yn yr adroddiad technegol ar yr arolwg.

gwahaniaeth mwyaf sylweddol rhwng y ddwy set ddata yw'r gyfran o gynghorwyr o fewn yr ystod oedran 18-39 (7 y cant yn 2012, o gymharu â 17 y cant yn 2017).

- 2.21 Er eu bod yn dangos cynydd mewn cynrychiolaeth ymgeiswyr benywaidd (5 pwynt canran), ac ymgeiswyr duon ac o leiafrifoedd ethnig (BME) (1.2 bwynt canran), mae canlyniadau'r arolwg yn awgrymu eu bod yn dal i gael eu tan-gynrychioli mewn cymhariaeth â demograffeg genedlaethol.
- 2.22 Mae'r nifer o gynghorwyr LGB+ yn ôl yr hyn a adroddwyd yn arolwg 2017, yn awgrymu gor-gynrychiolaeth o'r ddemograffeg hon mewn llywodraeth leol. Rhaid nodi, fodd bynnag, bod y setiau data sydd ar gael am y nifer y bobl LGB+ yn genedlaethol yn seiliedig ar sampl bach (2,367) yn hytrach na data cyfrifiad. Yn ogystal, fe wnaeth 2.7 y cant o ymatebwyr i arolwg yr ONS ddewis peidio ag ateb y cwestiwn hwn. Gall y 'gwir' nifer o bobl sy'n adnabod eu hunain fel LGB+ fod wedi'i ystumio felly yn sgil pwysau cymdeithasol ynghylch rhywioldeb – a dewis ymateb 'ddim yn gwybod' neu 'heterorywiol'.

Nid oes dim data ar gael yn yr arolwg i ddogfennu'r nifer o ymgeiswyr sy'n adnabod eu hunain fel rhai trawsrywiol, neu yn ôl grŵp crefyddol, oherwydd ni ofynnwyd y cwestiwn hwn. Yn gyffredinol, roedd y data yn dangos bod tan-gynrychiolaeth sylweddol o'r mwyafrif o'r nodweddion amrywiol hyn. Mae adrannau canlynol yr arolwg hwn yn archwilio'r rhesymau tu ôl i lefelau isel cynrychiolaeth o'r grwpiau hyn.

Pwysau adnoddau

- 2.23 Mae'r adroddiad Lleisiau Newydd a'r adroddiad Ar ôl Pwyso a Mesur yn nodi y gall pwysau ariannol fod yn rhwystr wrth ymgeisio mewn etholiad llywodraeth leol (Grwp Arbenigwyr ar Amrywiaeth mewn Llywodraeth Leol, 2014; Y Gymdeithas Diwygio Etholiadol, 2018). Mae cynghorydd (nad oes ganddo rôl yn y cabinet nac mewn pwyllgor) yn derbyn incwm blyneddol o £13,400 (a fydd yn cael ei ddiweddarau i £13,860 ym mis Ebrill 2019) (Panel Annibynnol Cymru

ar Gydabyddiaeth Ariannol, 2019). Dywedodd un ymatebydd yn y gweithgaredd gwaith maes a gwblhawyd o fewn Lleisiau Newydd fod gwaith cynghorydd yn aml yn anodd ei gydbwysu â gwaith llawn-amser a rhan-amser oherwydd yr ymrwymadau sy'n ofynnol wrth fod yn gynghorydd (Y Gymdeithas Diwygio Etholiadol, 2018). Daw'r adroddiad Ar ôl Pwysu a Mesur i gasgliad tebyg y gall pobl fod yn anfodlon aberthu camu ymlaen mewn gyrfa yn sgil y rôl (Grwp Arbenigwyr ar Amrywiaeth mewn Llywodraeth Leol, 2014).

- 2.24 Mae pwysau ariannol yn debygol hefyd o gael effaith anghymesur ar bobl anabl. Fel y nodwyd yn adroddiad Cynhadledd y Llefarydd ar wella amrywiaeth mewn bywyd cyhoeddus (Ty'r Cyffredin, 2010), ac yn y gwerthusiad o'r Gronfa Mynediad at Swydd Etholedig (Lloegr a'r Alban), mae pobl anabl yn aml yn llai tebygol o fod ag incwm gwario na phobl nad ydynt yn anabl (Swyddfa Cydraddoldeb y Llywodraeth, 2015) (Inclusion Scotland, 2017). Mae'r ymatebion i'r Arolwg o Aelodau sy'n Ymadael yn adlewyrchu'r pryderon hyn – gyda 35 y cant yn dweud bod y tâl yn annigonol, a 5 y cant yn nodi tâl isel fel y rheswm iddynt beidio â sefyll i gael eu hailethol (Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, 2017). Roedd un sylw yn cynnwys ei fod 'yn arian annigonol i fyw arno' yn sgil dod yn ddi-waith, a dywedodd un arall fod yr ymrwymiad amser yn 'gwneud ein cyfradd tâl yn is na'r isafswm cyflog' (Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, 2017).
- 2.25 Ochr yn ochr â rhwystrau ariannol, roedd yr amser sy'n ofynnol er mwyn cyflawni'r swydd yn cael ei ystyried fel anhawster i'r rheini mewn swydd gyflogedig neu a chanddynt gyfrifoldebau eraill fel gofal plant (Y Gymdeithas Diwygio Etholiadol, 2018). Yn Arolwg 2017 o'r Aelodau a oedd yn Ymadael, fe wnaeth 15 y cant nodi pwysau amser fel y rheswm, a dywedodd 63 y cant eu bod yn treulio mwy na 21 awr yr wythnos yn eu rôl (Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, 2017). Roedd y pwysau amser sy'n gysylltiedig â gwaith cyflogedig hefyd yn cael eu hadlewyrchu yn ymatebion yr arolwg – gan fod 57 y cant o ymgeiswyr cyflogedig yn treulio mwy na 21 awr yr wythnos mewn

dyletswyddau cyngor o gymharu â 73 y cant o'r rheini nad oedd mewn gwaith cyflogedig (Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, 2017).

Awgryma hyn fod y rheini heb waith cyflogedig yn gallu treulio mwy o amser ar ddyletswyddau cynghorydd – ac y gall gwaith cyflogedig, felly, lesteirio'r gallu o neilltuo cymaint o amser i fod yn gynghorydd.

Ffactorau unigol, sefydliadol a strwythurol (neu gymdeithasol)

- 2.26 Mae'r llenyddiaeth a archwiliwyd fel rhan o'r gwerthusiad hwn wedi dangos y gall nifer o rwystrau cymdeithasol, diwylliannol a sefydliadol rwystro pobl o gefndiroedd rhag sefyll etholiad. Fe wnaeth Rallings, Thrasher, Borisyuk a Shears (Rallings, et al., 2010) grynhoi trafodaethau ynghylch cynrychiolaeth mewn llywodraeth leol, wrth ofyn ai uchelgais bersonol (dewis unigolyn) neu'r broses ddewis (rhagfarn sefydliadol) yw'r hyn sy'n penderfynu a yw unigolyn yn sefyll etholiad neu beidio (Rallings, et al., 2010).
- 2.27 Yn ogystal â rhwystrau mewnol o fewn cyngor, fel y trafodwyd uchod, gall agweddau cymdeithasol tuag at bobl o gefndiroedd amrywiol atal darpar ymgeiswyr posibl rhag sefyll. Wrth edrych ar Wlad Pwyl, daw Matysiak i'r casgliad 'mae'r canrannau o gynrychiolwyr pentrefi sy'n ferched yn amlwg is ... lle nodweddir cymunedau lleol gan barhad cadwedig traddodiadau.' (Matysiak, 2015, pp. 703-704). Mae gwaith arall yn canolbwyntio ar faterion tebyg ym Mhrydain – megis grwpiau penodol yn profi allgáu hanesyddol o'r broses wleidyddol, fel rheswm sy'n parhau a rhwystr i'r nifer presennol o ferched sy'n cymryd rhan mewn gwleidyddiaeth (Game, 2009).
- 2.28 Darganfu astudiaethau eraill a oedd yn canolbwyntio ar Brydain ddisgwyliadau isel o berfformiad biwrocratiaeth fwy cynrychioliadol, rhywbeth y dadleuir y gall fod yn arwydd o hiliaeth neu 'amheuaeth gyhoeddus' o leiafrifoedd ethnig mewn rolau cynrychioliadol (Andrews, et al., 2005). Gall amgylcheddau gelyniaethus – boed hwy'n ganfyddedig neu'n wirioneddol – leihau cyfle i bobl o gefndiroedd amrywiaeth sefyll etholiad neu gymryd rhan mewn

democratiaeth oherwydd, fel y dangoswyd yn y drafodaeth ar hawliau LGB+: 'daeth gwaddol polisi negyddol, natur braidd yn gaeedig system wleidyddol Prydain a diffyg cyngheiriaid o fewn yr elft drwy gydol llawer o'r cyfnod wedi'r ail ryfel byd at ei gilydd i greu strwythurau cyfloedd cymharol andwyol i fudiadau LGB' (Kollman & Waites, 2011, p. 186).

- 2.29 Yn gyffredinol, mae'r ffynonellau hyn yn awgrymu y gallai amgylchedd 'elyniaethus' ganfyddedig, yn rhyngwladol ac o fewn Prydain, tuag at bobl o amrywiol gefndiroedd rwystro unigolion rhag sefyll etholiad na chymryd rhan mewn llywodraeth.

Dewis ymgeiswyr

- 2.30 Gall rhwystrau sefydliadol o fewn proses ddewis ymgeiswyr (megis mewn plaid wleidyddol) hefyd leihau amrywiaeth o fewn llywodraeth. Yn yr erthygl gan Rallings, Thrasher, Borisyuk a Shears, awgrymir bod y rhwydweithiau cymdeithasol sy'n gysylltiedig â'r broses recriwtio mewn etholiadau yn aml wedi eu ffurfio o ddynion hŷn, gwyn a phroffesiynol, a all gyfyngu cyfleoedd am fwy o gynrychiolaeth o bobl o gefndiroedd mwy amrywiol (Rallings, et al., 2010). Mae Bulut a Taniyici yn dadlau bod 'agweddau cynrychiolwyr lleol at gynrychiolaeth a chyfranogiad o leiaf cyn bwysiced ag agweddau'r rhai a gynrychiolir' oherwydd yn y pen draw, y swyddogion etholedig yw'r rhai a all ddiwygio democratiaeth leol i wella cynrychiolaeth (Bulut & Taniyici, 2006, p. 414). Yn yr un modd, awgryma Game y dylid cyflwyno newidiadau sylweddol i'r broses ddewis (yn ffurf cwtâu gorfodol) i gyrraedd cydraddoldeb rhwng y rhywiau mewn llywodraeth leol (Game, 2009). Yn gyffredinol, awgryma'r testunau hyn y gall rhagfarn (gwirioneddol a chanfyddedig) o fewn prosesau dewis, fod yn rhwystr i bobl o gefndiroedd amrywiol sy'n eu cynnig eu hunain fel ymgeiswyr.
- 2.31 Er bod cydnabyddiaeth sylweddol fod rhwystrau rhag cymryd rhan, mae llenyddiaeth gyfoes yn nodi y gall swyddogion etholedig fod yn

gyndyn o wneud newidiadau strwythurol neu'n ymwrthod rhag cymryd camau cadarnhaol i fynd i'r afael â'r rhwystrau hynny (Rallings, et al., 2010). Mae hyn yn enghraifft o 'ffactorau sefydliadol' ac yn ymwneud â'r 'galw' am ymgeiswyr amrywiol. Mae cwtâu ar gyfer cydraddoldeb rhwng y rhywiau wedi cael eu defnyddio mewn rhai achosion i oresgyn yr anawsterau hyn. Fel y dywed Ruedin, 'nid ymddengys fod cwtâu gwirfoddol o'r rhywiau yn gysylltiedig â chyfran uwch o ferched yn y senedd ... oherwydd nad ydynt yn cael eu gweithredu'n ymroddedig.' (Ruedin, 2012, p. 107). Mae MacKay a McAllister yn nodi'r llwyddiant mae 'Rhestrau Byr Merched yn Unig' y Plaid Lafur wedi ei gael wrth gynyddu'r galw am ymgeiswyr benywaidd, a'u hethol (Mackay & McAllister, 2012). Ar hyn o bryd, mae'r Plaid Lafur yn defnyddio rhestrau byr i ferched yn unig er mwyn cynyddu'r galw am ymgeiswyr benywaidd, ar bob lefel o lywodraeth, ac mae Plaid Cymru wedi defnyddio mesurau 'bob yn ail' lle rhoddir y lle cyntaf a'r trydydd i ferched ar restr ranbarthol (Y Gymdeithas Diwygio Etholiadol, 2018).⁶

Goblygiadau (diffyg) amrywiaeth mewn democratiaeth

- 2.32 Mae amrywiol awduron o'r farn fod amrywiaeth ymhlith swyddogion etholedig yn helpu lleisio pryderon grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol, ac felly'n cynyddu'r atebolrwydd a'r craffu sydd mewn llywodraeth leol (Baclija, et al., 2008; Andrews, et al., 2005; Durose, et al., 2013; Mackay & McAllister, 2012).⁷ Mae adroddiad y Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad, 'Senedd sy'n Gweithio i Gymru' yn nodi bod rhwystrau i amrywiaeth ym mhob haen o

⁶ Er enghraifft, yn Etholiad Cyffredinol 2017, [roedd y gyfran o ymgeiswyr benywaidd yn wahanol rhwng pleidiau](#) lle bo 41% o ymgeiswyr Llafur yn ferched, a gymharu â 29% o ymgeiswyr y Ceidwadwyr a 29% o ymgeiswyr y Democratiaid Rhyddfrydol.

⁷ Baclija, I., Brezovsek, M. and Hacek, M. (2008) Positive Discrimination of the Roma minority: The case of Roma local councillors in Slovenia. 15 (2) ethnicities; Andrews, R., Boyne, G.A., Meier, K.J., O'Toole Jr., L.J. a Walker, R.M. (2005) Representative Bureaucracy, Organisational Strategy, and Public Service Performance: An Empirical Analysis of English Local Government 15. Journal of Public Research and Theory.; Durose, C., Richardson, L., Combs, R., Eason, C. a Gains, F. (2013) 'Acceptable Difference': Diversity, Representation and Pathways to UK Politics. 66 Parliamentary Affairs; Mackay, F & McAllister, L. (2012) Feminising British Politics: Six Lessons from Devolution in Scotland and Wales. *The Political Quarterly*.

llywodraeth yng Nghymru (Panel Arbenigwyr ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad, 2017). Mae Baclija, Brezovsek a Hacek yn dadlau mai cynghorwyr Roma, yn Slofenia, yw'r cyswllt pwysicaf wrth godi pryderon y gallai'r gymuned Roma eu cael, ac y gallai gwahaniaethu cadarnhaol alluogi cydweithio pellach gyda'r gymuned Roma a llywodraeth leol – i fynd i'r afael â materion cyflogaeth, tai, a phroblemau addysg, sy'n effeithio'n anghymesur ar bobl Roma (Baclija, et al., 2008).

- 2.33 Dadl Shan-Jan – ei her i safbwyntiau ffeministaidd gorllewinol – yw y gall cynrychiolaeth wleidyddol merched (yn Ne-ddwyrain Asia) fod yn docenistaidd, ac mewn rhai achosion, nad yw hyn yn helpu merched ennill cyfiawnder cymdeithasol na chydaddoldeb (Shan-Jan, 2018). Mae'r ddadl hon yn bwysig ynghylch materion trawsadrannol gan ei bod yn archwilio materion sy'n benodol i ferched mewn sefyllfa an-orllewinol, ac yn ogystal y dylai newid gwleidyddol gael ei deimlo y tu allan i sefydliadau yn hytrach nag oddi mewn iddynt yn unig.⁸ Mae eraill yn ystyried cynrychiolaeth yn bwysig waeth beth o'r canlyniad, gyda Ruedin yn dweud fod hyn 'yn bwysig oherwydd cyfiawnder – y farn fod pawb dynol o werth cyfartal, ac felly fod ganddynt hawl gyfartal i gymryd rhan mewn gwneud penderfyniadau' (Ruedin, 2012, p. 96).
- 2.34 Yn gyffredinol, mae'r llenyddiaeth yn awgrymu bod democratiaeth gynrychioliadol yn ffactor pwysig wrth wneud democratiaeth yn fwy effeithiol trwy annog cyfranogiad sifil gan grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol, a hefyd sicrhau y creffir ar benderfyniadau yn ôl amrywiaeth helaethach o anghenion / safbwyntiau. Mae'r dybiaeth hon – fod amrywiaeth demograffeg mewn llywodraeth yn arwain at fuddiannau

⁸ Derbyniodd y Blaid Lafur feirniadaeth gan aelodau du ac o leiafrifoedd ethnig mai merched gwyn yn bennaf oedd ei holl restrau byr o ferched yn unig. (Gweler: Game, C. (2009) Twenty-nine per cent of Women Councillors after a Mere 100 Years: Isn't it Time to look seriously at Electoral Quotas? 24 (2) Public Policy and Administration.)

mwy amrywiol a phenderfynu mwy cydnaws a chytûn – yn berthnasol i'r rhaglen Amrywiaeth mewn Democratiaeth ac i'r gwerthusiad hwn.

Cynlluniau blaenorol

- 2.35 Er mwyn deall ymhellach y gyriannau'r tu ôl i raglen Amrywiaeth mewn Democratiaeth, mae angen edrych ar y cynlluniau presennol a'u rhagflaenwyr, gan asesu'r ffactorau sy'n sail i'w heffeithiolrwydd.
- Cyfathrebu ac ennyn diddordeb*
- 2.36 Roedd yr ymgyrch 'Bod yn Gyngorydd' yn annog cynghorwyr BME sydd heb gynrychiolaeth ddigonol, ac yn dangos bod angen gwella delwedd cyngorau lleol er mwyn cysylltu â grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol ac ennyn eu diddordeb (Llywodraeth Cymru, 2014 (a)). Ers hynny, mae'r cynllun 'Bod yn Gyngorydd' wedi datblygu ei bolisiau anogaeth, gan ddefnyddio cyfryngau heblaw cyngorau lleol, megis presenoldeb ar-lein.
- 2.37 Roedd Camu Ymlaen Cymru yn rhagflaenu rhaglen Amrywiaeth mewn Democratiaeth. Cyflwynwyd y cynllun peilot gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Llywodraeth Cymru. Cafodd cyfanswm o 34 o gyfranogwyr o Gymru y cyfle i ddilyn a chael eu mentora gan gyngorydd neu Aelod Cynulliad dros gyfnod o chwe mis, gydag o leiaf 10 o 'brofiadau' i'r cyfranogwr dros y cyfnod (Llywodraeth Cymru, 2014 (a)). Cafodd y cynllun ei hyrwyddo am chwe wythnos trwy aelodau grwpiau llywio, a dosbarthwyd datganiad i'r wasg i gyfryngau cymdeithasol (Llywodraeth Cymru, 2011). Roedd hyn yn golygu cyrraedd unigolion nad oedd ganddynt ymlyniad gwleidyddol na'n aelodau o gyrff neu grwpiau cynrychioliadol ar y pryd.
- 2.38 Mae mentrau eraill wedi bod yn effeithiol yn eu technegau a gweithgareddau cyfathrebu ac ennyn diddordeb. Mae'r rhain yn cynnwys Operation Black Vote a gynhaliwyd cyn etholiad y Cynulliad 2007, (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2008), Rhwydwaith

Cydraddoldeb Merched Cymru, Fabian Women's Network, llawlyfr Inclusion London Guide a'r ymgyrch 'This Girl Can', i enwi ychydig. Mae'r Fabian Women's Network yn taflu goleuni ar rym cyrff anllywodraethol, trwy fod â chynllun mentora sefydledig sydd dros saith oed (Fabian Women, 2018). Mae'r cynlluniau hyn wedi bod yn effeithiol wrth ennyn diddordeb gan arwain at gyfranogi, oherwydd eu rhwydweithiau presennol a phresenoldeb mawr ar gyfryngau cymdeithasol ac ar-lein (Campbell & Lovenduski, 2014).

Cefnogaeth a gynigiwyd

- 2.39 Mae'r gefnogaeth a gynigiwyd ymysg cynlluniau i'w cymharu â rhai Llywodraeth Cymru yn rhoi gwersi pwysig am y berthynas rhwng mentoriaid a menoreion. Roedd cynllun Camu Ymlaen Cymru yn cynnig cymorth yn ffurf mentora / cysgodi cynghorydd neu aelod cynulliad, hyrwyddo hyfforddiant trwy gymwysterau a dyddiau hyfforddi dros gyfnod o chwe mis (Llywodraeth Cymru, 2011). Credai rhai cyfranogwyr, fodd bynnag, y gellid bod wedi gwella'r gefnogaeth: dywedodd rhai mentoreion nad oedd y mentoriaid yn diwallu eu hanghenion, ac ar y llaw arall, dywedodd rhai mentoriaid fod rhai mentoreion nad oeddent yn dangos diddordeb (Llywodraeth Cymru, 2011). Yn ogystal, er bod y cynllun yn ceisio cysylltu mentoriaid addas â mentoreion i leihau'r baich a osodwyd ar y mentorai (er enghraifft, cyfrifoldebau gofal) dywedodd rhai y gellid bod wedi gwella'r hyblygrwydd daearyddol. Yn yr un modd, roedd adborth gan y Fabian Women's Network yn cynnwys bod ansawdd y berthynas mentor / mentorai yn amrywio a bod hyblygrwydd daearyddol yn broblem (Campbell & Lovenduski, 2014). Roedd y rhaglen Women Making a Difference yn cynnig gwasanaethau gofal plant a chyllid er mwyn lleihau problemau hygyrchedd. Roedd y rhaglen gyllido Mynediad at Swydd Etholedig yn cynnig y modd ariannol ar gyfer gwella hygyrchedd, er ei fod yn fwy hwylusol ei natur yn hytrach na chynnig cymorth uniongyrchol (Swyddfa Cydraddoldeb y Llywodraeth, 2015).

- 2.40 Roedd mathau eraill o gymorth a gynigiwyd yn cynnwys darparu modiwlau hyfforddi (i fentoriaid a mentoreion), y barnwyd eu bod o wir fudd gan fuddiolwyr Camu Ymlaen Cymru. Mae cynllun y Fabian Women's Network yn yr un modd yn cynnig hyfforddiant mewn gwleidyddiaeth seneddol ochr yn ochr â'i gynllun mentoriaid. Cyflwynir hyn trwy fframwaith sgiliau gwleidyddol, gan ganolbwyntio ar feysydd craidd fel dadlau, siarad cyhoeddus, a deall polisiau (Campbell & Lovenduski, 2014).

Canlyniadau

- 2.41 Arweiniodd cynllun Camu Ymlaen Cymru at lwyddiant cymharol gan iddo gynyddu dealltwriaeth cyfranogwyr a graddau eu hymwneud â gwleidyddiaeth, gyda nifer o gyfranogwyr yn sefyll mewn etholiad yn 2012 (Llywodraeth Cymru, 2011). Yn yr un modd, gwelodd yr ymgyrch 'Bod yn Gynghorydd' lwyddiant yn ei hamser, gyda'r cynnydd mwyaf mewn cynrychiolaeth BME yn y wlad y flwyddyn honno (Llywodraeth Cymru, 2014 (a)). Gall gwahanol fathau o gyrff anllywodraethol gynnig symbyliad dros newid, gyda Rhwydwaith Cydraddoldeb Merched Cymru ac iddo aelodaeth genedlaethol o fudiadau merched, a'r Fabians Women's Network yn hyrwyddo cydraddoldeb i ferched ar raddfa Brydeinig.

Rhaglen Amrywiaeth mewn Democratiaeth

- 2.42 Roedd rhaglen Amrywiaeth mewn Democratiaeth yn amlwg gydnaws â'r polisi, a'r ymchwil presennol sy'n ymdrin ag achosion cynrychiolaeth anghyfartal mewn llywodraeth leol:
- Tan-gynrychiolaeth gyffredinol rhai mathau o ddemograffeg mewn llywodraeth leol.
 - Mae angen cyflwyno cynlluniau pendant i grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol oherwydd rhwystrau hanesyddol, strwythurol a sefydliadau sy'n rhwystro rhai grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol rhag cymryd rhan.

- Mae cynlluniau mentora wedi bod yn llwyddiannus o'r blaen wrth gyflwyno cymorth i grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol.
- Gall prosesau dewis ymgeiswyr atgyfnerthu diffyg amrywiaeth, felly dylid eu diwygio neu eu haddasu er mwyn sicrhau bod unrhyw rwystrau (megis rhagfarn ddarwybod) yn cael eu lleihau.
- Gall sefyll etholiad a bod yn gynghorydd roi unigolion o dan bwysau ariannol, sy'n effeithio'n anghymesur ar bobl anabl.

3. Methodoleg

- 3.1 Nod y gwerthusiad oedd asesu'r graddau y llwyddodd rhaglen Amrywiaeth mewn Democratiaeth i gyflawni'r argymhellion o'r adroddiad Ar ôl Pwyso a Mesur a nodau ac amcanion dilynol roedd yn ceisio'u cyflawni. Amlinellir crynodeb y ddull y gwerthusiad isod, gyda disgrifiad llawn yn [Atodiad B](#).

Adroddiad cychwynnol ac adolygiad llenyddiaeth

- 3.2 Adolygwyd rhestr gynhwysfawr o lenyddiaeth ochr yn ochr â dogfennau polisi ac ymchwil perthnasol ehangach. Roedd hyn yn rhoi dealltwriaeth fanwl o'r cyd-destun y tu ôl i'r rhaglen a beth oedd yn gyrru rhaglen Amrywiaeth mewn Democratiaeth. Cafodd llenyddiaeth ei dewis ar sail argymhellion gan y cleient, yr Athro Laura McAlister, a grŵp llywio'r gwerthusiad.⁹

- 3.3 Yn ogystal â'r adolygiad llenyddiaeth, roedd yr adroddiad cychwynnol yn amlinellu sut y byddai'r gwerthusiad yn cael ei gyflawni, gyda chynllun gwaith manwl, amserlen, rolau a chyfrifoldebau a risgiau gwerthuso.

Datblygu Theori Newid, Fframwaith Gwerthuso a Matrics Aeddfedrwydd

- 3.4 Ar gyfer y cam hwn o'r gwerthusiad cyflawnwyd adolygiad o holl ddogfennaeth y prosiect. Roedd yr adolygiad yn rhoi trosolwg o bob maes gweithredu a thystiolaeth o weithgareddau'r rhaglen. Roedd y broses hon yn adnabod meysydd lle'r oedd bylchau mewn tystiolaeth ac yn rhoi arweiniad ar gyfer canllawiau pwnc y cyfweiliad cwmpasu. Cynhaliwyd cyfweiliadau cwmpasu manwl gyda phedwar aelod o dîm cyflwyno rhaglen Amrywiaeth mewn Democratiaeth. Cwblhawyd y dull

⁹Roedd grŵp llywio'r gwerthusiad yn cynnwys nifer o sefydliadau cydraddoldeb yng Nghymru, i gynnig arbenigedd drwy gydol y broses ymchwil. Fe wnaethant roi adborth ar allbynnau a deunyddiau ymchwil y gwerthusiad. Roedd y grŵp llywio hwn yn wahanol i grŵp llywio'r rhaglen Amrywiaeth mewn Democratiaeth.

hwn wrth ddatblygu a mireinio'r Theori Newid, a oedd yn gosod sail i gynhyrchu [Model Rhesymeg y Gwerthusiad yn Atodiad B](#).

- 3.5 Roedd y Theori Newid (ToC) yn ddull hanfodol drwy'r holl werthusiad. Roedd yn rhoi dealltwriaeth o'r rhaglen ac yn amlinellu ei naratif strategol. Roedd y Theori Newid yn galluogi'r tîm gwerthuso i ddatblygu'r model rhesymeg, i asesu'r hyn a gyflawnwyd o gymharu â'r amcanion, ar gyfer y gwerthusiad. Mae'r model rhesymeg yn manylu ar y cyd-destun polisi, anghenion, mewnbynnau, gweithgareddau'r prosiect, ac effeithiau. Cafodd Fframwaith y Gwerthusiad ei seilio ar y model hwn.
- 3.6 Cytunwyd ar y Model Rhesymeg terfynol gyda'r cleient ac roedd yn sail a ddefnyddiwyd ar gyfer drafftio dulliau ymchwil eraill gan gynnwys Fframwaith y Gwerthusiad, Mynegai Tybiaethau a Matrics Aeddfedrwydd.¹⁰ Gweler [Atodiad C](#) am esboniad manwl o sut y datblygwyd y dulliau ymchwil hyn, a sut maent wedi cael eu defnyddio.
- 3.7 Mae'r dulliau gwerthuso hyn yn ceisio craffu ar y Theori Newid a'i brofi, gan asesu'r graddau y mae'r rhaglen wedi cyflawni ei hamcanion. Profwyd y dull hwn o fewn gweithdy Theori Newid¹¹ lle archwiliwyd tybiaethau am y cysylltiadau rhwng achos ac effaith, a ymgorfforwyd wedyn i'r Mynegai Tybiaethau.
- 3.8 Defnyddiwyd y dulliau hyn i gyd-gynhyrchu canllawiau pwnc yr ymchwil gyda grŵp llywio'r gwerthusiad ar gyfer cyfweiliadau a grwpiau ffocws, gan sicrhau bod cwrmpas cyfan y gwerthusiad yn cael ei ddal o fewn gweithgareddau'r gwaith maes.

¹⁰ Roedd y fframwaith gwerthuso'n amlinellu holl gwestiynau'r gwerthusiad a gofynion y gwaith maes, y Matrics Aeddfedrwydd yn mesur aeddfedrwydd gweithgareddau'r prosiect ar gyfer meysydd Amrywiaeth mewn Democratiaeth, a'r Mynegai Tybiaethau yn amlinellu'r tybiaethau a oedd yn sail i resymeg y rhaglen.

¹¹ Cynhaliwyd y gweithdy hwn ar 10^{fed} Gorffennaf 2018 ac fe'i presenolwyd gan grŵp llywio'r gwerthusiad.

Cam 1 y gwaith maes

- 3.9 Roedd cam cyntaf y gwaith maes yn cynnwys dadansoddiad desg manwl o ddata eilaidd. Roedd hyn yn cynnwys dogfennaeth fewnol y prosiect, llenyddiaeth ehangach a dadansoddiad o'r Arolwg Ymgeiswyr Llywodraeth Leol. Mae dadansoddiad o'r rhain i'w gweld o fewn yr [adolygiad llenyddiaeth](#) blaenorol ac wedi'i ymgorffori o fewn y drafodaeth o bob un o feysydd gweithredu'r rhaglen yng nghamau diwethaf adroddiad terfynol hwn y gwerthusiad.

Adroddiad Interim

- 3.10 Cafodd yr Adroddiad Interim ei ddrafftio ar sail y gweithgareddau a oedd wedi cael eu cwblhau ar y cam hwn o'r gwerthusiad. Roedd hyn yn cynnwys adolygiad llenyddiaeth, cipolwg cynnar o bob maes o weithgaredd o rhaglen a chasgliadau rhagbrofol ochr yn ochr ag argymhellion yr adroddiad Ar ôl Pwyso a Mesur (Grwp Arbenigwyr ar Amrywiaeth mewn Llywodraeth Leol, 2014).

Cam 2 y gwaith maes

- 3.11 Fel rhan o gam 2 y gwaith maes, cynhaliwyd 29 o gyfweiliadau lled-strwythuredig gyda mentoriaid, mentoreion, pleidiau gwleidyddol a rhanddeiliaid ehangach. Mae dadansoddiad o'r cyfweiliadau a gynhaliwyd i'w weld yn y tabl isod.

Tabl 2 Crynodeb o gyfweiliadau lled-strwythuredig a gynhaliwyd

Cyfranogwyr cyfweiliadau	Nifer a gynhaliwyd
Mentoreion	11 (naw ohonynt yn fenywaidd, tri yn anabl, dau yn LGBT+, chwech yn ifanc a dau o ethnigrwydd du a lleiafrifol)
Mentoriaid	11 (tri ohonynt yn annibynnol, tri Llafur, tri o Blaid Cymru, dau o'r Democratiaid Rhyddfrydol ac un cynghorydd Ceidwadol)
Rhanddeiliaid	3 Rhanddeiliad (dau o Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, un o Un Llais Cymru).
Cynrychiolwyr Pleidiau Gwleidyddol	4 (Llafur, Ceidwadwr, Plaid Cymru a Democrat Rhyddfrydol)

Ffynhonnell: Gwaith maes y Gwerthusiad

- 3.12 Cynhaliwyd pedwar grŵp ffocws hefyd o fewn y cam hwn o'r gwaith maes, gyda tua phump i wyth o gyfranogwyr ym mhob un. Cynhaliwyd y grwpiau ffocws yn rhai o'r prif gynghorau (cynghorau dinas a sir) ledled Cymru. Roedd y cyfranogwyr yn cynnwys Hyrwyddwyr Amrywiaeth, Arweinwyr Cynghorau, Penaethiaid Gwasanaethau Democrataidd, a chynghorwyr o wahanol bleidiau gwleidyddol. Cynhaliwyd y grwpiau ffocws yn Abertawe, Conwy, Powys a Rhondda Cynon Taf, er mwyn sicrhau amrywiaeth o gynghorau sy'n rhoi sylw i amrywiaeth daearyddol ac ieithyddol ymysg y poblogaethau a gynrychiolir gan y cynghorau hynny.
- 3.13 Gweithgaredd gwaith maes pellach a gyflawnwyd ar y cam hwn oedd yr adolygiad o strategaethau a pholisïau cydraddoldeb ac amrywiaeth pleidiau gwleidyddol. Roedd hyn yn cynnwys adolygu dogfennaeth a gyhoeddwyd gan y pedair plaid wleidyddol amlycaf yng Nghymru: Llafur, Ceidwadwyr, Plaid Cymru a'r Democratiaid Rhyddfrydol.

Dadansoddiad

- 3.14 I ddadansoddi tystiolaeth y gwaith maes, defnyddiwyd meddalwedd mapio meddwl¹² i lunio'r themâu allweddol.
- 3.15 Roedd y cam o ddadansoddi hefyd yn cynnwys datblygu chwe astudiaeth achos, a oedd yn cyfuno'r data a gasglwyd yn y gwaith maes. Cynhwysir yr astudiaethau achos o fewn [Atodiad F](#) o'r ddogfen hon ac maent yn cynnwys pedair astudiaeth achos mewn parau (mentor a mentori), hyrwyddwr amrywiaeth ac astudiaeth achos o fentori. Mae'r dull hwn wedi cynnig dealltwriaeth dri-dimensiwn o brosesau, gweithgareddau a chanlyniadau cyfranogiad buddiolwyr / rhanddeiliaid y prosiect a'r ffactorau cyd-destunol / amgylcheddol ehangach a sut y gallent ddylanwadu ar y lefel o amrywiaeth mewn democratiaeth.

¹² Meddalwedd mapio meddwl Coggle.

- 3.16 Roedd un o gamau terfynol y dadansoddiad yn cynnwys nodi pob maes gweithredu ochr yn ochr â'r Matrics Aeddfedrwydd. Roedd hyn yn caniatáu ar gyfer datblygu casgliadau treiddgar ynghylch y graddau y cyflawnwyd amcanion y rhaglen.

Cyfyngiadau'r Fethodoleg

- 3.17 Mae'n bwysig nodi fod newidiadau angenrheidiol i'r nifer o fentoreion y gellid eu cyfweld yn y gwerthusiad. Roedd hyn oherwydd bod rheoliad GDPR wedi dod i rym ychydig ynghynt, a oedd yn ei gwneud yn ofynnol i'r tîm polisi llywodraeth leol a'r Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi geisio caniatâd gan fuddiolwyr i rannu data personol a sensitif a gasglwyd pan oeddent yn cymryd rhan yn y rhaglen.
- 3.18 Cynigiwyd yn wreiddiol y byddai 25 o gyfweiliadau'n cael eu cynnal gyda mentoreion, fodd bynnag, roedd maint llai y sampl yn cyfyngu'r ffrâm samplo y gellid recriwtio sampl ohono. Yn ogystal, roedd y sampl o'r maint hwn yn debygol o fod â mwy o ddiddordeb yn y rhaglen, gan eu bod yn cytuno i Lywodraeth Cymru geisio ail-gysylltu â hwy.
- 3.19 Er mwyn ail-ddyrannu'r adnoddau ar gyfer y gweithgaredd hwn, ychwanegwyd elfen ychwanegol o waith maes at fethodoleg y gwerthusiad; sef yr adolygiad o bolisi a strategaeth amrywiaeth a chydaddoldeb pleidiau gwleidyddol, sydd wedi'i amlinellu uchod. Ychwanegwyd hyn i roi gwybodaeth bellach ar gyfer argymhellion i'r dyfodol ac ychwanegu manylion at y tirwedd lle gweithredwyd y rhaglen.

4. Trosolwg o Raglen Amrywiaeth mewn Democratiaeth

Sail resymegol rhaglen Amrywiaeth mewn Democratiaeth

- 4.1 Ym mis Mai 2013, fe wnaeth y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth ar y pryd, Lesley Griffiths, benodi'r Grŵp Arbenigwyr ar Amrywiaeth mewn Llywodraeth Leol i ddadansoddi'r arolwg o gynghorwyr lleol yng Nghymru gyda'r nod o osod cynllun gweithredu clir i annog mwy o amrywiaeth o ymgeiswyr i sefyll am sedd ar gyngor lleol yn 2017 (Llywodraeth Cymru, 2013).
- 4.2 Yna, ym mis Mawrth 2014, cyhoeddodd y Grŵp Arbenigwyr ar Amrywiaeth mewn Llywodraeth Leol ei adroddiad Ar ôl pwyso a mesur: Sicrhau Democratiaeth Amrywiol mewn Llywodraeth Leol yng Nghymru (Grŵp Arbenigwyr ar Amrywiaeth mewn Llywodraeth Leol, 2014). Fe wnaeth yr adroddiad bennu cynllun gweithredu a 24 o argymhellion i wella amrywiaeth ymgeiswyr erbyn yr Etholiadau Llywodraeth Leol nesaf yn 2017 ([Atodiad A](#)).
- 4.3 Mae'r pedwar maes a'r argymhellion a ymgorfforwyd ynddynt o fewn adroddiad Ar ôl pwyso a mesur wedi cael eu crynhoi isod (Grŵp Arbenigwyr ar Amrywiaeth mewn Llywodraeth Leol, 2014).
- 1) Gwella'r ymateb i'r Arolwg Ymgeiswyr Llywodraeth Leol; gan gynnwys hyrwyddo'r arolwg mewn partneriaeth â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac Un Llais Cymru; defnyddio technegau arolygon ar-lein; a defnyddio un darparwr ymchwil a dadansoddi.
 - 2) Gwella'r wybodaeth o'r arolwg; gan gynnwys diweddarau'r cwestiynau yn yr arolwg, defnydd llywodraeth leol o wybodaeth o'r arolwg a chynnal cyfweiliadau ag aelodau etholedig sy'n gadael.
 - 3) Camau gweithredu i Bleidiau Gwleidyddol; gan gynnwys cynlluniau mentora, strategaethau ac ymrwymiad cyhoeddus i

hyrwyddo aelodau benywaidd yn cael eu henwebu fel ymgeiswyr.

- 4) Gwellu cyfranogiad mewn llywodraeth leol; gan gynnwys sefydlu cynllun cysgodi / mentora, annog cyfraniad pobl ifanc trwy gyfethol, sefydlu rhwydwaith o aelodau sy'n hyrwyddwyr, ymgyrch i hyrwyddo rôl a gwaith cynghorwyr a llywodraeth leol.

- 4.4 Roedd adroddiad Ar ôl Pwysu a Mesur, felly, yn rhoi'r sail a'r dystiolaeth i Lywodraeth Cymru bennu Cynllun Gweithredu mewn ymateb i'w argymhellion (Llywodraeth Cymru, 2014). Roedd hyn yn bennaf yn datgan cefnogaeth Llywodraeth Cymru mewn egwyddor i'r argymhellion, ac yn amlygu at bwy yr anelwyd yr argymhellion, fel llywodraeth leol, Llywodraeth Cymru neu Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, etc.

Amcanion rhaglen Amrywiaeth mewn Democratiaeth

- 4.5 I symud ymlaen gyda'r argymhellion a'r camau gweithredu hyn felly, lansiwyd rhaglen Amrywiaeth mewn Democratiaeth ym mis Gorffennaf 2014 a bu ar waith hyd fis Mawrth 2017.
- 4.6 Roedd Briff y Rhaglen yn datgan gweledigaeth rhaglen Amrywiaeth mewn Democratiaeth, sef 'mwy o amrywiaeth mewn llywodraeth leol: bydd proffil cynrychiolwyr llywodraeth leol yn adlewyrchu amrywiaeth pobl Cymru' (Llywodraeth Cymru, 2014). Mae'r weledigaeth strategol glir hon wedi gyrru'r rhaglen a sefydlu Briff y Rhaglen sy'n nodi'r dull o weithredu'r rhaglen ar gyfer pob argymhelliad (Llywodraeth Cymru, 2014).
- 4.7 Roedd Briff y Rhaglen yn nodi cyfres o fuddion disgwyledig i gael eu darparu drwy'r rhaglen Amrywiaeth mewn Democratiaeth (Llywodraeth Cymru, 2014). Roedd y rhain yn cynnwys cael cynghorwyr o amrywiaeth o gefndiroedd er mwyn cael effaith cadarnhaol ar fywyd llywodraeth leol, lleihad mewn difaterwch

pleidleiswyr, nifer uwch o gynghorwyr o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol yn sefyll fel ymgeiswyr, ac felly'n gwella ansawdd democratiaeth yng Nghymru a lleihau'r nifer o ymgeiswyr diwrthwynebiad.

4.8 Amcanion rhaglen Amrywiaeth mewn Democratiaeth oedd:

- sefydlu Hyrwyddwyr Amrywiaeth a / neu fentoriaid ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru (OB1)
- adnabod mentoreion addas a chyflwyno cynllun mentora addas (OB2)
- annog pob plaid wleidyddol i ymrwymo i ddewis ymgeiswyr mwy amrywiol (OB3)
- cydweithio â rhwydweithiau cydraddoldeb a grwpiau eirioli sy'n bod eisoes yng Nghymru (OB4)
- gwella gallu cynghorwyr i gyd-drafod â'r cyhoedd trwy sesiynau hyfforddi (OB5)
- gwella ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r rhaglen (OB6)
- cydweithio gyda chyflogwyr ledled Cymru (OB7)
- darparu cymorth wedi'i dargedu sy'n gwneud mwy i alluogi pobl ag anableddau i gymryd rhan yn y bywyd gwleidyddol (Cronfa Drws i Democratiaeth) (OB8)
- cyflwyno ymgyrch aml-lwyfan i hyrwyddo ymwybyddiaeth o lywodraeth leol (radio, teledu, cyfryngau cymdeithasol, taflenni, rhwydweithio) (OB9)

Mae'r gwerthusiad hwn wedi asesu'r rhaglen Amrywiaeth mewn Democratiaeth ochr yn ochr â'r amcanion hyn a'r argymhellion a nodir yn yr adroddiad Ar ôl Pwyso a Mesur (Llywodraeth Cymru, 2014 (a)).

Dyluniad

4.9 Roedd Briff y Rhaglen yn nodi elfennau allweddol a gafodd eu gweithredu fel rhan o raglen Amrywiaeth mewn Democratiaeth trwy bum maes. Y meysydd gweithredu hyn oedd:

- Cynllun Mentora
- Ymgyrch Gyfathrebu
- Cynllun Annog Cyflogwyr
- Cronfa Drws i Democratiaeth
- Cyd-drafod â phleidiau gwleidyddol

Mae pob un o'r pum maes wedi cael eu cynnwys yn y gwerthusiad hwn er mwyn archwilio'r sail resymegol, amcanion, dull gweithredu a'r llwyddiannau o fewn pob maes.

- 4.10 Roedd dau gyfnod gweithredu, yn gyntaf o fis Gorffennaf 2014 hyd fis Mehefin 2016, ac yn ail o fis Gorffennaf 2016 hyd fis Mawrth 2017. Mae Briff y Rhaglen yn nodi'r dull gweithredu a gynigir ar gyfer y cam cyntaf a chynllun gwaith Cam Dau'r Prosiect Amrywiaeth mewn Democratiaeth am y ddwy flynedd olaf.

Themâu canolog

- 4.11 Mae'n bwysig ystyried dwy thema ganolog ynghylch gweithredu rhaglen Amrywiaeth mewn Democratiaeth. Mae rheoli a llywodraethu'n ymwneud â'r rheini sy'n gyfrifol am weithredu rhaglen Amrywiaeth mewn Democratiaeth ac atebolrwydd o fewn Llywodraeth Cymru. Y thema arall yw cyfathrebu a marchnata – allgymorth allanol a hyrwyddo'r cynllun. Disgrifir y ddwy thema isod.

Rheoli a Llywodraethu

- 4.12 Cafodd y rhaglen Amrywiaeth mewn Democratiaeth ei rheoli gan dîm polisi Democratiaeth Llywodraeth Leol o fewn Llywodraeth Cymru. Fe wnaeth y tîm polisi secondio Cydgysylltydd Rhaglenni o'r trydydd sector i hwyluso a gweithredu'r pum maes, gyda chymorth ac arbenigedd yn cael eu darparu gan y tîm polisi.

Datblygwyd grŵp llywio i oruchwylio'r Rhaglen. Fel y nodir yn y Briff i'r Rhaglen, 'rôl grŵp llywio Amrywiaeth mewn Democratiaeth oedd gweithredu fel bwrdd y rhaglen i weithredu argymhellion y Grŵp Arbenigwyr ar Amrywiaeth mewn Llywodraeth Leol yn eu hadroddiad

Ar ôl Pwysu a Mesur: Sicrhau Democratiaeth Amrywiol yng Nghymru' (Llywodraeth Cymru, 2014). Roedd aelodau'r grŵp llywio hwn yn cynnwys: Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Un Llais Cymru, amrywiol Benaethiaid Gwasanaethau Democrataidd a chynrychiolwyr o bleidiau gwleidyddol (gweler [Atodiad D](#) – am restr lawn o aelodaeth y Grŵp Llywio). Fel y nodir yn rhaglen Amrywiaeth mewn Democratiaeth a Chylch Gorchwyl y Grŵp Llywio, roedd rolau a chyfrifoldebau allweddol i'r grŵp. Y rolau hyn oedd rhoi arweiniad, sicrhau cydlyniaeth strategol ar draws yr argymhellion, adnabod rhyngddibyniaethau, risgiau a gwrthdrawiadau a rhagweld cyfleoedd lle bynnag roedd yn bosibl, a chyhoeddi cynnydd a phenderfyniadau'r grŵp fel bo'n briodol.

Cyfathrebu a marchnata

- 4.13 Roedd cyfathrebu a marchnata yn elfen allweddol o raglen Amrywiaeth mewn Democratiaeth. Roedd y nodau a oedd yn sail i'r cyfathrebu a marchnata o fewn y rhaglen yn ddeublyg. Y prif nod oedd mynd i'r afael â'r diffyg gweithredu mewn llywodraeth leol ei hun, wrth ddefnyddio gweithgaredd cyfathrebu a marchnata i gyflawni hyn. Y disgwyliad yn ei dro oedd y byddai graddau uwch o ymwneud gan y cyhoedd yn annog graddau uwch o amrywiaeth ac yn lleihau'r rhwystrau rhagdybiedig sy'n gysylltiedig â sefyll ar gyfer (neu ymwneud â) llywodraeth leol (fel yr amlinellir yn yr Adolygiad Llenyddiaeth uchod).
- 4.14 Nod eilaidd i hyn oedd hyrwyddo rhaglen Amrywiaeth mewn Democratiaeth ei hun a'r gwahanol feysydd gweithredu oddi mewn iddi. Er enghraifft, roedd angen hyrwyddo'r cynllun mentora er mwyn annog ceisiadau gan fentoreion, gan hyrwyddo'r angen hefyd am fwy o amrywiaeth mewn democratiaeth ar raddfa ehangach.
- 4.15 Rhoddir mwy o fanylion am yr ymgyrch gyfathrebu mewn pennod isod (gweler Pennod 0). Caiff dull cyfathrebu a marchnata pob maes gweithredu ei drafod yn ei dro.

5. Cynllun Mentora

Cyflwyniad a sail resymegol

- 5.1 Roedd y cynllun mentora yn rhan ganolog o raglen Amrywiaeth mewn Democratiaeth. Trwy baru mentoriaid (cynghorwyr) a mentoreion (aelodau o'r cyhoedd), nod y cynllun oedd datblygu sgiliau a hyder darpar ymgeiswyr posibl, gyda'r nod mwy hirdymor i'w hannog hwy i sefyll mewn etholiad llywodraeth leol.
- 5.2 Fel y trafodwyd yn yr adolygiad llenyddiaeth, sefydlwyd rhaglen Amrywiaeth mewn Democratiaeth yn sgil canfyddiadau ar argymhellion a gyflwynwyd yn adroddiad Ar ôl Pwyso a Mesur: Sicrhau Democratiaeth Amrywiol mewn Llywodraeth Leol yng Nghymru (Grwp Arbenigwyr ar Amrywiaeth mewn Llywodraeth Leol, 2014). Roedd yr adroddiad yn amlinellu bod llwyddiant cynlluniau blaenorol (megis Camu Ymlaen Cymru) fel sail resymegol allweddol i Llywodraeth Cymru gyflwyno cynllun mentora. Roedd cymorth personol ac wedi'i dargedu yn cael ei ystyried fel ffordd lwyddiannus o annog cyfranogwyr i sefyll etholiad a chodi ymwybyddiaeth wleidyddol.

Amcanion

- 5.3 Cafodd amcanion rhaglen Amrywiaeth mewn Democratiaeth eu hysgogi gan adroddiad Ar ôl Pwyso a Mesur (Grwp Arbenigwyr ar Amrywiaeth mewn Llywodraeth Leol, 2014). Mewn ymateb i argymhellion yr adroddiad, ymrwymodd Llywodraeth Cymru i 'ddatblygu cynllun cysgodi yn llywodraeth leol Cymru yn 2015 /16' (Llywodraeth Cymru, 2014). Yn yr un modd, roedd Briff Rhaglen Amrywiaeth mewn Democratiaeth, o dan 'Elfen 4: Ehangu Cyfranogiad mewn Llywodraeth Leol' yn dweud y bydd cynllun mentora yn gwella amrywiaeth a'r niferoedd o ymgeiswyr sy'n sefyll etholiadau ar gyfer Cynghorau Sir / Prif Gynghorau, a bod potensial o'i hehangu i gynghorau tref a chymuned (Llywodraeth Cymru, 2014).

Y prif argymhellion ynghylch mentora oedd (Grwp Arbenigwyr ar Amrywiaeth mewn Llywodraeth Leol, 2014):

- Dylai Llywodraeth Cymru gydweithio gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, grwpiau cydraddoldeb ac, os yn briodol, Llywydd y Cynulliad, i sefydlu cynllun cysgodi / mentora yn y cyfnod o ddwy flynedd cyn yr etholiadau lleol nesaf. Gellid ehangu hyn i gynnwys cynghorau tref a chymuned, mewn cydweithrediad ag Un Llais Cymru.
- Dylid annog Hyrwyddwyr Amrywiaeth ym mhob cyngor i chwarae rhan allanol mewn annog mwy o gyfranogiad mewn llywodraeth leol.
- Dylid annog pob cynghorydd i fentora darpar olynydd posibl fel ymgeisydd am eu sedd.
- Ymgych barhaus, i sicrhau bod yr angen i wella amrywiaeth mewn llywodraeth leol yn dal i fod yn llygad y cyhoedd ac i gynnal cysylltiadau â rhwydweithiau o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol. Dylai hyn gynnwys cyhoeddusrwydd i fodlau rôl, a deunydd wedi'i dargedu i gyrraedd cynulleidfaoedd addas.

5.4 Ar sail yr argymhellion hyn – a chyfweliadau cwmpasu gyda thîm cyflawni'r rhaglen – nodwyd yr amcanion thematig hyn mewn perthynas â'r Cynllun Mentora sydd wedi cael ei ddefnyddio ar gyfer y gwerthusiad (gweler [Atodiad B](#)):

- Sefydlu Hyrwyddwyr Amrywiaeth a / neu Fentoriaid ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru (OB.1).
- Adnabod mentoreion addas a chyflwyno Cynllun Mentora addas (OB.2).

5.5 Yn gyffredinol, roedd yr amcanion hyn yn seiliedig ar yr argymhellion yn yr adroddiad Ar ôl Pwysu a Mesur, a'r dybiaeth mai mentora yw'r ffordd fwyaf effeithiol o ymdrin â'r rhwystrau unigol, sefydliadol a chymdeithasol-ddiwylliannol mae pobl o gefndiroedd amrywiol yn eu hwynebu wrth ymgeisio am lywodraeth leol. Y dybiaeth oedd y byddai

hyn yn ei dro yn arwain at y canlyniad mwy hirdymor y byddai nifer mwy o ymgeisgwyr o gefndiroedd amrywiol yn sefyll yn etholiadau lleol 2017.

Cefndir cyd-destunol

- 5.6 Roedd y grwpiau ffocws a drefnwyd ar gyfer y gwerthusiad hwn yn tynnu sylw at nifer o broblemau mae cynghorwyr yn eu hwynebu, a all rwystro unigolion rhag ymgeisio am lywodraeth, neu rhag cymryd rhan mewn gweithgareddau ehangach fel y cynllun mentora. Mae'n bwysig nodi bod y canfyddiadau hyn yn cadarnhau casgliadau y daethpwyd iddynt o'r adolygiad llenyddiaeth, ond maent yn ogystal yn amlygu'r cyfyngiadau y gallai mentora eu cael wrth fynd i'r afael â'r rhwystrau diwylliannol mae pobl o gefndiroedd amrywiol yn eu hwynebu. Mae'n bwysig ystyried y cyd-destun er mwyn deall pam na fydd y cynllun mentora (ar ei ben ei hun) efallai'n ymdrin â phob rhwystr rhag cymryd rhan.
- 5.7 Mater allweddol a gododd ym mhob un o'r grwpiau ffocws oedd bod lefel y tâl a ddarperir i gynghorwyr yn rhy isel. Yn Abertawe, er enghraifft, dywedwyd bod cyflog cynghorydd yn rhwystr ac nad yw'n ddigon i ddenu rhywun ifanc i rôl, ond y gall fodd bynnag fod yn 'hwb dymunol i'ch pensiwn'. Dywedwyd nad oedd lefelau tâl i gynghorwyr wedi cynyddu ers 2012 – eto mae cyflogau Aelodau Seneddol ac Aelodau Cynlluniad wedi cynyddu. Mae'r lefel yn newid yn ddibynnol ar rôl cynghorydd; fodd bynnag, gall y rolau sydd â mwy o gyfrifoldeb (fel safleoedd mainc flaen) gael effaith niweidiol ar allu cynghorwyr i gael gwaith cyflogedig, oherwydd yr amser sy'n ofynnol.
- 5.8 Law yn llaw â'r lefel tâl, dywedodd llawer o gynghorwyr yn y grwpiau ffocws a'r cyfweiliadau â mentoriaid y gallai graddau'r ymrwymiad amser sy'n ofynnol i fod yn gynghorydd fod yn rhwystr sylweddol. Fel y dywedwyd mewn un grŵp ffocws, mae llawer o gynghorwyr newydd yn cael eu 'llethu' yn ystod yr ychydig fisoedd cyntaf wrth ddod i wybod y prosesau law yn llaw â'r nifer o bwyllgorau, cyfarfodydd a

chysylltiadau ag etholwyr mae disgwyl i gynghorwyr ymgymryd â hwy. Awgrymodd un grŵp ffocws fod hyn yn waeth i gynghorwyr mewn ardaloedd gwledig, yn wyneb y pellteroedd hirach mewn cymhariaeth i deithio i gyfarfod. Dywedodd rhai cyfranogwyr grwpiau ffocws fod y gwasanaethau democrataidd yn eu cyngor yn cynnig cymorth, tra dywedodd un yn benodol fod gan eu cyngor drefn o gynefino trylwyr i ymgeiswyr newydd. Codwyd y mater o ymrwymiad amser gan gyfeirio'n benodol at bobl iau, a merched, gan eu bod yn fwy tebygol o gael ymrwymadau gofal plant neu gyflogaeth. Dywedodd un cynghorydd fod y drefn o hawlio lwfans gofal plant yn anhyblyg ar hyn o bryd gan fod yn rhaid ichi ddatgan pa weithgareddau'r oeddech chi'n hawlio amdanynt – lle mewn gwirionedd, meddai, rydych chi'n 'gwneud yr hyn a allwch' (ee dal i fyny â busnes y Cyngor) yn yr amser rhydd sydd gennych, gan ddibynnu ar yr angen – yn hytrach na chmau gweithredu penodol y gellir eu cynllunio wythnosau ymlaen llaw.

- 5.9 Un thema allweddol yn codi o'r grwpiau ffocws oedd bod cynghorau a chynghorwyr yn gyffredinol yn wynebu canfyddiadau cyhoeddus negyddol, megis ymddygiad anghymdeithasol (ar-lein ac wyneb yn wyneb). Priodolwyd hyn i ddau reswm allweddol: yn gyntaf, diffyg ymddiriedaeth cyffredinol mewn gwleidyddion, rhywbeth sydd, yn ôl llawer, wedi tyfu dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, ac yn ail, camddealltwriaeth cyffredinol ynghylch cyfrifoldebau cynghorwyr sir. Rhoddir mwy o sylw i hyn yn yr adran ar yr ymgyrch gyfathrebu, isod.
- 5.10 Thema allweddol arall yn codi o'r grwpiau ffocws oedd y gallai'r diwylliant yn fewnol yn y cyngor fod yn elyniaethus tuag at gynghorwyr, gyda llawer o gynghorwyr¹³ yn crybwyll eu bod wedi bod yn dyst, neu wedi derbyn, sylwadau difriol ar sail bod yn fenyw, a / neu yn ifanc. Fel y dywedwyd gan amryw o bobl (gan gynnwys mentoriaid), mae angen i gynghorwyr fod yn 'groendew' i allu gwneud

¹³ Gan gynnwys rhai cyfweiliadau â mentoriaid

y gwaith. Roedd cytundeb cyffredinol fod cynyddu amrywiaeth ymysg cynghorwyr yn gam tuag at ymdrin â'r materion hyn, a bod hyn (ac agweddau yn gyffredinol) yn gwella o ganlyniad i fwy o ferched a phobl iau yn dod ymlaen fel cynghorwyr.

Gweithredu a llwyddiannau

Dull gweithredu

- 5.11 Bu Cydgysylltydd Prosiect rhaglen Amrywiaeth mewn Democratiaeth yn cyd-drafod â phob awdurdod lleol yng Nghymru, i annog cynghorwyr i ddod yn fentoriaid a / neu'n Hyrwyddwyr Amrywiaeth. Byddai mentoriaid yn cynnig cyfleoedd cysgodi i fentoreion, a chyfrifoldeb Hyrwyddwr Amrywiaeth fyddai hyrwyddo cydraddoldeb a'r rhaglen Amrywiaeth mewn Democratiaeth o fewn y cyngor, yn ogystal â chyflawni amcanion ehangach y rhaglen (megis hyrwyddo gweithgareddau llywodraeth leol i'r gymuned) (Llywodraeth Cymru, 2014). Yn ymarferol, byddai rôl yr Hyrwyddwr Amrywiaeth yn gorgyffwrdd â rôl y mentor. Byddai rhai Hyrwyddwyr Amrywiaeth yn fentoriaid, ond nid pawb ohonynt fodd bynnag. Cafodd y cynllun mentora ei hyrwyddo trwy gyfres o sianelau, i recriwtio mentoreion (gweler Pennod 0). Darparwyd hyfforddiant i fentoriaid a mentoreion i hwyluso dysgu ymhellach i'r naill a'r llall.

Recriwtio Mentoriaid a Hyrwyddwyr Amrywiaeth

- 5.12 Fel y dywedwyd, fe wnaeth Cydgysylltydd Prosiect rhaglen Amrywiaeth mewn Democratiaeth oruchwylio holl weithgareddau'r rhaglen a defnyddiodd rwydweithiau personol a oedd ganddi eisoes¹⁴ i annog pobl i ymuno â'r cynllun. Er mwyn ennyn diddordeb yr awdurdodau lleol, fe wnaeth y prosiect fanteisio ar gefnogaeth wleidyddol – gan y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes ar y pryd,

¹⁴ Cyn Prosiect Amrywiaeth mewn Democratiaeth, roedd y Cydgysylltydd Prosiect wedi gweithio ar gynllun a oedd yn annog cyflogwyr i fentora aelodau benywaidd o staff. Golygai hyn fod gan y Cydgysylltydd Prosiect restr o gyflogwyr y cysylltwyd â hwy eisoes i estyn allan atynt.

Lesley Griffiths AC, a ysgrifennodd at bob awdurdod lleol yng Nghymru, i annog cefnogaeth i'r rhaglen Amrywiaeth mewn Democratiaeth a'u hannog i enwebu mentoriaid a Hyrwyddwyr Amrywiaeth (IN.2). Dywedodd aelod o dîm gweithredu'r rhaglen mewn cyfweiliad cwmpasu fod cefnogaeth y Gweinidog wedi parhau drwy gydol y rhaglen. Mewn cydweithrediad â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, creodd y Cydgysylltydd Prosiect Gylch Gwaith ar gyfer rôl yr Hyrwyddwr Amrywiaeth, er mwyn sicrhau eglurder ynghylch rôl a chyfrifoldebau'r swydd (gweler [Atodiad G](#)).

- 5.13 Er mwyn cynnwys cynghorau cymuned a thref o fewn y cynllun, fe wnaeth cynrychiolydd o Un Llais Cymru fynychu cyfarfodydd o'r grŵp llywio (A.6). Yn ogystal, fe wnaeth Un Llais Cymru ddefnyddio'u cysylltiadau / rhwydweithiau i anfon gwahoddiadau at cynghorau cymuned a thref i gymryd rhan yn rhaglen Amrywiaeth mewn Democratiaeth (A.6). Yn y ddogfen Gwersi a Ddysgwyd, nodir dulliau eraill o recriwtio – trwy godi ymwybyddiaeth, cyd-drafod â Phenaethiaid Gwasanaethau Democrataidd cynghorau, Arweinwyr Cynghorau, a thrwy gyfryngau cymdeithasol (Llywodraeth Cymru, 2017) (A.4).
- 5.14 Roedd y Cynllun Mentora yn ceisio ymwneud ag Un Llais Cymru yn ogystal, er mwyn ehangu cyfranogiad yn y cynllun i gynghorau tref a chymuned (Llywodraeth Cymru, 2014) (A.6). Roedd y ddogfen Gwersi a Ddysgwyd yn dweud bod rhywfaint o gyd-drafod wedi digwydd, a bod Un Llais Cymru'n ymwneud â chyfarfodydd o'r grŵp llywio (OP.3). Fodd bynnag, dywedwyd hefyd mai 'cyfyng oedd y cyfranogiad gan gynghorau cymuned' yn gyffredinol, ac roedd y ddogfen yn argymhell y dylid, yn wyneb y nifer mawr o gynghorau tref a chymuned yng Nghymru (735¹⁵), sefydlu cynllun ar wahân i ganolbwyntio ar yr haen hon o lywodraeth (Llywodraeth Cymru, 2017; Un Llais Cymru, 2018)

¹⁵ Mawrth 2019

- 5.15 Yn gyffredinol, roedd y cyfweiliadau â mentoriaid yn awgrymu bod cynghorwyr wedi clywed am y cynllun yn uniongyrchol gan Gydgysylltydd y Prosiect, er bod rhai wedi cael eu recriwtio o'r tu mewn i'w cyngor (megis cynghorwyr eraill neu'r Gwasanaethau Democratiaidd). Mewn rhai achosion, mae'n aneglur i ba raddau y gellir priodoli eu recriwtio fel mentor i'r rhaglen Amrywiaeth mewn Democratiaeth ei hun – dywedodd rhai eu bod eisoes wedi ymwneud â gweithgareddau mentora er mwyn ceisio cynyddu diddordeb a chyfraniad mewn gwleidyddiaeth leol a / neu amrywiaeth mewn llywodraeth leol, cyn rhaglen Amrywiaeth mewn Democratiaeth neu'r tu allan iddi. Yn y mwyafrif o achosion, roedd cymhellion mentoriaid yn ymwneud â cheisio amrywiaeth mewn llywodraeth leol oherwydd eu credoau gwleidyddol neu athronyddol eu hunain, neu o ganlyniad i'w profiad eu hunain. Dywedodd un mentor benywaidd, er enghraifft, iddi ymuno er mwyn mynd i'r afael â'r 'cyngor sy'n llawn dynion', a dywedodd un arall iddi ddod i deimlo'n gryf ynghylch rhoi sylw i gydraddoldeb gan mai hi oedd yr unig aelodau benywaidd o'r cabinet ar y pryd.
- 5.16 Yn gyffredinol, mae'n ymddangos i'r cynllun fod yn llwyddiannus o safbwynt recriwtio mentoriaid: gyda chyfanswm o 64 o fentoriaid wedi eu cofrestru ledled Cymru (Llywodraeth Cymru, 2017). Nid oedd unrhyw darged penodol wedi ei nodi ym Mriff y Rhaglen i gymharu a yw'r graddau hyn o recriwtio yn cyflawni yn ôl yr amcanion. Cadarnhaol yw nodi bod dogfennaeth y prosiect yn dangos bod mentor a / neu hyrwyddwr amrywiaeth wedi cael ei enwebu ym mhob un o'r 22 o awdurdodau lleol, gan awgrymu bod y cynllun wedi llwyddo i weithredu ledled Cymru gyfan. Yr heriau a nodwyd o fewn y gwaith maes a'r ddogfen Gwersi a Ddysgwyd oedd bod dau awdurdod lleol na fyddai'n gwneud amser nac yn darparu lwfansau teithio i'w Hyrwyddwr Amrywiaeth (ar gyfer gweithgareddau Amrywiaeth mewn Democratiaeth), a bod lleiafrif bach o gynghorwyr wedi rhoi'r gorau i'w rôl Hyrwyddwr oherwydd graddau'r ymrwymiad a ddisgwyld.

5.17 Roedd cyfweiliadau gyda mentoriaid yn cadarnhau bod rhai cyngorau a mentoriaid nad oedd ganddynt yr adnoddau (amser) a oedd yn ofynnol i gyflawni'n llawn y gweithgareddau a fwriadwyd ar gyfer rôl y mentor a'r Hyrwyddwr Amrywiaeth. Mater arall a gododd o fewn cyfweiliad â rhanddeiliad oedd bod y rôl mentor yn apelio at y rheini a oedd eisoes â diddordeb mewn cydraddoldeb, ac felly'n aml (er nad bob amser) yn apelio at ei rheini â demograffeg ymylol (megis merched, BME, LGBT+, ifanc). Mae'r cyngorwyr hyn eisoes yn debygol o brofi nifer anghymesur o rwysterau wrth fod yn gynghorydd ac felly maent yn fwy tebygol o'i chael yn anodd cael yr amser i gyflawni'r rôl yn iawn. Mae enghraifft i'w gweld yn achos un cynghorydd a gafodd ei chyfweld ar gyfer y gwerthusiad. Er iddi gofrestru i fod yn fentor a chymhelliad cryf ganddi mewn materion cydraddoldeb / amrywiaeth, roedd hi eisoes yn ei chael yn anodd cydbwysu ei rôl fel cynghorydd sir ag ymrwymadau gofal plant a chyflogaeth. Oherwydd yr ymrwymadau hyn, methodd yn y pen draw â chymryd unrhyw fentoreion.

Tabl 3 Ymlyniad gwleidyddol mentoriaid ac aelodaeth Cynghorwyr Cymru o bleidiau gwleidyddol

Ymlyniad Gwleidyddol	Mentoriaid		Cynghorwyr yn Genedlaethol
	(n)	(%)	(%)
Ceidwadwyr	3	4.7	8.5
Aelodau Annibynnol	13	20.3	23.9
Llafur	31	48.4	47.2
Democratiaid Rhyddfrydol	6	9.4	5.8
Plaid Cymru	11	17.2	12.9

Ffynhonnell: Gwersi Amrywiaeth mewn Democratiaeth a Ddysgwyd (Llywodraeth Cymru, 2017), Canlyniadau Etholiadau Lleol 2012 (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2012)

5.18 Fe fu Cydgysylltydd y Prosiect yn cyd-drafod yn ogystal ag arweinwyr pleidiau gwleidyddol yng Nghymru (A.19), i annog enwebu o'r brig cynghorwyr a fyddai â diddordeb mewn dod yn fentor. Mae Tabl 3 yn cyflwyno'r dadansoddiad o fentoriaid yn ôl ymlyniad gwleidyddol, o gymharu ag aelodaeth cynghorwyr yn genedlaethol o'r grŵp

gwleidyddol hwnnw, fel yr adroddwyd yng nghanlyniadau etholiad 2012¹⁶ (OP.1). Yn gyffredinol, mae ymlyniad gwleidyddol mentoriaid yn cyfateb ag aelodaeth genedlaethol cynghorwyr o bleidiau. Mae rhai enghreifftiau lle mae gwahaniaethau sylweddol – er enghraifft, caiff Democratiaid Rhyddfrydol eu gor-gynrychioli ar y cynllun (9.4 y cant o'r mentoriaid, o gymharu â 5.8 y cant o gynghorwyr). Ar y llaw arall, roedd cynghorwyr y Blaid Geidwadol wedi eu tan-gynrychioli – gyda 4.7 o'r mentoriaid yn perthyn i'r blaid hon ond yn cynnwys 8.5 o'r cynghorwyr yn genedlaethol.

- 5.19 Diddorol yw nodi bod aelodau Annibynnol wedi eu cynrychioli'n gyffredinol gyfartal yn y cynllun (20.3 y cant o fentoriaid, a 23.9 y cant o gynghorwyr yn genedlaethol). Gan na fydd gan aelodau Annibynnol fframwaith sefydliadol plaid wleidyddol i fod yn rhan ohono – roedd dulliau eraill, mwy lleol â'r potensial o gysylltu yr un mor effeithiol ar gyfer recriwtio mentoriaid (awgrymwyd hyn hefyd mewn gweithdy gyda Grŵp Llywio'r Gwerthusiad). Fel y trafodir mewn mwy o fanylder isod (gweler [Pennod 7](#)), cafodd ymwneud â phleidiau gwleidyddol ar y lefel uchaf rai canlyniadau cyfyngedig.
- 5.20 Mae'r dystiolaeth a gasglwyd ar gyfer y cam hwn o'r gwerthusiad wedi amlygu rhai heriau gyda recriwtio mentoriaid a / neu Hyrwyddwyr Amrywiaeth. Un her a ddaeth i'r amlwg o'r cyfweiliadau â mentoriaid oedd bod rôl 'Hyrwyddwr Amrywiaeth' yn aneglur o'r cychwyn. Mewn rhai achosion, arweiniodd hyn at gynghorwyr yn penderfynu eu hunain ar rôl – dywedodd un, er enghraifft, iddi gymryd arweiniad ar hyrwyddo'r rhaglen o fewn ei chyngor. Gweler [Astudiaeth Achos Hyrwyddwr Amrywiaeth](#) am fwy o fanylion). Yn y mwyafrif o achosion, fodd bynnag, roedd y diffyg eglurder ynghylch y rôl a'r adnoddau a

¹⁶ Yn ôl yr hyn a ddeallai'r adroddiad hwn, efallai nad yw canlyniadau etholiadau lleol 2012 yn ffigur cywir ar gyfer yr ymgeiswyr a oedd yn bresennol yn 2014 pan sefydlwyd y rhaglen Amrywiaeth mewn Democratiaeth (megis, yn sgil unrhyw is-etholiadau ac etholiad Cyngor Sir Fôn a gafodd ei ohirio tan 2013). Er hynny, mae'n rhoi amcangyfrif defnyddiol ar gyfer cymharu yn yr achos hwn.

oedd yn ofynnol, yn golygu eu bod yn rhoi'r gorau i'r rôl o Hyrwyddwr Amrywiaeth ar ôl ychydig fisoedd. Dywedodd un 'cawsom gyfarfod yng Nghaerdydd, ac roedd tua dau draean nad oedd yn gwybod y gwahaniaeth ... nid oedd llenyddiaeth y rhaglen yn ei gwneud yn glir iawn'. Roedd her arall, fel y nodwyd, yn ymwneud ag adnoddau mentoriaid. I gynghorwyr â chyfrifoldebau gwaith cyflogedig neu ofal plant, a / neu ymrwymïadau eraill, roedd weithiau'n anodd cyflawni rôl ychwanegol mentor.

Recriwtio mentoreion

- 5.21 Yn y cyfweiliadau cwmpasu a'r ddogfen Gwersi a Ddysgwyd, nodwyd fod recriwtio mentoreion wedi cael ei wneud yn bennaf gan Gydgysylltydd y Prosiect, a fyddai'n paru mentoreion a mentoriaid â'i gilydd. Cadarnhawyd hyn mewn cyfweiliadau gyda'r mentoriaid a'r mentoreion. Mewn lleiafrif o achosion, cafodd mentoriaid a mentoreion eu paru'n annibynnol ar Gydgysylltydd y Prosiect lle'r oedd:
- y mentorai/mentoreion a'r mentor(iaid) eisoes yn adnabod ei gilydd.
 - yr awdurdod lleol (un) wedi gweithio'n annibynnol ar Gydgysylltydd y Prosiect a bod yr Hyrwyddwr Amrywiaeth a / neu y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd wedi goruchwyllo'r weithdrefn gyfatebol yn ei le.
- 5.22 Mae adolygiad manwl o sut y cafodd y rhaglen ei hyrwyddo a'i hysbysebu i'w weld mewn adran ymhellach ymlaen o'r adroddiad hwn ([Pennod 7: Ymgych Gyfathrebu](#)). I grynhoi, roedd Briff gwreiddiol y Rhaglen yn nodi y gallai Cydgysylltydd y Prosiect weithio gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, grwpiau cydraddoldeb, a Llywydd y Cynulliad (ar y pryd) i sefydlu'r cynllun mentora i recriwtio mentoreion (Llywodraeth Cymru, 2014). Roedd calendr y Cynllun Gyfathrebu ar gychwyn y rhaglen yn nodi digwyddiadau penodol i hyrwyddo'r rhaglen i ddarparu fentoreion posibl ynddynt; roedd y rhain yn cynnwys presenoldeb yn Sioeau Teithiol Coleg Gwent a Phrif

Ddigwyddiad Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (Llywodraeth Cymru, 2016). Mewn cyfweiliadau gyda mentoreion, roedd cyfran uchel ohonynt wedi clywed am y cynllun trwy rwydwaith neu grŵp arall (gan gynnwys, ymhlith eraill: Rhaglen Galluogi Cymru, Anabledd Cymru, Merched yn Gwneud Gwahaiaeth, Rhwydwaith Cydraddoldeb Merched). Ffyrdd eraill y clywodd y mentoreion y cyfwelwyd â hwy am y rhaglen oedd:

- cyfryngau cymdeithasol
- cylchlythyr newyddion gan Lywodraeth Cymru
- cynghorydd.

5.23 Mewn cyfweiliad cwmpasu ac yn ystod gweithio gyda thîm gweithredu'r rhaglen, nodwyd bod rhai achosion lle nad oedd gan Gydgyssylltydd y Prosiect yr amser digonol i olrhain hynt a helynt pob gweithgaredd recriwtio er gwaethaf ennyn diddordeb yn y digwyddiadau hyn. Am reswm tebyg, dywedodd tîm gweithredu'r rhaglen ei bod yn aml yn anodd i Gydgyssylltydd y Prosiect gynnal pob cysylltiad oherwydd y myrdd o ffyrdd roeddent yn cael eu casglu.¹⁷

Tabl 4 Demograffeg mentoreion

	(n)	(%)
Benywaidd	37	73
Pobl ifanc	20	39
Du a Lleiafrifoedd Ethnig	10	20
Anabl	4	8
LGBT	5	10
Teithiwr / Sipsi	1	2

Ffynhonnell: Gwersi a Ddysgwyd, Amrywiaeth mewn Democratiaeth (Llywodraeth Cymru, 2017)

5.24 Roedd y ddogfen Gwersi a Ddysgwyd yn cyflwyno'r cyfanswm o fentoreion a gofrestrodd â'r rhaglen, a'r wybodaeth ddemograffig amdanynt. Rhwng pawb, cafodd 51 o fentoreion eu recriwtio, a

¹⁷ Presenoldeb mewn digwyddiadau, gweithgareddau hyrwyddo, trwy grwpiau / sefydliadau eraill, ymwneud trwy awdurdodau lleol, etc.

chyflwynir y dadansoddiad demograffig yn Nabl 4 (OP.2). Ni osodwyd unrhyw dargedau ar gyfer recriwtio mentoreion. Mae'r cyfanswm yn adio i fwy na 51, oherwydd bydd rhai unigolion yn perthyn i fwy nag un o'r categorïau demograffig a restrir. Mewn cyfweiliad cwmpasu, nodwyd bod heriau mewn recriwtio mentoreion a oedd â hunaniaethau trawsadrannol – megis merched du neu o leiafrifoedd ethnig.¹⁸

- 5.25 Fel gyda'r cyfweiliadau gyda mentoriaid, dangosodd gwaith maes fod mentoreion yn aml heb amser ar gael i ymrwymo i'r rhaglen. Mae rhai o'r astudiaethau achos yn amlygu'r anawsterau gyda'r ymrwymiad hwn. Roedd hyn yn gyffredinol yn llai o rwysr i fentoreion nag i fentoriaid, er bod yr hyn a nodwyd fel rhwystrau rhag cymryd rhan yn y rhaglen yn cynnwys y broblem os oedd y mentorai a'r mentor mewn gwaith cyflogedig, y gallai fod yn anodd cael amser pan oedd y ddau ar gael. O ran galluogwyr, dywedodd un mentorai fod dehonglwyr laith Arwyddion Prydain wedi cael eu darparu mewn digwyddiadau hyfforddi a gweithgareddau eraill fel y gallai gymryd rhan yn y cynllun (gweler [astudiaeth achos](#) mentorai anabl am fwy o fanylion).
- 5.26 I ymgeisio am y Cynllun Mentora, rhoddwyd pecyn ymgeisio i ddarpar fentoreion posibl, a oedd yn amlinellu nodau ac amcanion bras y rhaglen ac yn cynnwys amryw o feysydd roedd yn rhaid i ymgeiswyr eu cwblhau er mwyn cael eu hystyried ar gyfer y rhaglen. Roedd y rhain yn cynnwys manylion personol sylfaenol (enw, cyfeiriad, ac yn y blaen), y grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol y gallai'r ymgeisydd berthyn iddynt a chwestiynau testun rhydd, i'r ymgeisydd amlinellu eu rhesymau dros ymgeisio ar gyfer y rhaglen (Llywodraeth Cymru, 2015). Oherwydd yr amser sydd wedi mynd heibio ers y rhaglen, roedd llawer o fentoreion y cyfwelwyd â hwy yn dweud na allent gofio cynnwys y pecyn ymgeisio. Lle'r oeddent yn cofio, fodd bynnag,

¹⁸ Mae'n debygol y gallai recriwtio merched BME i'r cynllun mentora fod wedi bod yn flaenoriaeth, gan fod Arolwg Ymgeiswyr 2012 yn nodi nad oedd unrhyw ferched BME wedi ymgeisio am swydd etholedig yn ystod etholiadau lleol 2012 (Llywodraeth Cymru, 2013).

dywedodd y mwyafrif ei fod yn 'ddealladwy' ac yn gofyn cwestiynau 'perthnasol' ynghylch beth oedd arnynt ei eisiau allan o'r cynllun. Dywedodd un mentorai fod y cwestiynau'n 'canolbwyntio gormod' ar bobl a oedd mewn gwaith cyflogedig.

Y berthynas rhwng mentoriaid a mentoreion

- 5.27 Mewn cyfweiliad cwmpasu a gynhaliwyd ar gyfer y gwerthusiad hwn, ac o fewn y ddogfen Gwersi a Ddysgwyd, dywedir y cymerwyd gofal, wrth baru mentoriaid a mentoreion, i leihau rhwystrau daearyddol rhag cyfarfod, ac i ystyried sensitifrwydd gwleidyddol wrth baru pobl ag ymlyniadau gwleidyddol tebyg (ee aelodau o bleidiau) lle'r oedd yn bosibl. Yn wyneb y mentoriaid / mentoreion a oedd ar gael, nid oedd hyn bob amser yn bosibl, a nodwyd o fewn cyfweiliad cwmpasu bod, er enghraifft, enghraifft o aelodau'r Blaid Lafur ac UKIP wedi cael eu paru gyda'i gilydd. Awgrymwyd mewn cyfweiliad cwmpasu mai un budd allweddol annisgwyl o'r cynllun oedd cydweithio a rhwydweithio trawsbleidiol. Roedd ymatebion gan fentoreion a mentoriaid yn gymysg o safbwynt y graddau y digwyddodd cydweithio trawsbleidiol. Dywedodd rhai nad oeddent yn gweld rôl y mentor fel un gwleidyddol ac felly roeddent yn hapus cymryd mentorai ag unrhyw ymlyniad gwleidyddol. Roedd eraill nad oedd arnynt eisiau mentora pobl ag ymlyniadau gwleidyddol nad oeddent yn cytuno â hwy – dywedodd un mentor na fyddent yn mentora rhywun o UKIP neu'r BNP. Fe wnaeth rhai grybwyll y byddent yn fodlon mentora pobl o wahanol ymlyniadau gwleidyddol – ond y byddai gwrthdrawiad buddiannau wrth roi cyngor ar fentora, neu'r graddau y byddai'r mentor yn gallu cefnogi'r mentorai pe baent yn penderfynu sefyll etholiad.
- 5.28 Er mwyn sicrhau bod y cynllun mentora yn ddefnyddiol i fentoreion, roedd y rhaglen yn cynnig cymorth i hwyluso perthynas gadarnhaol a defnyddiol rhwng y mentoriaid a'r mentoreion. Cafodd y llawlyfr mentora a ddefnyddiwyd ar gyfer y cynllun Merched mewn Bywyd Cyhoeddus ei ddosbarthu i fentoriaid, ac roedd hwn yn ceisio rhoi

canllawiau ar beth fyddai rôl mentora yn ei olygu, dibenion y rhaglen, ac yn amlinellu rolau a chyfrifoldebau mentoriaid a mentoreion. Roedd hefyd yn rhoi cyngor ar sut i ddatblygu cysylltiadau a'r berthynas rhwng y mentor a'r mentoraï, megis trwy gynnal cyfarfodydd mewn lleoliad cymdeithasol (megis dros ginio), a sut i ddatblygu cyfeiriad ar gyfer y cyfnod mentora (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, n.d.). Roedd cymorth arall yn cynnwys 'Dyddiau Hyfforddi Mentora Effeithiol' a gynhaliwyd yn Llandudno a Trefforest, tuag at gamau cynharach y rhaglen (misoedd Gorffennaf a Hydref 2015) (Llywodraeth Cymru, 2016) (OP.4). Aeth cyfanswm o 32 o gynghorwyr i'r digwyddiadau hyfforddi Mentora Effeithiol (Llywodraeth Cymru, 2017). Er gwaethaf hyn, roedd ymatebion cymysg gan fentoriaid ynghylch graddau'r cymorth a dderbyniasant o'r rhaglen, wrth helpu hwyluso eu perthynas rhwng mentoraï a mentor. Er enghraifft, dywedodd un mentor mai agwedd fwyaf heriol y cynllun oedd 'deall beth oedd arnynt ei eisiau i mi ei roi i'r mentoraï'. Roedd sylwadau eraill yn awgrymu bod mentoriaid yn callu cyflawni eu rôl fel mentor, yn sgil profiad a gawsant cyn cymryd rhan yn y rhaglen – er enghraifft, roedd un mentor wedi gweithio fel mentor wrth weithio i Undeb Llafur. Yn gyffredinol, roedd y gwaith maes yn awgrymu bod mentoriaid yn dibynnu ar eu profiad eu hunain o fentora, yn hytrach na dogfennaeth / canllawiau y rhaglen.

- 5.29 Darparwyd hyfforddiant ychwanegol i fentoriaid a mentoreion i ddatblygu eu sgiliau arwain a datblygu (OP.6) a'u galluoedd ar gyfryngau cymdeithasol (OP.5). Roedd y ddogfen Gwersi a Ddysgwyd yn nodi bod 66 o gynghorwyr a mentoreion wedi dilyn hyfforddiant cyfryngau cymdeithasol dechreuwyr ac uwch, 39 wedi dilyn yr Hyfforddiant Arwain a Datblygu Personol, a 41 wedi dilyn yr Hyfforddiant Cadeirio a Chyflwyno. Mae'r ddogfen Gwersi a Ddysgwyd yn dangos y llwyddiannau a'r heriau. Yn gyntaf, dywedodd fod darparu dosbarthiadau 'dechreuwyr' ar gyfer hyfforddiant cyfryngau cymdeithasol, gyda sesiynau 'uwch' i ddilyn, yn cael ei

groesawu gan y rhai a aeth iddynt, a dywedodd y ddogfen Gwersi a Ddysgwyd bod y defnydd o Facebook a Twitter wedi cynyddu o ganlyniad (Llywodraeth Cymru, 2017).

- 5.30 Fel y dywedwyd yn y gwaith maes, roedd pellter daearyddol yn broblem i rai darpar fynychwyr posibl gan nad oeddent yn gallu teithio'r pellteroedd angenrheidiol. Yn gyffredinol, codwyd hyn fel problem i'r rheini yn y gogledd neu'r canolbarth, yn hytrach na'r de. Codwyd hefyd y problemau ynghylch anawsterau i fentoriaid gael amser i fynd i hyfforddiant (yn sgil gofal plant, gwaith cyflogedig, ac ymrwymadau cynghorydd). Roedd daearyddiaeth (ac felly dibyniaeth ar drafnidiaeth gyhoeddus) yn debygol o fod wedi effeithio ar rai grwpiau yn fwy na'i gilydd – megis pobl ifanc, a phobl anabl nad ydynt yn gallu gyrru.
- 5.31 Cafodd llawer o'r digwyddiadau hyfforddi (megis ar gyfer cyfryngau cymdeithasol) eu cyflwyno ledled Cymru, argymhellwyd gan Gydgysylltydd y Prosiect a'r rheini y cyfwelwyd â hwyr ar gyfer y gwerthusiad hwn, cynnwys gwasgariad ehangach o ardaloedd mewn unrhyw ddigwyddiadau yn y dyfodol. Awgrym arall oedd y dylid bod wedi darparu hyfforddiant drwy gydol y rhaglen yn hytrach nag ar y cychwyn yn unig, er mwyn dal mentoriaid a mentoreion a oedd yn ymuno â'r cynllun mentora yn ddiweddarach. Yn gyffredinol, dywedwyd yn y ddogfen Gwersi a Ddysgwyd bod yr adborth yn gymysg gan fynychwyr (Llywodraeth Cymru, 2017). Roedd ymateb cymysg gan fynychwyr hyfforddiant ynghylch defnyddioldeb y sesiynau. Roedd llawer yn dweud – oherwydd yr amser a oedd wedi mynd heibio – na allent gofio'r sesiynau, na sut maent wedi defnyddio'r wybodaeth ers hynny. Dywedodd rhai iddynt gael yr hyfforddiant cyfryngau cymdeithasol yn ddefnyddiol, er enghraifft dysgu sut i amserlennu negeseuon – a dywedodd un mentorai eu bod yn fwy gweithgar ar gyfryngau cymdeithasol o ganlyniad, gyda buddion i'w busnes (gweler [astudiaeth achos y mentorai](#) am fwy o fanylion). Dywedodd eraill fodd bynnag y gallai'r hyfforddiant fod yn

ailadroddus o ran ei gynnwys, a'i fod wedi cael ei 'ruthro' yn sgil diffyg adnodd Cydgysylltydd Prosiect, ac yn gyffredinol, y gellid bod wedi darparu mwy o hyfforddiant am waith cynghorydd o ddydd i ddydd.

- 5.32 Yn gyffredinol, awgrymir bod cyflwyno'r hyfforddiant wedi cael rhywfaint o lwyddiant wrth uwchsgilio mentoreion a chynghorwyr yn y defnydd o gyfryngau cymdeithasol (OC.2) – fodd bynnag roedd rhwystrau'n dal i fod o ran ei fynychu, ac y gallai dyrannu mwy o adnoddau ar gyfer yr agwedd hon o'r cynllun fod wedi arwain at gynnwys mwy defnyddiol i'r sesiynau hyfforddi.

Effeithiau

- 5.33 Mae'r adran hon o'r adroddiad yn dogfennu effeithiau'r cynllun monitro ac yn gyffredinol mae'n cael ei thystiolaeth o'r cyfweiliadau gyda mentoreion a mentoriaid.

Sefyll etholiad

- 5.34 Fel y dywedwyd, prif nod y Cynllun Mentora oedd annog mentoreion i sefyll etholiad llywodraeth leol (OC.1), gyda'r nod mwy hirdymor o gynyddu amrywiaeth cynghorwyr etholedig yng Nghymru (IM.3). Ar ddiwedd y rhaglen, adroddwyd bod 39 y cant o fentoreion (20) yn ystyried ymgeisio am lywodraeth leol (Llywodraeth Cymru, 2017), ac o'r rhain roedd 16 yn ferched, 8 yn bobl ifanc, 7 BME, 3 anabl ac 1 LGBT.
- 5.35 Mae cymhariaeth o Arolygon Ymgeiswyr 2012 a 2017 yn dangos cynnydd yn y nifer o gynghorwyr sir benywaidd (28 y cant, i 33 y cant), er y dylid, am resymau a drafodwyd eisoes, trin y ffigur â gofal (Llywodraeth Cymru, 2013; Llywodraeth Cymru, 2018). Roedd y cydbwysedd rhwng rhywiau cynghorwyr sir na chafodd eu hethol yn dal i fod yn debyg ar 29 y cant yn 2012 a 28 y cant yn 2017 (Llywodraeth Cymru, 2013; Llywodraeth Cymru, 2018). Mae'r data yn awgrymu hefyd fod lleihad mewn cynghorwyr sir etholedig dros 60 oed – yn disgyn o 57 y cant yn 2012 i 47 y cant yn 2017 (Llywodraeth

Cymru, 2013; Llywodraeth Cymru, 2018). Yn yr un modd, mae'r setiau data yn awgrymu bod cynnydd yn y cynghorwyr sir BME a etholwyd – o 0.6 y cant yn 2012, i 1.8 y cant yn 2017 (Llywodraeth Cymru, 2013; Llywodraeth Cymru, 2018).¹⁹ Yn rhai o'r cyfweiliadau â mentoriaid a rhanddeiliaid, dywedwyd nad yw cynllun mentora ar y raddfa iawn efallai i fynd i'r afael â'r gwahaniaethau mawr hyn mewn ffordd ystyrlon, gan nad yw ond yn effeithio ar y nifer bach o unigolion sy'n cymryd rhan ynddo.

- 5.36 Yn gyffredinol, er i 21 o fentoreion ddweud yr hoffent sefyll, roedd 30 na wnaeth hynny. Felly, er y gallai'r cynllun fod wedi cynyddu ychydig ar amrywiaeth ymgeiswyr (er ei bod yn anodd priodoli newidiadau yn uniongyrchol i'r rhaglen), ni wnaeth mwyafrif y rheini a gymerodd ran ddiweddu yn sefyll etholiad i lywodraeth (OC.1). Yn ogystal, mae cyfweiliadau gyda mentoreion a mentoriaid yn awgrymu mai'r rheini a ddewisodd sefyll fel cynghorwyr sir ar ôl y cynllun mentora, oedd y rheini a oedd eisoes yn ystyried sefyll etholiad fel hyn. Er enghraifft, cafodd un mentorai (gweler ei [hastudiaeth achos](#)) ei hethol i lywodraeth leol ond nid oedd yn priodoli ei phenderfyniad cyffredinol i sefyll i'r cynllun mentora. Dywedodd un arall ei bod yn teimlo'n hapusach sefyll ar ôl cwblhau'r cynllun mentora ond bod ganddi 'syniad yn ei phen i sefyll' cyn hynny.
- 5.37 Yn yr un modd, fe wnaeth y rheini a gafodd eu symbylu i gymryd rhan yn y cynllun oherwydd bod arnynt 'eisiau gwybod mwy' am sut roedd llywodraeth leol yn gweithredu benderfynu – yn hytrach na sefyll – peidio â sefyll etholiad yn y diwedd. Dywedodd un mentor nad 'dyna oedd eu symbyliad cychwynnol' ond y gallai eu mentorai fod yn fwy tebygol o sefyll yn yr hirdymor na phe na baent wedi cymryd rhan.
- 5.38 Mewn un achos, roedd y cynllun wedi arwain at un mentorai yn penderfynu peidio â sefyll am lywodraeth leol, ar lefel bwrdeistref sirol

¹⁹ Fel uchod, rhaid trin y setiau data hyn gyda gofal.

/ cyngor dinesig. Dywedodd un mentor fod dysgu am lywodraeth leol, yn yr achos hwn, 'wedi cael effaith negyddol'. Yn ôl y mentor hwn, roedd y mentorai yn gweithio yn y sector preifat, a chafodd ei 'ddigalonni' gan y prosesau ymddangosiadol araf o fewn llywodraeth leol, ond cadarnhaol yw nodi y gallai fod yn fwy tebygol o sefyll etholiad i fod yn Aelod Cynulliad, oherwydd canfyddiad o fwy o ddylanwad a chyfradd gyflymach o newid. Mewn achos arall, gallai'r ymrwymïadau amser sy'n ofynnol ar gyfer rôl cynghorydd sir fod wedi troi unigolyn yn erbyn sefyll – dywedodd un mentorai fod eu hymrwymïadau amser, gan gynnwys rhedeg eu busnes eu hunain, bod â theulu ifanc, a bod ar fyrdau grwpiau cymunedol yn golygu nad dyma'r amser iawn i sefyll.

Gweithgar mewn bywyd cyhoeddus

Roedd mwyafrif y mentoreion a gyfwelwyd ar gyfer y gwerthusiad hwn eisoes yn weithgar mewn rhyw ffurf ar weithgarwch cyhoeddus neu gymunedol – megis gwirfoddoli gyda phlaidd wleidyddol, neu grŵp cymunedol. Er hynny, mae rhywfaint o dystiolaeth i awgrymu fod rhai mentoreion, er na wnaethant sefyll mewn etholiad llywodraeth leol, wedi dod yn fwy gweithgar mewn bywyd cyhoeddus mewn ffyrdd eraill. Dywedodd rhai eu bod yn teimlo eu bod yn gwybod mwy am brosesau llywodraeth leol (gweler isod). Fe wnaeth eraill sefyll mewn cynghorau tref a chymuned, tra dywedodd dau fentorai eu bod wedi dod yn llywodraethwyr ysgol – gydag un yn arwain ar gydraddoldeb yn y rôl hon. Er mai nod y cynllun oedd cynyddu'r nifer o gynghorwyr sir etholedig, un o effeithiau cadarnhaol (anfwriadol) y rhaglen yw bod rhai mentoreion wedi gallu cymryd rôl fwy gweithgar mewn bywyd cyhoeddus o ganlyniad i'r cynllun, y gellir gweld ei fod yn cyflawni rhai o amcanion mwy hirdymor y rhaglen (megis, mwy o leisiau amrywiol yn cael eu cynrychioli mewn prosesau penderfynu).

Gwybodaeth a chanfyddiadau o lywodraeth leol

- 5.39 Canlyniad allweddol arall roedd y cynllun mentora â'r nod o'i gyflawni oedd y byddai mentoreion yn fwy gwybodus a hyderus ynghylch strwythurau a swyddogaethau llywodraeth leol (OC.6). Roedd cyfweiliadau gyda mentoreion a mentoriaid yn awgrymu bod hyn wedi cael ei gyflawni i'r rheini a oedd wedi datblygu perthynas ddefnyddiol gyda'u mentor.²⁰ Dywedodd un eu bod wedi cynyddu eu gwybodaeth am yr ardal leol, tra dywedodd un arall a gyfwelwyd eu bod yn fwy ymwybodol o sut mae'r cyngor yn gweithredu. Mae'n bwysig nodi, mewn perthynas ag amrywiaeth, fod un mentoraï wedi dweud bod y cynllun mentora yn ddefnyddiol i helpu mudwyr a phobl nad ydynt yn Brydeinwyr ddeall system wleidyddol y Deyrnas Unedig ac ymwneud â hi (gweler [astudiaeth achos](#) y mentoraï am fwy o fanylion). Dywedodd un mentoraï (a etholwyd bellach i lywodraeth leol) ei bod yn 'fwy ffeministaidd' ac â mwy o ddiddordeb mewn amrywiaeth o ganlyniad i'r cynllun.
- 5.40 Yn gysylltiedig â'r uchod, roedd y graddau yr effeithiwyd ar ganfyddiadau mentoreion ynghylch llywodraeth leol gan y cynllun. Dywedodd dwy o'r mentoreion nad oeddent, cyn y cynllun mentora, yn sylweddoli cwrpas llawn gweithgareddau cynghorydd – megis materion nad ydynt yn llygad y cyhoedd oherwydd materion diogelwch. Dywedodd un mentoraï na wnaeth ei chanfyddiad newydd – gan ddweud bod angen amrywiaeth o hyd.
- 5.41 Mae'r gwaith maes wedi awgrymu hefyd mai canlyniad cyffredin (anfwriadol) y cynllun oedd bod cymryd rhan wedi effeithio ar wybodaeth y mentoriaid. Dywedodd llawer o'r mentoriaid y cyfwelwyd â hwy ar gyfer y gwerthusiad hwn iddynt, o ganlyniad i'w rôl, ddod yn fwy ymwybodol o faterion amrywiaeth a chydraddoldeb. Dywedodd un mentor, er enghraifft, iddo ddod yn fwy ymwybodol o'r rhwystrau a wynebïr gan ferched, nad oedd wedi eu hystyried o'r blaen.

²⁰ Fel y dywedwyd, roedd rhywfaint yn tynnu allan o'r cynllun o ganlyniad i'r graddau roedd mentoreion a mentoriaid ar gael.

Dywedodd fod yr hyn a ddysgodd, 'wedi fy ngwneud i'n well cynghorydd' yn sgil gwell deallwriaeth o broblemau a wynebir gan ei etholwyr, ar wahân i'r rhai roedd eisoes yn gyfarwydd â hwy yn achos pobl anabl. Dywedodd mentor arall ei fod wedi gwneud iddi ystyried y ffordd y mae'r cyngor yn mynd ati yn y cylchoedd gwleidyddol a gweinyddol i annog mwy o gyfranogi – er enghraifft, trwy iaith lai technegol, ac y dylai pleidiau gwleidyddol fod yn fwy croesawgar i aelodau newydd. Yn uniongyrchol berthnasol i amcanion rhaglen Amrywiaeth mewn Democratiaeth, dywedodd un mentor fod eu gweithgareddau, o ganlyniad i'r rhaglen, wedi codi ymwybyddiaeth o faterion amrywiaeth ymysg y rheini nad oeddent yn ymwneud yn uniongyrchol â'r cynllun, ond a oedd â chydweithwyr yn cymryd rhan o fewn eu cyngor.

Rhwydweithiau

- 5.42 Canlyniad arall a nodwyd gan rai mentoreion a mentoriaid oedd datblygu perthnasoedd sydd wedi parhau y tu hwnt i'r cynllun. Mae rhai mentoriaid a mentoreion wedi parhau mewn cysylltiad â'i gilydd. Mae enghreifftiau a berthynas a barhaodd yn cynnwys mentor yn cynnig cymorth pe bai ar y mentorai ei eisïau, un arall yn dweud ei bod yn gweld ei mentor bob rhyw bythefnos, a mentorai yn dweud eu bod mewn cysylltiad rheolaidd â'u mentor dros Facebook fel ffynhonnell ddefnyddiol o wybodaeth.

Angen yn y dyfodol

- 5.43 Rhan allweddol o'r gwaith maes oedd penderfynu'r angen am gynllun mentora yn y dyfodol. Dywedodd nifer mawr o fentoreion y byddent yn argymhell y cynllun i eraill neu y byddent yn cymryd rhan ynddo eto eu hunain, ac yn yr un modd dywedodd y mwyafrif o fentoriaid y byddent yn dod yn fentor eto. Dywedodd un mentorai, er enghraifft, mai 'dyma'r unig ffordd y gallan nhw ddarganfod a yw bod yn gynghorydd yn rhywbeth iddyn nhw neu beidio.' Yn benodol, codwyd bod angen pellach am fentora er mwyn:

- cynnig cymorth i'r rheini nad ydynt yn cael cymorth gan blaid wleidyddol
- paratoi cynghorwyr yn well cyn sefyll etholiad
- cynnig cymorth i gynghorwyr newydd ddeall y system.

5.44 Dywedodd lleiafrif o ymatebion nad oedd mentora ar ei ben ei hun yn ddull addas, gan ddweud ei fod yn annigonol i ymdrin ag amrywiaeth ar y raddfa sy'n angenrheidiol ar draws pob cyngor yng Nghymru. Dywedodd un a ddaeth i grŵp ffocws – a oedd yn gynghorydd – y byddai cynllun mentora wedi ei throi yn erbyn sefyll, oherwydd byddai wedi dangos cymaint o waith / ymrwymiad sydd ei angen yn y rôl (rhywbeth nad oedd hi'n ei sylweddoli, cyn cael ei hethol).

Casgliadau

5.45 Un mater allweddol – a oedd yn codi o bob agwedd o'r gwaith maes – oedd bod amrywiaeth helaeth o rwystrau a wynebier gan bobl o gefndiroedd amrywiol, a all eu rhwystro rhag sefyll etholiad i lywodraeth. Mae'r rhain yn amrywio o'r rhwystrau diwylliannol, unigol a chymdeithasol (ee y gall merched fod heb yr hyder neu'n tanbrisieo eu gallu i sefyll am swydd etholedig) i'r rhwystrau mwy strwythurol a sefydliadol. Mae'n bwysig nodi bod y rhwystrau strwythurol sy'n gysylltiedig ag incwm, amser a chyfrifoldebau gofal plant / gofalu y tu hwnt i gwmpas yr hyn y gallai'r cynllun mentora ymdrin ag ef, ac felly roedd y nodau cyffredinol o sicrhau amrywiaeth mewn llywodraeth leol trwy fynd i'r afael â'r rhwystrau 'meddalach' yn unig efallai'n afrealistig. Er bod deddfwriaeth bresennol (a deddfwriaeth sy'n datblygu) (fel yr amlinellir yn yr adolygiad polisi, uchod) ac iddi'r nod o fynd i'r afael â'r rhwystrau strwythurol sy'n gysylltiedig â sefyll etholiad i lywodraeth – reodd y rhwystrau strwythurol a sefydliadol yn dal yn anhawster o safbwynt 'llwyddiant' cyffredinol y prosiect. Felly, cyfyngedig oedd y graddau y gallai'r rhaglen gyflawni yn y pen draw ei huchelgeisiau hirdymor o gynyddu'r tebygolrwydd o fwy o ymgeiswyr

o gefndiroedd amrywiol (IM.3) a lleihad yn y nifer o ymgeiswyr a oedd yn sefyll yn ddiwrthwynebiad (IM.4).

- 5.46 Yn gysylltiedig â'r pwynt uchod, lle sefydlwyd perthynas rhwng mentor a mentoraï (gyda chyfarfodydd rheolaidd), fe wnaeth mentoreion a mentoriaid ddatblygu eu gwybodaeth a'u hymwybyddiaeth – i fentoreion, sut mae prosesau cyngor yn gweithio, ac i fentoriaid, sut y gellid ymdrin â'r prosesau hyn i annog mwy o amrywiaeth. Er nad oedd yr wybodaeth / hyder a enillwyd gan y mentoreion bob amser yn arwain at iddynt ymgeisio am swydd etholedig, mae'n bwysig nodi y gallai'r sgiliau a ddysgwyd fod wedi galluogi'r unigolion i gymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus neu ymwneud â gwleidyddiaeth (leol) mewn ffyrdd eraill.
- 5.47 Yn gyffredinol, lle gwnaeth unigolyn sefyll mewn etholiad llywodraeth leol, roedd y graddau lle gellid priodoli hyn i'r cynllun mentora yn gyfyngedig, gan fod gan y mwyafrif ohonynt symbyliad i sefyll cyn y cynllun. Yn yr un modd, roedd mwyafrif y mentoreion eisoes yn weithgar mewn bywyd cyhoeddus cyn cymryd rhan yn y rhaglen.
- 5.48 Thema allweddol o'r gwaith maes ar gyfer y gwerthusiad hwn oedd bod rolau'r prosiect weithiau heb gael eu diffinio, neu bod mentoriaid yn gorfod dibynnu ar brofiad blaenorol er mwyn cyflawni'r rôl yn effeithiol. Effaith posibl o hyn yw y gallai cyngorwyr nad oedd wedi cyflawni swydd fentora o'r blaen fod yn aneglur ar beth ddylai'r berthynas fod, neu beth oedd y ffordd orau o gynnig cymorth. Roedd diffyg dealltwriaeth ynghylch rolau'r prosiect yn ymwneud yn benodol â rôl yr Hyrwyddwr Amrywiaeth – roedd mwyafrif y mentoriaid (nad oeddent yn Hyrwyddwyr Amrywiaeth) heb glywed am y rôl, ac nid oedd y rheini a oedd yn glir ynghylch beth oedd yn ei olygu. Fel y dywedodd un mentor, gall y rolau hyn 'diweddu heb fod yn golygu dim byd'.

6. Ymgyrch Gyfathrebu

Cyflwyniad a sail resymegol

- 6.1 Er mwyn hyrwyddo mwy o amrywiaeth mewn democratiaeth, roedd adroddiad Ar ôl Pwyso a Mesur yn nodi angen am ymgyrch gyfathrebu a oedd yn codi ymwybyddiaeth ac ennyn diddordeb cymunedol mewn llywodraeth leol. Yn ogystal, roedd hyn yn cynnwys hyrwyddo amrywiaeth o fewn llywodraeth leol, gyda'r nod cyffredinol o gynhyrchu llywodraeth sy'n fwy cynrychioliadol o'i phoblogaeth (Llywodraeth Cymru, 2014).
- 6.2 Roedd maes gweithredu penodol ar gyfer ymgyrch gyfathrebu yn y rhaglen. Roedd hyn yn canolbwyntio ar farchnata ehangach a hyrwyddo amrywiaeth mewn llywodraeth, a hyrwyddo llywodraeth leol er mwyn denu mwy o ddiddordeb ac ymwneud cymunedol. Yn ogystal, cynhaliwyd gweithgaredd hyrwyddo a chyfathrebu ar draws pum maes gweithredu'r rhaglen. Er enghraifft, hyrwyddwyd y cynllun mentora i ddarpar fuddiolwyr posibl, mentoriaid a'r cyhoedd yn ehangach. Gwariwyd cyfanswm a amcangyfrifir o £13,300 ar yr ymgyrch gyda gweithgareddau fel digwyddiadau, cylchlythyrau newyddion, a'r defnydd o faneri / deunyddiau wedi'u hargraffu. Roedd hyn yn helpu recriwtio ar gyfer y cynllun, gan godi ymwybyddiaeth hefyd trwy ddylanwad ehangach y cynllun. Nid ar y maes gweithredu hwn roedd y rhaglen Amrywiaeth mewn Democratiaeth yn canolbwyntio'r adnoddau a ddyrannwyd iddi.

Amcanion

- 6.3 Fel y nodwyd eisoes, ysgogydd cyd-destunol allweddol y rhaglen Amrywiaeth mewn Democratiaeth oedd yr adroddiad Ar ôl Pwyso a Mesur (Grwp Arbenigwyr ar Amrywiaeth mewn Llywodraeth Leol, 2014). Roedd yr argymhellion o'r adroddiad hwn a oedd yn sail i weithgaredd cyfathrebu a hyrwyddo o fewn rhaglen Amrywiaeth mewn

Democratiaeth fel a ganlyn (Grwp Arbenigwyr ar Amrywiaeth mewn Llywodraeth Leol, 2014):

- Dylai awdurdodau lleol annog ysgolion uwchradd i drefnu i gynghorwyr lleol ddod i siarad gyda myfyrwyr ysgol am eu rôl, fel rhan o'r nod 'Dinasyddiaeth Weithgar' yn y Fframwaith Addysg Bersonol a Chymdeithasol. Dylid annog cynghorwyr o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol i gymryd rhan yn hyn (Argymhelliad 14).
- Dylai cynghorau cymuned fanteisio ar y darpariaethau yn y Mesur i gyfethol 'cynghorwyr' ifanc mewn rôl heb bleidlais. Dylai cynghorau sir ystyried manteision mabwysiadu gweithdrefnau tebyg, gan gynnwys creu Cabinetau Ieuenctid 'cysgodi'. Dylid cynnal ymgyrch gydag Un Llais Cymru a phartïon eraill sydd â buddiant i hyrwyddo cynghorau tref a chymuned er mwyn codi ymwybyddiaeth y cyhoedd o rôl y cynghorau a'u llwybr posibl i fywyd gwleidyddol i grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol (Argymhelliad 15).
- Dylai fod ymgyrch gyhoeddusrwydd ac addysg, sy'n cynnwys Llywodraeth Cymru, llywodraeth leol a phartneriaid perthynasol sy'n ymwneud â chydraddoldeb a dinasyddiaeth, er mwyn sicrhau bod y cyhoedd yn derbyn gwybodaeth am lywodraeth leol a bod y syniad o ddod yn weithgar mewn llywodraeth leol yn cael ei gyfleu yn y gymuned (Argymhelliad 19).
- Dylai fod ymgyrch barhaus, yn gysylltiedig â 18 uchod, i sicrhau bod yr angen i wella amrywiaeth mewn llywodraeth leol yn dal yn amlwg ymhlith y cyhoedd ac i gadw cysylltiad â rhwydweithiau o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol. Dylai hyn gynnwys cyhoeddusrwydd i fodelau rôl, wedi eu targedu i gyrraedd cynulleidfaoedd addas (Argymhelliad 20).
- Dylai awdurdodau lleol nad ydynt eisoes yn darlledu eu cyfarfodydd ddechrau gwneud hynny, yn ogystal â gwneud defnydd llawn o gyfryngau cymdeithasol eraill i gysylltu â'r cyhoedd yn ehangach (Argymhelliad 23).

- 6.4 Datblygwyd yr amcanion thematig canlynol ar gyfer ymgyrch gyfathrebu a gweithgaredd hyrwyddo'r rhaglen (ac o fewn ei meysydd gweithredu). Mae'r cipolwg hwn yn seiliedig ar ddogfennaeth y rhaglen, cyfweiliadau cwrmpasu gyda thîm gweithredu'r rhaglen, a gweithdai gyda'r cleient a grŵp llywio'r gwerthusiad. Defnyddiwyd yr wybodaeth i fesur y graddau mae'r ymgyrch gyfathrebu wedi cyflawni'r amcanion canlynol (gweler [Atodiad B](#)).
- Cynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r rhaglen (OB.6) — sy'n cyfateb ag argymhellion 14 a 15.
 - Cynyddu gallu cynghorwyr i ymwneud â'r cyhoedd trwy sesiynau hyfforddi (OB.5) — cyfateb ag argymhellion 19 a 23.
 - Cyflwyno ymgyrch aml-lwyfan i hyrwyddo ymwybyddiaeth o lywodraeth leol (radio, teledu, cyfryngau cymdeithasol, taflenni, rhwydweithio) (OB.9) — cyfateb ag argymhellion 19, 20 a 23.
 - Cydweithio â rhwydweithiau cydraddoldeb presennol a grwpiau eirioli yng Nghymru (OB.4) — cyfateb ag argymhelliad 20.
- 6.5 Mae'n bwysig nodi bod yr amcanion hyn yn seiliedig ar y dybiaeth gyffredin fod gweithgareddau marchnata a chyfathrebu yn effeithiol ac yn cyrraedd y cyhoedd yn gyffredinol mewn ffordd gadarnhaol. Y consensws o'r gwaith maes a wnaed (i'w archwilio ymhellach yn yr adrannau canlynol) yw er i'r deunyddiau hyrwyddo gael derbyniad cadarnhaol, gallent fod wedi bod yn fwy effeithol wrth gyrraedd unigolion â nodweddion gwarchodedig.
- 6.6 Roedd hygyrchedd deunyddiau hyrwyddo, megis dewis o wahanol fformatau i unigolion ag amariadau yn elfen allweddol o'r cyflwyno a gafodd ei archwilio mewn gwaith maes i brofi'r dybiaeth hon ymhellach. O blith y rheini a gymerodd ran yn y gwaith maes, nid oedd dim cwynion am hygyrchedd y deunydd hyrwyddo, er bod llawer nad oeddent yn eu cofio, gan i'r gwerthusiad gael ei gynnal 18 mis ar ôl diwedd y rhaglen Amrywiaeth mewn Democratiaeth.

- 6.7 Mae Tabl 5 yn rhoi trosolwg o'r gweithgaredd cyfathrebu a hyrwyddo a gyflawnwyd o fewn rhaglen Amrywiaeth mewn Democratiaeth a meysydd gweithredu cyfatebol y rhaglen y maent yn gysylltiedig â hwy.
- 6.8 Cynulleidfaoedd targed yr ymgyrch gyfathrebu oedd (fel yr amlinellir yn y cynllun gweithredu) (Llywodraeth Cymru, 2015):
- y cyhoedd yn gyffredinol
 - rhwydweithiau cydraddoldeb
 - cyfryngau
 - cyflogwyr.

**Tabl 5 Gweithgareddau Cyfathrebu a Hyrwyddo
Gweithgaredd**

	Maes Gweithredu						Cynulleidfa
	Ymgyrch gyfathrebu	Rhaglen AmD	Cynllun Mentora	Cynllun Cyflogwyr	Drws i Ddemo- cratiaeth	Strategaeth pleidiau gwleidyddol	
Ymgyrch Twitter gan ddefnyddio #DiDCymru	✓	✓	✓	✓		✓	Y cyhoedd
Gwefan	✓	✓	✓	✓	✓	✓	Y cyhoedd
Pecyn gwybodaeth	✓	✓	✓	✓			Hyrwyddwyr, mentoriaid ac awdurdodau lleol
Erthygl cylchgrawn	✓	✓	✓	✓	✓		Sefydliad y Merched – Cyhoeddus (grŵp demograffig a dargedwyd)
Diweddaraïadau e-bost chwarterol i randdeiliaid	✓	✓				✓	Rhanddeiliaid gan gynnwys y Gymdeithas Diwygio Etholiadol, Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Diverse Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Un Llais Cymru, Chwarae Teg a phleidiau gwleidyddol, aelodau awdurdodau lleol, aelodau'r grŵp llywio etc.
Clipiau fideo wythnos ym mywyd cynghorydd	✓	✓		✓			Y cyhoedd
Cyfrif Facebook	✓	✓	✓		✓		Preifat: defnyddiwyd gan fentoriaid, mentoreion a Chydgysylltydd y Prosiect ar gyfer rhwydweithio a thrafod
Cydweithio â rhwydweithiau cydraddoldeb	✓	✓					Un Llais Cymru, Chwarae Teg a Merched yn Gwneud Gwahaniaeth

Rhwydweithio mewn digwyddiadau a thrwy randdeiliaid ehangach y prosiect	✓	✓	✓	✓	✓	Rhanddeiliaid y prosiect fel yr uchod.
Presenoldeb a hyrwyddo mewn digwyddiadau	✓	✓			✓	Sioeau teithiol amrywiaeth (e.e. Coleg Gwent etc), cynadleddau cydraddoldeb, digwyddiadau rhwydweithio hyrwyddwyr cydraddoldeb / amrywiaeth, cynadleddau, sioeau gwledig a chynhadledd plaid wleidyddol.
Deunyddiau hyrwyddo i'w dosbarthu i'r cyhoedd (ee Taflen Mentoreion, posteri a thafleni)	✓	✓	✓	✓		Taflen i fentoreion wedi ei thargedu at unigolion 45+ oed, BME, LGBTQ ac unigolion anabl. Dosbarthwyd y deunydd arall trwy gynghorau lleol a lleoliadau amlwg yn yr ardal ee archfarchnadoedd ac ysbytai.
Deunyddiau hyrwyddo a ddosbarthwyd i randdeiliaid	✓	✓	✓	✓	✓	Rhanddeiliaid fel a restrir uchod.
Cyfweliad radio	✓	✓	✓			Bro Radio Barry – y cyhoedd
Cyflwyniadau / darlithoedd y rhaglen		✓				Digwyddiadau cyngor (ee digwyddiad diwrnod Bro Morgannwg), cynhadledd cydraddoldeb a chyfarfodydd rhwydweithio Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, cyfarfodydd grwpiau mynediad i'r anabl, cyfarfodydd rhwydweithio'r sector gwirfoddol
Dyddiau hyfforddi			✓			Lleoliadau llywodraeth leol – i fentoriaid a mentoreion

Cyfathrebu gyda sefydliadau a chyflogwyr	✓	Trwy raglenni cyflogwyr ee Ambiwlans Cymru a Chwarae Teg – gweithwyr/ pobl o fewn y sefydliadau hyn.
Digwyddiadau panel Hawl i Holi	✓	Fel uchod – gwahoddwyd staff a rhanddeiliaid y prosiect (Chwarae Teg).
Addaswyd o'r Cynlluniau Cyfathrebu (Atodiad 1 a 2) a Gwersi a Ddysgwyd Amrywiaeth mewn Democratiaeth (Llywodraeth Cymru, 2016; Llywodraeth Cymru, 2016; Llywodraeth Cymru, 2017)		

Cyflawni a llwyddiannau maes gweithredu'r Ymgyrch Gyfathrebu

- 6.9 Nod y gweithgareddau cyfathrebu a hyrwyddo oedd cyflawni ymgyrch aml-lwyfan a chynyddu ymwybyddiaeth o'r rhaglen (OC.6 ac OC.4). Fel y gellir gweld yn Nhabl 5 cyflawnwyd cryn dipyn o weithgaredd hyrwyddo a chyfathrebu o fewn maes gweithredu'r ymgyrch i hyrwyddo a chyfleu'r rhaglen Amrywiaeth mewn Democratiaeth (Llywodraeth Cymru, 2016; Llywodraeth Cymru, 2016).

Gweithgaredd cyfathrebu ehangach

- 6.10 Roedd allbynnau penodol yn cynnwys deunyddiau hyrwyddo megis taflenni, posteri ac erthyglau cylchgrawn, a gweithgaredd codi ymwybyddiaeth a oedd yn cynnwys cyflwyniadau (mewn nifer o ddigwyddiadau) a chyfweliad radio (OP.8).
- 6.11 Datblygwyd chwe clip fideo byr mewn partneriaeth â chynghorwyr ac awdurdodau lleol i hyrwyddo rôl cynghorydd ac annog amrywiaeth mewn llywodraeth leol (OP.11 ac OC.4). Cynhaliwyd digwyddiadau amrywiaeth o fewn pob un o'r meysydd gweithredu, a dosbarthwyd deunyddiau marchnata ehangach megis taflenni a phosteri i bob awdurdod lleol i'w lledaenu'n lleol (OP.8 ac OP.9). Yn anffodus, ni chafodd dosbarthiad a chynulleidfaoedd fideos Amrywiaeth mewn Democratiaeth eu monitro drwy'r rhaglen. Er gwaethaf llwyddiannau a wnaed wrth gyflawni'r gweithgareddau hyn, roedd cyfweliadau gyda mentoreion a mentoriaid yn awgrymu'r angen am ymgyrch gyfathrebu a oedd yn hyrwyddo rôl cynghorydd ac amrywiaeth mewn llywodraeth leol. Roedd mentoreion a mentoriaid a gyfwelwyd yn nodi bod angen ehangach parhaus am i fanteision mwy o amrywiaeth gael eu cyfleu i'r cyhoedd. Roedd hyn yn cynnwys gwell penderfyniadau, cynnwys safbwyntiau / profiadau ehangach yn y cyngor ac etholwyr yn cymryd mwy o ddiddordeb. Mae hyn yn gyson â'r safbwynt academiaidd y byddai llywodraeth fwy amrywiol yn cynyddu atebolrwydd a chraffu mewn llywodraeth leol ac y byddai'n gwella ymwneud dinesig, fel yr amlinellir yn yr [adolygiad llenyddiaeth](#) (Baclija, et al., 2008; Andrews,

et al., 2005; Durose, et al., 2013; Mackay & McAllister, 2012). Ar y llaw arall, roedd un cynghorydd yn mynegi pryder y gallai gormod o hyrwyddo gael effaith negyddol. Roeddent yn dweud y gallai hyrwyddo'n ormodol rôl cynghorydd / amrywiaeth mewn llywodraeth leol 'droi pobl yn erbyn' a pheri iddynt anwybyddu deunyddiau hyrwyddo. Dywedwyd ei bod yn 'gydbwysedd anodd iawn' yn ystod y rhaglen i roi syniad realistig o rôl cyngor sir i ddarpar ymgeiswyr posibl heb eu dadrithio rhag sefyll.

- 6.12 Cafodd yr ymgyrch gyfryngau cymdeithasol ei lansio a'i chynnal trwy ddefnyddio'r hashnod '#DiDCymru', trwy lwyfannau cyfryngau cymdeithasol Twitter a Facebook (A.15). Cyrhaeddwyd unigolion trwy gyfryngau cymdeithasol (OP.10), gydag un mentorai yn cadarnhau iddynt ddarganfod y cynllun mentora trwy Twitter a Facebook. Dywedodd llawer o gyfranogwyr y rhaglen (mentoriaid a mentoreion) eu bod wedi ymwneud â'r ymgyrch gyfryngau cymdeithasol i raddau bach, trwy gydol y rhaglen. O'r gwaith maes a gyflawnwyd, roedd y rhan fwyaf o'r cysylltu â mentoriaid a mentoreion trwy Twitter. Dywedodd mentoreion y byddent yn trydar digwyddiadau a dywedodd un mentorai y byddai hi'n tynnu llun yn rheolaidd gyda'i mentor pan oeddent yn cyfarfod a'i gyhoeddi ar Twitter, gan ddefnyddio'r hashnod (OP.10). Dywedodd un mentorai y byddai cyfrif cyfryngau cymdeithasol Amrywiaeth mewn Democratiaeth yn anfon negeseuon perthnasol ac yn ymwneud â'r cyfryngau yn rheolaidd, fodd bynnag, nid oeddent yn derbyn fawr o ymateb gan ddefnyddwyr eraill cyfryngau cymdeithasol. Teimlai rhai mentoreion y gellid bod wedi defnyddio'r grŵp Facebook yn fwy effeithiol i roi cymorth i fentoreion.
- 6.13 Lansiodd gwefan hefyd ar gyfer y rhaglen (A.14). Defnyddiwyd y we-dudalen ar gyfer y mwyafrif o geisiadau gan fentoreion, codi ymwybyddiaeth, rhannu gwybodaeth a hyrwyddo digwyddiadau hyfforddi'r prosiect (Llywodraeth Cymru, 2017) (OP.8). Roedd y we-dudalen hon â doleri i wefan Llywodraeth Cymru. Ni wnaeth y rheini a gymerodd rhan yn y gwaith maes ymwneud yn helaeth â'r wefan a

dywedodd un mentorai y dylai fod cyfeiriad amlycach ati ar we-dudalennau Llywodraeth Cymru.

Canfyddiadau cyhoeddus ehangach o gynghorwyr a chynghorau

- 6.14 Er i gysylltu wyneb yn wyneb gael ei gwblhau gyda rhwydweithiau cydraddoldeb, grwpiau, cyflogwyr a'r cyhoedd yn gyffredinol drwy gydol y rhaglen, dangosodd y gwaith maes fod angen gwneud llawer mwy yn y maes hwn i wella canfyddiadau'r cyhoedd o gynghorwyr. Y canfyddiad gan y rheini a gymerodd ran yn y gwaith maes fod natur rôl cynghorydd yn anhysbys i raddau helaeth ymysg y cyhoedd yn gyffredinol (OP.11). Dywedodd un fod adroddiadau am godiad cyflog i gynghorwyr 'wedi cael ei gyfleu fel pe bai i landlordiaid barus ... [dyw'r cyhoedd] ddim yn sylweddoli mai £13,000 yw hyn.'
- Dyweddodd cynghorwyr hefyd fod y cyhoedd yn aml heb fod yn deall pa wasanaethau mae cynghorwyr yn gyfrifol amdanynt. Cadarnhawyd diffyg ymwybyddiaeth gan fentorai etholedig o'r cynllun mentora, a ddywedodd iddynt gael sioc o weld faint o gyfrifoldebau sydd gan gynghorydd a faint o waith roedd disgwyl iddynt ei wneud. Yn yr un modd, dywedodd un aelod o grŵp ffocws fod gan gynghorwyr newydd lawer iawn o waith dysgu'n gyflym yn y chwe mis cyntaf, 'iddynt wybod beth mae'r gwasanaethau unigol yn ei wneud ... dyna lle mae diffyg dealltwriaeth'. Cadarnhaol yw nodi un cynghorydd ddweud bod, trwy gyfres o sesiynau blasu a gynhaliwyd cyn cael ei ethol i'r cyngor, 'pobl yn dechrau sylweddoli beth mae'n ei olygu, roedd pobl ifanc yn sylweddoli y gallen nhw fod yn Gynghorydd Sir a gweithio'.
- 6.15 Roedd y rheini a gymerodd rhan mewn grwpiau ffocws yn cytuno'n llwyr nad yw'r cyhoedd yn hoffi cynghorwyr. Roeddent yn credu bod y cyhoedd yn gweld cynghorwyr fel pobl 'ddiog' a'u bod yn cael gormod o dâl. Dywedodd un cynghorydd nad oedd yn hawlio costau oherwydd bod arno ofn canfyddiadau negyddol gan y cyhoedd.
- 6.16 Cododd trafodaethau yn y grwpiau ffocws ynghylch sut roedd cyfryngau cymdeithasol wedi cynyddu'r graddau o graffu ar

gynghorwyr gan y cyhoedd. Maent yn ofni bod hyn wedi troi pobl yn erbyn sefyll am y rolau hyn, a gall hyn fod yn arbennig o wir am unigolion sydd â nodweddion gwarchodedig.

- 6.17 Roedd grwpiau ffocws yn nodi hefyd y gallai diwylliant negyddol, o fewn y cyngor, a rhwng Llywodraeth Cymru a'r cynghorau lleol eu hunain fod yn peri anesmwythyd i unigolion a oedd yn bwriad sefyll etholiad. Dywedodd cyfranogwyr grwpiau ffocws fod, yn sgil toriadau i gyllidebau gan y llywodraeth ganolog a chynnyd mewn treth cyngor i ariannu gwasanaethau, 'môr o negyddiaeth' sy'n 'atgyfnerthu'r stereoteipiau negyddol sydd gan y cyhoedd am lywodraeth leol'. Yn gyffredinol, awgrymwyd y gall hyn droi pobl yn erbyn sefyll.
- 6.18 Consensws a ddaeth i'r amlwg o'r trafodaethau hyn oedd bod yn dal i fod angen ar frys i fynd i'r afael â'r camdybiaethau o lywodraeth er mwyn cynyddu'r nifer o ymgeiswyr a chynyddu'r graddau o amrywiaeth mewn democratiaeth. Awgryma hyn fod yn dal i fod angen hyrwyddo rôl cynghorydd yn fwy effeithiol (OP.11).

Cyflawni a llwyddiannau o fewn meysydd gweithredu rhaglen Amrywiaeth mewn Democratiaeth

Cynllun Mentora

- 6.19 Roedd cyfran helaeth o'r gweithgaredd cyfathrebu a hyrwyddo a gyflawnwyd o fewn y maes mentora. Adlewyrchwyd hyn yn y gweithgaredd a restrir yn Nhabl 5 (Llywodraeth Cymru, 2016; Llywodraeth Cymru, 2016).
- 6.20 Roedd yn anodd penderfynu'r nifer o bobl o nodweddion gwarchodedig a allai fod wedi ymwneud â gwybodaeth a gohebiaeth arall a gafodd eu lledaenu fel rhan o ymgyrch Amrywiaeth mewn Democratiaeth. Fodd bynnag, cyflawnwyd yr amcanion i raddau helaeth o fewn y cynllun mentora, lle ymrwymodd 51 o unigolion o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol i fod yn fentoreion (OP.2). Fel y trafodir uchod, bu'r rhaglen yn gweithio gyda rhwydweithiau a

chynrychiolwyr cydraddoldeb, gan gynnwys Rhwydwaith Cydraddoldeb Merched, Merched yn Gwneud Gwahaniaeth, Anabledd Cymru, a thrwy rhai o'r rhain y canfu rhai o'r mentoriaid y cynllun (OC.4). Yn ogystal, anfonwyd diweddariadau rheolaidd at y rhanddeiliaid hyn, a mynychwyd cyfarfodydd y rhwydweithiau gan y tîm gweithredu i godi proffil llywodraeth leol ymysg grwpiau â nodwedd warchodedig (Llywodraeth Cymru, 2017). Byddai hyn yn awgrymu i'r amcan hon gael ei chyflawni i raddau helaeth wrth i'r rhaglen gael ei gweithredu; fodd bynnag, mae'r gwaith maes a gynhaliwyd yn dangos bod angen gwelliant yn y maes hwn o hyd.

- 6.21 Dywedodd un mentorai iddynt gael y cynllun mentora'n anodd ei ddarganfod er eu bod yn chwilio amdano. Felly, efallai mai'r unigolion hyn sy'n llai gweithgar mewn bywyd cyhoeddus yw'r rhai y bydd angen eu hystyried mewn strategaeth gyfathrebu ar gyfer rhaglen yn y dyfodol. Yn ogystal, awgrym a gafwyd gan un grŵp ffocws oedd y gallai caniatáu cynghorau i lansio a denu mentoreion yn eu hardaloedd eu hunain fod wedi bod yn fwy effeithiol ac wedi'i dargedu'n well.
- 6.22 O ran gweithgaredd hyrwyddo'r maes mentora, un maes arwyddocaol oedd darparu deunyddiau / pecynnau gwybodaeth codi ymwybyddiaeth i'r rheini a oedd yn ymwneud â'r cynllun mentora (OP.8). Roedd hyn yn cynnwys y llawlyfr mentora a oedd â'r nod o gynyddu dealltwriaeth cynghorwyr awdurdodau lleol o'r rôl ac o alluogi awdurdodau lleol i enwebu mentor (OP.1). Roedd 64 o gynghorwyr a gafodd eu recriwtio i ddod yn fentor fel rhan o'r cynllun mentora, sy'n awgrymu bod gweithgareddau cyfathrebu a hyrwyddo'r maes gweithredu hwn yn effeithiol (Llywodraeth Cymru, 2017).
- 6.23 Er gwaethaf hyn, dywedodd cynghorydd a gyfwelwyd nad oedd fawr o ymwybyddiaeth o'r rhaglen o fewn ei gyngor ac mai 'dim ond y rheini a oedd yn ymwneud â hi oedd yn gwybod amdani'. Gallai hyn fod oherwydd dywedodd rhai iddynt glywed am y cynllun trwy

Gydgysylltydd y Prosiect neu trwy sgysiau gydag aelodau eraill o'r cynogr a Phenaethiaid Gwasanaethau Democrataidd. Ar y llaw arall, dywedodd un cynghorydd fod lansi'r cynllun ynddo'i hun wedi bod yn ddefnyddiol yn ei chyngr gan ei fod wedi cynyddu ymwybyddiaeth o'r diffyg amrywiaeth mewn llywodraeth leol, hyd yn oed i'r rheini nad oedd yn ymwneud â'r rhaglen. Bydd yn bwysig ystyried natur amrywiol cynghorau (ee daearyddiaeth, maint, demograffeg, sefyllfa wleidyddol) mewn unrhyw gynllun yn y dyfodol o safbwynt sut y caiff ei hyrwyddo.

- 6.24 Elfen arall o weithgaredd hyrwyddo o fewn y cynllun mentora oedd annog mentoriaid a mentoreion i fynychu digwyddiadau a sesiynau hyfforddi (A.16). O'r rheini a gymerodd ran, roedd bron bawb yn gwybod am yr rhaglenni a digwyddiadau hyfforddi. Dim ond un mentoraï nad oedd yn gwybod am y digwyddiadau hyn ac efallai fod hyn wedi bod oherwydd eu diffyg ymwneud â'r cynllun mentora (gweler yr [astudiaeth achos](#) hon).

Cynllun Annog Cyflogwyr

- 6.25 Cyflawnwyd gweithgareddau cyfathrebu a hyrwyddo er mwyn cynnwys cyflogwyr yn y rhaglen Amrywiaeth mewn Democratiaeth a'u hannog i helpu eu gweithwyr cyflogedig i ddod yn weithgar mewn llywodraeth leol. Mae crynodeb o weithgaredd cyfathrebu a hyrwyddo i'w weld yn Nhabl 5 (Llywodraeth Cymru, 2016; Llywodraeth Cymru, 2016).
- 6.26 Mae hyn yn gyson ag amcanion thematig ehangach gweithgareddau cyfathrebu a hyfforddi ar draws rhaglen Amrywiaeth mewn Democratiaeth, gan gynnwys amcanion i gyflwyno ymgyrch aml-lwyfan (OB.9) a chynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r rhaglen (OB.6), ac mae hefyd yn gyson ag amcanion penodol y cynllun ymwneud â chyflogwyr a gaiff eu trafod mewn mwy o fanylder yn y [adran nesaf](#).

- 6.27 Roedd gweithgareddau cyfathrebu a hyrwyddo a oedd yn anelu at gyflogwyr yn cynnwys hyrwyddo'r buddion o fod yn gynghorydd / cael gweithiwr cyflogedig fel cynghorydd o fewn cylchlythyrau newyddion / taflenni / gwefannau a chyfryngau cymdeithasol (OP.8). Cafodd y rhaglen fwy o droedle gyda gwasanaethau brys a chynlluniau datblygu gweithwyr (ee Ambiwlans Cymru a Chwarae Teg²¹), lle'r hwyluswyd tri digwyddiad ar ffurf 'hawl i holi'. Byddai hyn yn awgrymu na chafodd yr allbwn o gyflogwyr yn hyrwyddo'r cynllun i'w gweithwyr ei gyflawni'n llawn (OP.14).
- 6.28 Dywedodd un rhanddeiliad y dylai cyd-drafod â'r gwasanaethau cyhoeddus ehangach a'r trydydd sector gael ei archwilio ymhellach yn y dyfodol. Bu Cydgysylltydd Prosiect Amrywiaeth mewn Democratiaeth yn ymwneud â chyflogwyr yn bennaf trwy rwydweithiau a chysylltiadau a oedd ganddi eisoes. Er hynny, fel y trafodwyd yn y maes ymwneud â chyflogwyr, ni wnaeth y rhaglen lwyddo mewn ymwneud â sefydliadau. Yn gyffredinol, ni wnaeth y prosiect fawr o weithgaredd allgyrraedd trwy'r Cynllun Ymwneud â Chyflogwyr. Felly, awgrymwyd o fewn y gwaith maes a wnaed (mewn sesiwn grŵp ffocws a chyfweliad gyda mentor) fod angen i gyfleoedd datblygu i fod yn gynghorydd a'r manteision i fusnesau o gyflogi cynghorydd gael eu hyrwyddo'n fwy eang.

Cronfa Drws i Ddemocratiaeth (D2D)

- 6.29 Er y byddai gweithgaredd cyfathrebu a hyrwyddo'r gronfa Drws i Ddemocratiaeth wedi cael ei hwyluso trwy weithgaredd hyrwyddo rhaglen ehangach Amrywiaeth mewn Democratiaeth (ee cyflwyniadau'r rhaglen), ni chynhaliwyd gweithgareddau penodol o dan y maes gweithredu hwn gan na chafodd y gronfa ei rhoi ar waith. Os caiff y gronfa hon ei lansio'n llwyddiannus yn y dyfodol, mae'n debygol y byddai gweithgaredd cyfathrebu a hyrwyddo'n cael ei

²¹ Cynllun datblygu gweithwyr cyflogedig benywaidd

gyflawni i gynyddu ymwybyddiaeth o'r hyn y gallai ei gynnig ac annog pobl i fanteisio arni er mwyn cyflawni'r amcanion. Trafodir hyn ymhellach yn yr adran gyfatebol, [Drws i Ddemocratiaeth](#).

Cyd-drafod â phleidiau gwleidyddol

- 6.30 Cafodd pleidiau gwleidyddol eu cynnwys fel cyfryngau allweddol ar gyfer newid. Fel un o amcanion yr ymgyrch gyfathrebu, roedd cydweithio â phleidiau gwleidyddol yn allweddol er mwyn cynyddu'r graddau o amrywiaeth mewn democratiaeth (Llywodraeth Cymru, 2015).
- 6.31 Un gweithgaredd penodol a gyflawnwyd o fewn y maes hwn oedd gosod a dosbarthu deunyddiau hyrwyddo mewn cynhadledd plaid wleidyddol (Llywodraeth Cymru, 2016). Byddai hyn yn awgrymu i rywfaint o ymrwymiad gael ei wneud gan y blaid wleidyddol honno i gefnogi amrywiaeth trwy ei phrosesau democrataidd lleol, negeseuon polisi a chyfathrebu (OP.12).
- 6.32 Roedd gwybodaeth a gafwyd o gyfweiliadau gyda thîm gweithredu'r rhaglen yn dangos diffyg cyfraniad gan bleidiau gwleidyddol drwy gydol y rhaglen. Roedd dau yn cytuno na chafodd cydweithrediad gan bleidiau gwleidyddol ei gynnal drwy gydol y rhaglen²². Dywedodd un aelod o'r tîm gweithredu mai cyfnewidiol ac anwadal oedd y graddau'r oedd pleidiau gwleidyddol yn ymwneud â'r rhaglen. Roeddent yn pwysleisio pwysigrwydd eu cydweithrediad er mwyn gwella'r graddau o amrywiaeth mewn llywodraeth leol. Er gwaethaf hyn, dywedodd mentor a gyfwelwyd nad oedd yn credu bod pleidiau gwleidyddol mor arwyddocaol â hynny wrth weithredu'r newid hwn, yn hytrach, credai, gan fod llawer o bobl nad oeddent yn aelodau o bleidiau gwleidyddol, fod angen strategaeth gyfathrebu a hyrwyddo ehangach. Ar y llaw

²² Dywedodd dau gyfweiliad cwmpasu fod diffyg cydweithrediad cyson gan bleidiau gwleidyddol drwy gydol y rhaglen. Dywedodd un fod y Democratiaid Rhyddfrydol yn chwarae mwy o ran, tra nad oedd y Blaid Lafur ddim. Pwysleisiodd y cyfranogwr fod cyfranogiad Llafur yn bwysig er mwyn cyflawni newid.

arall, roedd rhai mentoriaid a rhanddeiliaid yn dweud yn groes i hyn, ac yn credu bod cyfle gan bleidiau gwleidyddol i greu newid sylfaenol trwy addasu eu gweithdrefnau a phrosesau dewis.

- 6.33 O'r gwaith maes a wnaed, mae'r mwyafrif o fentoriaid wedi dweud iddynt gyflawni eu rôl fel unigolion ac na chawsant eu hannog na'u cefnogi'n uniongyrchol gan eu plaid wleidyddol.

Effeithiau

Cynulleidfaoedd a gyrhaeddwyd

- 6.34 Nod yr ymgyrch gyfathrebu oedd cyrraedd y cyhoedd yn gyffredinol, rhwydweithiau cydraddoldeb, y cyfryngau a chyflogwyr i hyrwyddo rôl cynghorydd ac amrywiaeth mewn llywodraeth leol trwy ymgyrch aml-lwyfan (OB.9). Cyflawnwyd hyn trwy ddosbarthu deunyddiau codi ymwybyddiaeth, digwyddiadau ac ymgyrch gyfryngau cymdeithasol (OP.8, OP.9 a OP.10). Bwriadwyd i hyn gyfrannu at yr effeithiau hirdymor o niferoedd uwch o ymgeiswyr amrywiol yn sefyll etholiad i lywodraeth (IM.3), gwell democratiaeth trwy leihad yn y nifer o ymgeiswyr sy'n sefyll yn ddi-wrthwynebiad (IM.4) a mwy o ymwneud cymunedol mewn llywodraeth leol (IM.7).
- 6.35 Yn ôl yr hyn a ddaeth i'r amlwg o'r gwaith maes a gynhaliwyd, er i'r grwpiau hyn gael eu cyrraedd, mae canlyniadau ac effeithiau'r cysylltiad hwn yn debygol o fod yn fach gan fod angen ymgyrch gyhoeddusrwydd llawer mwy. Fel yr amlinellir uchod, roedd cred bod agwedd negyddol gan y cyhoedd tuag at lywodraeth leol ei hun ac at rôl cynghorydd. Yn unol â'r Papurau Gwyn a Gwyrdd, byddai angen mynd i'r afael â'r canfyddiad negyddol er mwyn annog nifer uwch o unigolion i gynnig eu hunain fel ymgeiswyr posibl. Dywedodd rhai cynghorwyr bod diffyg ymgeiswyr yn gyffredinol, ac, felly byddai'n anodd gwireddu mwy o amrywiaeth mewn democratiaeth mewn llywodraeth leol heb i ymgeiswyr ddod ymlaen (IM.3, IM.4).

- 6.36 Roedd awgrymiadau am weithgaredd cyfathrebu a marchnata yn y dyfodol yn cynnwys ymgyrch, fwy, ganolog a fyddai'n cael ei chefnogi gan Lywodraeth Cymru.

Cydweithio a rhwydweithio rhwng y rheini fu'n cymryd rhan

- 6.37 Fe wnaeth y maes cyfathrebu a'r thîm gweithredu'r rhaglen ehangach gynnal cysylltiad rhwng y rheini a oedd yn cymryd rhan, gan gynnwys rhwydweithiau cydraddoldeb, pleidiau gwleidyddol, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, cyngorau a rhanddeiliaid ehangach, fel yr amlinellir uchod (OC.4). Bwriad hyn oedd datblygu cysylltiadau rhwng Llywodraeth Cymru a sefydliadau cydraddoldeb (IM.6), gan gynyddu hefyd y tebygolrwydd o ymgeiswyr mwy amrywiol trwy ymwybyddiaeth ac anogaeth ehangach ymysg y rhanddeiliaid hyn (IM.3).

- 6.38 Fel yr amlinellir uchod, fe wnaeth cysylltiadau rhwng tîm gweithredu'r rhaglen a'r rhwydweithiau hyn edwino yn ystod cwrs y rhaglen.

- 6.39 Dyweodd mentor eu bod wedi cynnal cysylltiadau gyda'r thîm gweithredu'r rhaglen. Roedd y mentor yma wedi parhau i gydgysylltu â rhwydweithiau cydraddoldeb yn ei hardal a recriwtio cynghorwyr o fewn sefydliadau cydraddoldeb, gan gynrychioli effaith cadarnhaol yr ymyrraeth. Gweler yr [astudiaeth achos](#) yma am fwy o fanylion. Mae'r graddau y gellir priodoli'r canlyniad hwn i'r rhaglen, fodd bynnag, yn aneglur, gan i lawer o'r rheini oedd yn cymryd rhan ddweud y byddai mwy o gysylltu, adborth a digwyddiadau ar ddiwedd y rhaglen wedi cadw'r rhwydweithiau a'r perthnasoedd hyn.

Ymwybyddiaeth o rôl cynghorydd

- 6.40 Mae tystiolaeth gyfyngedig i awgrymu bod ymwybyddiaeth o rôl cynghorydd wedi cynyddu o ganlyniad i'r gweithgareddau a gyflawnwyd yn yr ymgyrch gyfathrebu. Fel y trafodwyd yn y grwpiau ffocws a gynhaliwyd, mae angen o hyd am fwy o ymwybyddiaeth o'r hyn mae'r rôl yn ei olygu.

6.41 Nid yw effaith mwy o ymwybyddiaeth, fodd bynnag, yn golygu bob amser fod pobl yn fodlon ymgymryd â safleoedd ar gynghorau. Fel y dywedwyd gan un cynghorydd, ni fyddai wedi sefyll pe bai hi wedi gwybod popeth roedd y safle'n ei olygu. Awgryma hyn nad yw mwy o ymwybyddiaeth o rôl cynghorydd o angenrheidrwydd yn gyfystyr â nifer uwch o bobl yn dewis sefyll. Er gwaethaf hyn, dywedodd cynghorwyr fod yn rhaid gwella canfyddiadau'r cyhoedd trwy ymgyrch hyrwyddo, er mwyn annog mwy o ymgeiswyr a chael siawns o wella graddau amrywiaeth mewn democratiaeth leol.

Cynghorau'n hyrwyddo mwy o amrywiaeth mewn democratiaeth

6.42 Un o'r canlyniadau a fwriadwyd ar gyfer y rhaglen oedd i Hyrwyddwyr Amrywiaeth fod yn weithgar wrth hyrwyddo rhaglen Amrywiaeth mewn Democratiaeth o fewn y cyngor a'r gymuned (OC.5). Yn fwy hirdymor, gallai hyn arwain at gynghorau'n ymwreiddio prosesau cydraddoldeb er mwyn annog ymgeiswyr mwy amrywiol (IM.5).

6.43 Dim ond un o'r rhai a gyfwelwyd a gadarnhaodd ei bod yn Hyrwyddwr Amrywiaeth a bu'n ymgymryd â gweithgareddau cyfathrebu a hyrwyddo drwy'r Cyngor cyfan o fewn ei rôl. Mae'r unigolyn yma wedi parhau â'r arferion hyn ers hynny ac mae'n hyrwyddo mwy o amrywiaeth yn ei chyngor, rhywbeth y gellir ei weld fel effaith cadarnhaol yr ymgyrch gyfathrebu (gweler yr [astudiaeth achos](#)).

Cydweithrediad pleidiau gwleidyddol

6.44 Un o ganlyniadau arfaethedig y rhaglen oedd cynyddu ymwybyddiaeth o bwysigrwydd cydraddoldeb ac amrywiaeth ymysg y pleidiau gwleidyddol yng Nghymru (OC.3). O gynrychiolwyr y pleidiau gwleidyddol y cyfwelwyd â hwy (o'r Democratiaid Rhyddfrydol, y Blaid Lafur, y Ceidwadwyr a Phlaid Cymru) dim ond dau fu'n ymwneud yn uniongyrchol â rhaglen Amrywiaeth mewn Democratiaeth (roedd rhai o'r rheini y cyfwelwyd â hwy wedi dod i'w swydd ers i'r rhaglen orffen). Roedd pawb o'r cynrychiolwyr yn sylweddoli'r angen i gynyddu amrywiaeth mewn democratiaeth leol. Dywedodd un, er enghraifft, eu

bod yn 'ymwybodol iawn' o'r cyfrannau o ferched etholedig yn eu plaid, er bod pob un yn cyfeirio at ymdrechion presennol i gynyddu'r niferoedd o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol ar bob lefel o lywodraeth. Dywedodd un rhanddeiliad fod eu hymwybyddiaeth o amrywiaeth wedi gwella ers chwarae rhan yn y rhaglen, fodd bynnag ni ddywedodd neb o randdeiliaid y pleidiau fod eu harferion / gweithdrefnau dewis wedi newid o ganlyniad.

Gallai hyn adlewyrchu nad oedd pleidiau gwleidyddol wedi gweithredu llawer o ganlyniad i'r ymgyrch gyfathrebu. Er gwaethaf rhywfaint o bresenoldeb gan randdeiliaid pleidiau gwleidyddol mewn cyfarfodydd o'r grŵp llywodraeth, nid oes fawr o dystiolaeth i awgrymu bod gweithdrefnau dewis wedi newid o ganlyniad iddynt gymryd rhan yn y cynllun. O ran cyfathrebu, dywedodd un rhanddeiliad na chawsant wybod beth oedd canlyniadau'r prosiect (megis unrhyw wersi a ddysgwyd). Mae hyn yn awgrymu y dylai rhaglen yn y dyfodol gynnal cysylltiadau ar ddiwedd y prosiect fel y gall pawb o'r rhanddeiliaid elwa o wersi a ddysgwyd. Mae rhagor o gasgliadau ynghylch cwmpas yr ymgyrch i'w gweld yn yr adran isod.

Arolwg Ymgeiswyr Llywodraeth Leol

- 6.45 O fewn adroddiad Ar ôl Pwyso a Mesur, fe wnaeth y Grŵp Arbenigwyr ar Amrywiaeth mewn Llywodraeth Leol adolygu canlyniadau Arolwg Ymgeiswyr Llywodraeth Leol 2012, a chynnig cyfres o argymhellion ar sut y gellid gwella'r arolwg i'w wneud yn fwy effeithiol wrth asesu cydraddoldeb a chynrychiolaeth mewn llywodraeth leol yng Nghymru (Grŵp Arbenigwyr ar Amrywiaeth mewn Llywodraeth Leol, 2014). Ni chafodd yr arolwg ei weinyddu'n uniongyrchol gan raglen Amrywiaeth mewn Democratiaeth ond cafodd ei hyrwyddo fel rhan o'r Ymgyrch Gyfathrebu.

6.46 Cyflwynwyd yr arolwg ar y cychwyn o dan y Mesur,²³ a oedd yn pennu y dylid adeiladu proffil o ddemograffeg pawb o'r ymgeiswyr llwyddiannus ac aflwyddiannus (mewn etholiadau cynghorau lleol ar lefel sir a chymuned) (Grwp Arbenigwyr ar Amrywiaeth mewn Llywodraeth Leol, 2014). Er bod yr arolwg yn ddefnyddiol (er enghraifft, roedd yn amlygu bylchau rhwng y rhywiau), fe wnaeth y Panel Arbenigwyr nifer o argymhellion i wella'r arolwg (Grwp Arbenigwyr ar Amrywiaeth mewn Llywodraeth Leol, 2014). Yr argymhellion hyn oedd (Grwp Arbenigwyr ar Amrywiaeth mewn Llywodraeth Leol, 2014):

- cynnwys data ansoddol gan ymgeiswyr a darpar ymgeiswyr posibl a benderfynodd beidio â sefyll
- pennu y dylai awdurdodau lleol gynnal cyfweiliadau gadael gyda phob cynghorydd sy'n rhoi'r gorau iddi mewn etholiadau, er mwyn deall eu rhesymu.²⁴
- cymharu cwestiynau gydag arolygon eraill a ddefnyddir ledled y Deyrnas Unedig, er mwyn galluogi gwell cymariaethau gyda rhanbarthau eraill
- gweithio gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac Un Llais Cymru i hyrwyddo'r arolwg
- defnyddio llwyfannau ar-lein i ymgeiswyr ymateb
- dosbarthu'r arolwg cyn etholiadau
- defnyddio un darparwr ymchwil unigol i gynnal yr arolwg ar ran awdurdodau lleol.

Amcanion

6.47 Roedd rhaglen Amrywiaeth mewn Democratiaeth felly yn anelu at weithredu rhai o'r argymhellion hyn. Fel y nodwyd ym mrieff y rhaglen, byddai rhaglen Amrywiaeth mewn Democratiaeth yn cymryd nifer o

²³ Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011

²⁴ Arweiniodd hyn at lunio Arolwg Ymadael Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru o Aelodau a Safodd i Lawr, sy'n seiliedig ar gyfranogiad gwirfoddol ymatebwyr.

gamau i wella'r wybodaeth o'r arolwg, a chyfraddau ymateb iddo (Llywodraeth Cymru, 2014) yn unol ag argymhellion adroddiad Ar ôl Pwyso a Mesur.

6.48 Er mwyn gwella'r cyfraddau ymateb, ceisiodd rhaglen Amrywiaeth mewn Democratiaeth wella dealltwriaeth o'r arolwg ymysg ymgeiswyr trwy wneud y canlynol (Llywodraeth Cymru, 2014):

- gweithio gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac Un Llais Cymru
- sicrhau bod yr arolwg ar gael ar-lein i'w gwblhau
- dosbarthu'r arolwg cyn etholiadau
- defnyddio un darparwr ymchwil unigol i gynnal yr arolwg i awdurdodau lleol.

6.49 Er mwyn gwella'r wybodaeth o'r arolwg, aeth rhaglen Amrywiaeth mewn Democratiaeth ati i sicrhau bod cwestiynau yn gymaradwy â rhanbarthau eraill, gweithio gydag awdurdodau lleol i ddefnyddio'r data'n briodol i wella amrywiaeth, dyfeisio sut i gynnwys data ansoddol yn yr arolwg, a chynnal cyfweiliadau gyda chynghorwyr a oedd yn sefyll i lawr (Llywodraeth Cymru, 2014).

Gweithredu a llwyddiannau

6.50 Mae cymhariaeth o'r ddau arolwg (2012 a 2017) wedi rhoi rhywfaint o ddealltwriaeth sut y newidwyd y ffordd y gweithredwyd yr arolwg (ac felly y graddau y cyflawnwyd rhai o'r amcanion hyn). Newidiodd gweinyddwyr yr arolwg o Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn 2012, i'r Uned Data yn Llywodraeth Cymru yn 2017. Cyflawnwyd rhai o argymhellion adroddiad Ar ôl Pwyso a Mesur (Llywodraeth Cymru, 2018).

- Dosbarthwyd yr arolwg gyda phapurau etholiad, cyn dyddiad yr etholiad ei hun.
- Cafodd yr arolwg ei gynnal ar-lein (gyda fersiynau papur yn cael eu darparu pe gofynnid amdanynt).

- 6.51 Yn 2012, derbyniodd yr arolwg gyfanswm o 3,394 o ymatebwyr (cafodd 2,768 eu hethol, a 716 yn anetholedig) (Llywodraeth Cymru, 2013). Yn 2017, graddfa ymateb yr arolwg oedd 1,701 (1,272 wedi eu hethol, a 427 heb eu hethol) (Llywodraeth Cymru, 2018). Er gwaethaf cyfanswm sylweddol is o ymatebion, roedd cyfran sylweddol fwy o ymatebion a oedd gan gynghorwyr sir, ac mae'n debygol fod hyn o ganlyniad i newidiadau a wnaeth i'r fethodoleg a'r dosbarthu.

Tabl 6 Ymatebwyr i Arolwg Llywodraeth Leol o Ymgeiswyr

	2012 (n)	2017(n)
Ymatebwyr etholedig	2,678	1,272
Ymatebwyr anetholedig	716	429
Cynghorwyr sir (anetholedig ac etholedig)	935	811
Cynghorwyr cymuned (anetholedig ac etholedig)	2,680	1,256
Cyfanswm ymatebion	3,394	1,701

Ffynhonnell: Arolwg Llywodraeth Leol o Ymgeiswyr, 2012 a 2017

- 6.52 Roedd dogfennaeth rhaglen Amrywiaeth mewn Democratiaeth yn rhoi tystiolaeth gyfyngedig i ddangos y graddau y cyflawnwyd yr amcanion yn ymwneud ag Arolwg Llywodraeth Leol o Ymgeiswyr, ac effeithiolrwydd y gwahanol ffyrdd o hyrwyddo'r arolwg.
- 6.53 O ran gwella'r wybodaeth o'r arolwg, mae cwestiynau arolwg 2017 wedi esblygu'n sylweddol o arolwg 2012. Mae hyn felly wedi ymdrin â'r argymhelliad i sicrhau y gellir defnyddio'r arolwg i'w gymharu â setiau data eraill. Mae'r cwestiynau ar anabledd, er enghraifft (fel y trafodwyd yn Adran **Error! Reference source not found.**) bellach yn cyfateb yn agos â data cyfrifiad (mae'r cyfrifiad cenedlaethol yn gofyn am y graddau y caiff gweithgareddau dyddiol eu cyfyngu gan broblem iechyd neu anabledd) (ONS, 2013). Fodd bynnag, roedd y newidiadau hyn yn golygu na ellir cymharu setiau data 2012 a 2017 mewn perthynas â'r cwestiynau penodol hynny, sydd felly'n cyfyngu'r graddau y gellir ei ddefnyddio fel astudiaeth hirdymor o newidiadau demograffig ymgeiswyr llywodraeth leol yng Nghymru. Yn gyffredinol, argymhellir:

- Gofyn cwestiynau sy'n ymwneud ag amrediad ehangach o nodweddion gwarchodedig (fel hunaniaethau trawsrywiol, cyfrifoldebau gofalu, a chrefydd)
- Bod y setiau data yn gyfaradwy yn hydredol trwy sicrhau bod y cwestiynau'n cael eu gadw'n gyson.

Casgliadau

- 6.54 Yn gyffredinol, fe wnaeth yr ymgyrch gyfathrebu ddosbarthu deunyddiau hyrwyddo'n ymwneud â gwahanol feysydd rhaglen Amrywiaeth mewn Democratiaeth (yn enwedig yn achos hyrwyddo'r cynllun mentora). Fodd bynnag, mae'r gwerthusiad wedi datgelu bod yr angen yn parhau am weithgaredd cyfathrebu a hyrwyddo er mwyn hyrwyddo rôl cynghorydd a mwy o amrywiaeth. Awgryma hyn fod yr ymgyrch gyfathrebu a rhaglen ehangach Amrywiaeth mewn Democratiaeth yn gyfyngedig yn ei llwyddiant (OP.11). Roedd yr adnoddau a ddyrannwyd i'r ymgyrch tua £13,300. Awgryma hyn y dylai ymgyrch yn y dyfodol gael cymorth ariannol sylweddol fwy er mwyn cyflawni amcanion yr ymgyrch megis denu mwy o bobl i gymryd rhan yn rhaglen Amrywiaeth mewn Democratiaeth.
- 6.55 Y pryder amlycaf a gododd o'r gwaith maes a wnaed oedd bod angen i rôl cynghorydd gael ei chyfleu yn fwy effeithiol. Y canfyddiad oedd bod camdybiaethau helaeth ymysg y cyhoedd ynghylch beth mae rôl cynghorydd yn ei olygu, ac y gall hyn arwain ar lefelau uwch o ddadrithiad a difaterwch ymhlith pleidleiswyr. Yn ogystal, dehonglwyd bod y diffyg dealltwriaeth hwn wedi cyfrannu at lefelau uwch o agweddau negyddol tuag at gynghorwyr. Nid yw negyddiaeth o'r fath yn ffafriol o gwbl i unrhyw ymdrechion i annog ymgeiswyr mwy amrywiol, na mwy o ymgeiswyr. Am y rheswm hwn, mae angen i lywodraeth leol, a rôl cynghorydd, gael eu hyrwyddo'n fwy. Gall hyn gynnwys cyfarfodydd wyneb yn wyneb, gweithgareddau addysgol, ac allgymorth wedi'i dargedu at wahanol grwpiau cymunedol.

7. Cynllun Annog Cyflogwyr

Cyflwyniad a Sail Resymegol

- 7.1 Rhan allweddol o raglen Amrywiaeth mewn Democratiaeth oedd ehangu cyfranogiad trwy annog cyflogwyr i ddangos y buddion o fod yn gynghorydd i'r sefydliad a'i weithwyr.
- 7.2 Roedd argymhellion adroddiad Ar ôl Pwysu a Mesur yn canolbwyntio ar annog cyflogwyr y sector cyhoeddus a'r sector preifat i gefnogi staff i ddod yn gynghorwyr (Grŵp Arbenigwyr ar Amrywiaeth mewn Llywodraeth Leol, 2014). Roedd argymhelliad 21²⁵ yn canolbwyntio ar weithwyr y sector cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, i ddod yn esiamplau mewn hwyluso gweithwyr cyflogedig i ddod yn gynghorwyr. Yn yr un modd, roedd argymelliad 22²⁶ yn canolbwyntio ar weithwyr sector preifat, yn enwedig y rheini sy'n elwa o brosesau caffael Llywodraeth Cymru, i annog staff sy'n dymuno gwasanaethu fel cynghorwyr. Roedd yn argymhell y gallai rhaglen Amrywiaeth mewn Democratiaeth gyfrannu at amcanion strategol Cyfrifoldeb Cymdeithasol Corfforaethol cyflogwyr, a gweithio gyda Chydffederasiwn Diwydiant Prydain (CBI) i gefnogi hyn. Roedd cyflogwyr felly'n cael eu hannog i sylweddoli'r buddion posibl i'w sefydliadau, o safbwynt Cyfrifoldeb Cymdeithasol Corfforaethol, hyfforddiant i unigolion a datblygiad personol ehangach.
- 7.3 Roedd Llywodraeth Cymru yn cefnogi ac yn cytuno â'r ddau argymhelliad mewn egwyddor. Roeddent yn dweud y byddent yn archwilio hyn ymhellach gyda grwpiau gweithredu strategol, megis Grŵp Arwain y Gwasanaeth Cyhoeddus, Byrddau Gwasanaethau

²⁵ Argymhelliad 21: 'Dylai'r ymgyrch hon hefyd gynnwys cydweithio â chyflogwyr er mwyn ei gwneud yn haws i'w gweithwyr fod yn aelodau cyngor. Dylai cyflogwyr yn y sector cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, ddangos esiampl drwy ei gwneud yn haws i'w gweithwyr sefyll a gwasanaethu fel cynghorwyr.'

²⁶ Argymhelliad 22: 'Dylid annog sefydliadau yn y sector preifat, yn enwedig y rheini sy'n elwa o brosesau caffael Llywodraeth Cymru, i gefnogi staff sy'n dymuno gwasanaethu fel cynghorwyr, fel rhan o'u rhaglenni Cyfrifoldeb Cymdeithasol Corfforaethol. Dylid gofyn i CBI a sefydliadau cyflogwyr eraill gefnogi'r nod hon.'

Lleol (a elwir bellach yn Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus), y CBI a grwpiau cyflogwyr eraill (Llywodraeth Cymru, 2014).

Amcanion

- 7.4 Cafodd y ddau argymhelliad o adroddiad Ar ôl Pwysu a Mesur a amlinellir uchod eu hymgorffori'n uniongyrchol i Friff y Rhaglen fel rhan greiddiol o ehangu cyfranogiad mewn llywodraeth leol (Llywodraeth Cymru, 2014). Fel yr amlinellir yn y ddogfen Gwersi a Ddysgwyd, yr amcan penodol oedd 'datblygu strategaeth, gan gydweithio â chyflogwyr, i annog gweithwyr cyflogedig i gymryd diddordeb mewn llywodraeth leol gyda'r pwysigrwydd o sefyll mewn etholiad lleol yn 2017' (Llywodraeth Cymru, 2017).
- 7.5 Cafodd yr amcan o 'gydweithio â chyflogwyr ledled Cymru' (OB.7) ei nodi a chyfeiriwyd at hyn drwy'r holl werthusiad. Cafodd yr amcan hwn ei asesu trwy adolygiad o ddogfennau, cyfweiliadau cwmpasu a gweithdai modelu rhesymeg.

Gweithredu a llwyddiannau

Dull gweithredu

- 7.6 Er mwyn cyflawni'r amcan o weithio mewn partneriaeth gyda chyflogwyr, aeth rhaglen Amrywiaeth mewn Democratiaeth ati i gyflwyno ymgyrch i gyflogwyr y sector cyhoeddus a'r sector preifat, fel y nodir ym Mriff y Rhaglen (Llywodraeth Cymru, 2014). Datblygwyd hyn ymhellach fel rhan o 'Gam 2' gyda'r nod o weithio gyda chyflogwyr cefnogol (a oedd yn cynnwys cyflogwyr sector cyhoeddus yn unig) i gyflawni tri gweithgaredd canolog, a oedd yn cynnwys (Llywodraeth Cymru, 2016a):
- hyrwyddo a darparu digwyddiadau 'Hawl i Holi' mewnol i staff i gyfarfod cynghorwyr presennol yn hyrwyddo buddion 'bod yn gynghorydd' ar y fewnrwyd / cylchlythyr newyddion.
 - adolygu polisïau a gweithdrefnau absenoldeb arbennig / gweithio hyblyg.

- 7.7 Cafodd y dull gweithredu ei gynnwys fel rhan annatod o'r Cynllun Cyfathrebu a oedd yn nodi mai'r amcan oedd 'gweithio gyda chyflogwyr i hyrwyddo'r buddion o fod yn gynghorwyr trwy drefnu digwyddiadau allanol a mewnol i godi ymwybyddiaeth' (Llywodraeth Cymru, 2015).
- 7.8 Mae nifer o dybiaethau sylfaenol sy'n rhan o sail y dull gweithredu i gyflawni'r amcan o annog a chynnwys cyflogwyr. Mae enghreifftiau o'r tybiaethau hyn yn cynnwys:
- bod cyflogwyr yn cefnogi'r syniad o'u gweithwyr cyflogedig yn gweithio gyda llywodraeth leol
 - bod gan gyflogwyr yr adnoddau ac maent yn fodlon cydweithio
 - bod cael cyflogwyr i hyrwyddo'r rhaglen yn ffordd effeithiol o annog cyfranogiad mewn llywodraeth leol.
- 7.9 Gellir cysylltu'r tybiaethau allweddol sy'n ymwneud â'r maes gweithredu hwn â symbyliad ac adnoddau cyflogwyr, a pherthnasedd hyrwyddo'r cynllun i gyflogwyr. Tybiaeth sylfaenol allweddol o fewn y maes hwn, ac yn ehangach, yw po fwyaf mae unigolion yn ei wybod am lywodraeth leol, y mwyaf bodlon y byddant i sefyll fel cynghorydd. Mae hon yn dybiaeth arwyddocaol ac mae angen tystiolaeth bellach i archwilio'r graddau mae'r dybiaeth yn wir, yn enwedig gydag unigolion o gefndiroedd amrywiol.

Gweithredu

- 7.10 Un o allbynnau allweddol y Cynllun Annog Cyflogwyr oedd defnyddio cyflogwyr sector cyhoeddus fel patrwm ac i sefydliadau sector preifat gefnogi staff a oedd yn dymuno sefyll fel cynghorwyr (Llywodraeth Cymru, 2014). Felly, fel yr amlinellir yn y model rhesymeg, yr allbwn oedd i gyflogwyr hyrwyddo'r cynllun i'w gweithwyr (OP.12).
- 7.11 O fewn y cynllun hwn, roedd sefydliadau'n ymrwymo i fod yn gyflogwr 'cefnogol' o raglen Amrywiaeth mewn Democratiaeth. Roedd hyn yn cynnwys cyfleoedd i staff gyfarfod â chynghorwyr llywodraeth leol,

hyrwyddo'r maes gweithredu ac adolygu eu polisïau a gweithdrefnau, yn enwedig ynghylch gweithwyr yn dymuno cymryd amser i ffwrdd o'r gwaith yn sgil dyletswyddau cyhoeddus.

7.12 Fel yr amlinellwyd yn y ddogfen Gwersi a Ddysgwyd, cyflwynwyd tri digwyddiad 'Hawl i Holi' rhwng mis Gorffennaf 2014 a mis Mawrth 2017 (Llywodraeth Cymru, 2017). Amlinellir isod wybodaeth bellach am y digwyddiadau a gyflwynwyd.

- Fe wnaeth Gwasanaeth Ambiwylans Cymru gynnal dau ddigwyddiad 'Hawl i Holi' gyda 17 o weithwyr yn eu mynychu. Fe'u cynhaliwyd yn eu swyddfeydd yng Nghasnewydd a Llanelwy. Roedd cyfranogwyr y paneli'n cynnwys Hyrwyddwyr Amrywiaeth o'r ardaloedd canlynol: Torfaen, Caerdydd, Merthyr a Conwy.
- Cynhaliodd Gwasanaeth Tân De Cymru ddigwyddiad 'Hawl i Holi' gyda 15 o weithwyr yn ei fynychu. Y rhai a oedd yn cymryd rhan ar y panel oedd yr Hyrwyddwr Amrywiaeth o Ferthyr Tudful ac aelodau o Wasanaeth Tân De Cymru.
- Roedd digwyddiad 'Hawl i Holi' Skype wedi cael eu gynllunio gyda Chyfoeth Naturiol Cymru, fodd bynnag, yn sgil pwysau mewnol yng Nghyfoeth Naturiol Cymru, nid aeth y digwyddiad yn ei flaen.

Mewn grŵp ffocws, dywedwyd mai cyfyngedig oedd y presenoldeb yn un o'r digwyddiadau cyflogwr a chyflogedig a gynhaliwyd fel rhan o'r rhaglen. Gallai'r rhesymau dros bresenoldeb gwan (a grybwyllwyd gydag elfennau eraill o'r rhaglen) gynnwys adnoddau a chysylltiadau trafndiaeth.

7.13 Fel y trafodwyd yn y cyfweiliadau cwmpasu gyda thîm gweithredu'r rhaglen, yn sgil yr adnoddau cyfyngedig ar gyfer rhaglen Amrywiaeth mewn Democratiaeth, y cynllun hwn oedd y 'gwanaf' (cyfweiliad cwmpas â thîm gweithredu'r rhaglen). O ganlyniad i dueddiad i ddefnyddio rhwydweithiau a chysylltiadau a oedd yn bod eisoes gyda chyflogwyr, roedd y cynllun annog cyflogwyr yn canolbwyntio ar sefydliadau sector cyhoeddus. Roedd y maes hwn yn canolbwyntio ar

ymwneud â'r sector cyhoeddus, yn hytrach na'r sector preifat, yn sgil canfyddiad y gallai'r cyflogwyr hyn fod yn fwy parod i dderbyn y rhaglen. Yn ogystal, roedd y cyfweiliadau cwmpasu yn trafod y cynnig cyfyngedig a oedd ar gael i gyflogwyr trwy raglen Amrywiaeth mewn Democratiaeth, yn enwedig mewn adegau o ansicrwydd economaidd.

- 7.14 Deunyddiau cyfathrebu ehangach a ddatblygwyd yn llwyddiannus fel rhan o'r cynllun hwn oedd [‘Canllawiau cyflogwyr ar ddod yn gynghorydd’](#) a [‘Busnesau yn Cefnogi Cymunedau’](#) (Llywodraeth Cymru, 2016). Roedd y ddogfen fer yn rhoi crynodeb o'r angen i weithwyr cyflogedig ddod yn gynghorwyr lleol a sut y gallai busnesau gefnogi hyn ymellach (ee adolygu polisïau, annog staff, addo cymorth, etc) a sut y gall rhaglen Amrywiaeth mewn Democratiaeth gefnogi hyn ymhellach (ee cynnig cyfarfod cynghorwyr presennol, darparu cyngor, etc). Roedd y cyfweiliadau cwmpasu'n pwysleisio llwyddiant y fideos.
- 7.15 Roedd y ddogfen Gwersi a Ddysgwyd yn awgrymu bod angen prosiect unswydd i weithio gyda sefydliadau o'r sector cyhoeddus, y sector preifat a'r sector gwirfoddol i fynd ati o ddifrif i annog gweithwyr i gymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus yng Nghymru (Llywodraeth Cymru, 2017). Cefnogwyd hyn yn y cyfweiliadau cwmpasu gyda thîm gweithredu'r rhaglen gydag angen am fwy o gyd-drafod gyda chyflogwyr sector cyhoeddus a sector preifat.

Effeithiau

- 7.16 Fel y nodwyd, cyfyngedig oedd y llwyddiannau yn y maes hwn, ac felly ni chasglodd y gwaith maes wybodaeth am unrhyw effeithiau. Roedd y trafod trwy'r grwpiau ffocws a'r cyfweiliadau'n adlewyrchu bod rhaglen Amrywiaeth mewn Democratiaeth yn iawn i adnabod yr angen i ymwneud â chyflogwyr.
- 7.17 O safbwynt y cyflogwyr, nodwyd gan randdeiliad 'nad oes unrhyw gymhelliad gwirioneddol' i gyflogwyr hyrwyddo'r rôl o ddod yn gynghorydd – oherwydd y tebygolrwydd o orfod cymryd amser i ffwrdd o'r gwaith. Gall llawer o ddarpar ymgeiswyr posibl felly

ddiystyru'r syniad o sefyll a hyd yn oed weld eu gweithwyr fel y penderfynwyr allweddol yn y cyswllt hwn. Er y dywedwyd mewn cyfweiliad bod hawl gan Gynghorwyr Sir / Dinas mewn gwaith cyflogedig i gymryd 19 diwrnod o'r gwaith, dywedodd mentoriaid a oedd yn cymryd rhan ei bod yn aml yn anodd cymryd yr amser hwn i ffwrdd. Dywedodd un mentor fod angen gwneud y gwaith prun bynnag, ac felly nad oedd y lwfans hwn yn gwneud fawr o wahaniaeth o safbwynt rhyddhau ei hamser. Yn yr un modd, dywedodd rhanddeiliad y gall hyn fod yn broblem i gyflogwyr bach.

- 7.18 Roedd gweithgareddau'r gwaith maes yn cefnogi'r canfyddiadau o'r adolygiad llenyddiaeth – fod cynghorwyr yn aml yn ei chael yn anodd cydbwysu'u dyletswyddau cyngor gyda gwaith cyflogedig, yn sgil goblygiadau ar amser a chyllid. Y farn oedd fel lefel y tâl i gynghorwyr sir yn rhy isel fel unig incwm (yn fwy fyth felly os yw'r cynghorydd yn gorfod cefnogi mwy nag un person yn ariannol – ee plant). Mae'r gyfradd tâl wedi ei phennu ar y dybiaeth fod cynghorwyr yn treulio dau neu dri diwrnod gwaith ar eu rôl, fodd bynnag, y farn gyffredinol oedd bod y gwaith sydd angen ei wneud yn fwy na'r ddau neu dri diwrnod roedd y cyflog yn seiliedig arno. Roedd hyn yn golygu, felly, y byddai'n rhaid i gynghorwyr weithio i fwy nag un cyflogwr i ennill incwm digonol. Dywedodd un mentor a gafodd ei gyfweld y 'gallai bod yn gynghorydd fod yn fwy addas i rywun nad oes ganddynt gyfyngiadau ariannol'. Drwy holl weithgareddau'r gwaith maes, dyma oedd yn cael ei ystyried yn gyffredinol fel y rheswm pam fod cyfran uchel o gynghorwyr yn bobl wedi ymddeol, gan y gallai fod ganddynt yr amser i ymrwymo i'r swydd a'u bod yn debygol o fod yn derbyn pensiwn.

- 7.19 Mater arall a gododd o'r gwaith maes oedd efallai na fydd rôl cynghorydd sir yn cael ei werthfawrogi gan gyflogwyr, ac y gallai lleihau oriau i ryddhau amser i'w dreulio ar ddyletswyddau cyngor gael effaith niweidiol ar gynnydd mewn gyrfa. Dywedodd un cyfranogwr grŵp ffocws iddynt, ers symud o'r fainc flaen i'r fainc ôl,

wedi chwilio am waith rhan-amser, fodd bynnag roedd cyflogwyr / recriwtwyr yn aml yn gyndyn i gynnig gwaith unwaith roeddent yn deall bod yr unigolyn yn gynghorydd. Yn yr un modd, dywedodd mentor a gyfwelwyd iddi ei chael yn anodd cael swydd ar ôl cymryd toriad o waith cyflogedig i ganolbwyntio'n llawn-amser ar ddyletswyddau cyngor, ac o ganlyniad iddi orfod ail-hyfforddi mewn proffesiwn newydd. Yn gyffredinol, roedd canfyddiad ymysg y rheini a oedd yn cymryd rhan fod cyflogwyr yn aml yn methu ag adnabod y sgiliau a enillir trwy fod yn gynghorydd.

Casgliadau

- 7.20 I gloi, cyfyngedig oedd llwyddiant y maes Annog Cyflogwyr o ran ei amcanion. Er gwaethaf rhai gweithgareddau (megis digwyddiadau) roedd y maes gweithredu hwn yn dibynnu ar gysylltiadau blaenorol a oedd gan Gydgyssylltydd y Prosiect, yn hytrach nag ar brosesau a oedd yn rhan o'r prosiect. Roedd y gwaith maes yn cadarnhau'r angen am faes i annog cyflogwyr i fynd i'r afael â chanfyddiadau negyddol o'r rôl, ac efallai i hyrwyddo gweithio hyblyg i weithwyr a oedd yn dewis sefyll fel ymgeiswyr.

8. Cronfa Drws i Ddemocratiaeth (D2D)

Cyflwyniad a sail resymegol

- 8.1 Er mwyn cynyddu'r graddau o amrywiaeth mewn democratiaeth leol mae angen i'r llywodraeth gael gwared ar gymaint ag sy'n bosibl o rwystrau (yn rhai canfyddedig a gwirioneddol) i fynediad. Un rhwystr arwyddocaol i fynediad oedd y ddarpariaeth o gyllid a chymorth i'r rheini ag anableddau. Fe wnaeth cynllun peilot Cronfa Fynediad at Swydd Etholedig yn Lloegr ysgogi ystyriaeth o gynllun tebyg yng Nghymru i fynd i'r afael â'r rhwystrau hyn, a daeth yn un o'r argymhellion yn adroddiad Ar ôl Pwyso a Mesur (Grwp Arbenigwyr ar Amrywiaeth mewn Llywodraeth Leol, 2014); dylai Llywodraeth Cymru ystyried gwerthuso'r prosiect Mynediad at Swydd Etholedig sydd ar waith mewn etholiadau yn Lloegr ac ystyried gweithredu cynllun tebyg ar gyfer yr etholiadau lleol nesaf.

Amcanion

- 8.2 I gyflawni'r argymhelliad hwn, cynhwyswyd maes gweithredu'r Drws i Ddemocratiaeth (D2D) o fewn maes gweithredu rhaglen ehangach Amrywiaeth mewn Democratiaeth. Amcan y cynllun hwn oedd cyflwyno cymorth ariannol wedi'i dargedu a oedd yn rhoi mwy o gyfle i bobl anabl sefyll fel ymgeisgwyr (OB.8).

Dod i ben

- 8.3 Roedd yr hyn a ddysgwyd o ddogfennaeth prosiectau Amrywiaeth mewn Democratiaeth a'r cyfweiliadau cwmpasu yn dangos bod y posibilrwydd o gronfa Gymreig wedi cael ei hastudio a'r mecanweithiau ar gyfer cyllid wedi cael eu harchwilio (Llywodraeth Cymru, 2017). Argymhelliad adroddiad Ar ôl Pwyso a Mesur oedd i Lywodraeth Cymru ystyried sefydlu cynllun tebyg i'r prosiect Mynediad at Swydd Etholedig a gafodd ei weithredu yn Lloegr. Fe wnaeth Llywodraeth Cymru archwilio opsiynau ar gyfer gweithredu

cynllun tebyg, ond ni wnaeth hyn arwain at gyflwyno cynllun cenedlaethol.

- 8.4 Yn dechnegol, cafodd argymhelliad adroddiad Ar ôl Pwysu a Mesur, a oedd yn cynghori archwilio dichonoldeb gweithredu cynllun o'r fath, ei ddilyn. Bwriad yr argymhelliad, fodd bynnag oedd i Lywodraeth Cymru sefydlu cynllun o'r fath ac ni chyflawnwyd hyn.
- 8.5 Canfuwyd bod cymhlethdodau cyfreithiol ynghylch gweinyddu cronfa o'r fath. Ni all ymgeiswyr mewn etholiadau lleol dderbyn cyllid yn gyfreithiol ond gan roddwyr 'a ganiateir' (Llywodraeth Cymru, 2016a; Llywodraeth Cymru, 2017). Ni all Llywodraeth Cymru gael ei gweld fel pe bai'n cefnogi ymgeiswyr yn ariannol mewn etholiadau lleol ac y byddai hyn yn wrthdrawiad buddiannau sylweddol a byddai'n cael effaith negyddol ar y broses ddemocrataidd (Llywodraeth Cymru, 2017). Felly, er mwyn cydymffurfio'n gyfreithiol, byddai'n rhaid i'r cyllid gael ei weinyddu gan gorff sy'n annibynnol ar Lywodraeth Cymru, i rwystro gwrthdaro buddiannau (Llywodraeth Cymru, 2016a).
- 8.6 Darganfu ymchwil gan Dîm y Prosiect i'r gost o weinyddu'r cynllun Drws i Ddemocratiaeth yn allanol gael ei ystyried i fod yn ormodol mewn cymhariaeth â'r cyllid sydd ar gael i ymgeiswyr.
- 8.7 Am y rhesymau hyn, rhoddwyd y gorau i barhau i archwilio a datblygu'r cynllun ym mlwyddyn gyntaf gweithredu'r rhaglen (2014) (Llywodraeth Cymru, 2017).
- 8.8 Er hynny, ers i'r rhaglen ddod i ben, mae cyfweiliadau gyda thîm gweithredu'r rhaglen wedi dangos y byddai cynllun o'r fath yn cael ei archwilio mewn mwy o fanylder yn y dyfodol²⁷.

²⁷ Dywedodd un a gymerodd ran mewn cyfweiliad cwmpasu fod angen am brosiect anabledd tebyg i faes mentora Amrywiaeth mewn Democratiaeth a oedd yn canolbwyntio'n benodol ar unigolion anabl. Dywedodd yr ymatebydd hefyd fod Cronfa Drws i Ddemocratiaeth yn dal 'ar y bwrdd'.

Gweithredu a llwyddiannau

Dull gweithredu

- 8.9 Mae gweddill y drafodaeth ar y dull gweithredu yn canolbwyntio ar y cyllid a gyflwynwyd yn y cynllun mentora.
- 8.10 Roedd y deunyddiau cyfathrebu a marchnata ar gyfer y cynllun mentora (copi caled at ar-lein) yn apelio at unigolion anabl ac yn eu hannog hwy o ymgeisio.
- 8.11 Roedd un cais ar i'r ffurflen gais ar gyfer mentoreion gael ei darparu mewn fformat hygrych, fodd bynnag, oherwydd y barnwyd na ellid cyfiawnhau'r gost o ddarparu'r allbwn hwn ar gyfer cais unigol (Llywodraeth Cymru, 2017), rhoddwyd cymorth un-i-un yn lle hynny i'r unigolyn gwblhau'r ffurflen.

Llwyddiannau

- 8.12 Cafodd cyfanswm o £3,303.15 ei wario o gyllideb y rhaglen i gefnogi pedwar mentoraï anabl i gymryd rhan yn y cynllun mentora, dros dair blynedd y cynllun. Roedd hyn yn cynnwys darparu dehonglwyr laith Arwyddion Prydain i unigolion drwy gydol y cynllun (mewn digwyddiadau a chyfarfodydd mentora) a chyfleusterau trafnidiaeth / mynediad. Dywedodd un mentor fod y cynllun mentora yn gynhwysol iawn yn hyn o beth, a oedd yn un nodwedd gwirioneddol o lwyddiant o fewn y rhaglen. Dywedodd un arall 'yn sicr rhoddwyd sylw i ansicrwydd ... gwnaed unrhyw addasiadau ... fe wnaeth pob job dda mewn cynhwysiant'. Er gwaethaf hyn, dywedodd un mentoraï nad oeddent wedi gallu mynd i un digwyddiad hyfforddi oherwydd yr anhawster o gael dyfynbrisiau tacsï am y pellter hir angenrheidiol a'r angen am gerbyd hygrych. Dywedodd fod tîm gweithredu'r rhaglen wedi ceisio goresgyn hyn a chredai y byddai'n haws mynychu'r digwyddiadau hyfforddi pe baent ar gael mewn mwy o leoliadau.

Effeithiau

- 8.13 Mae'r effeithiau hyn yn ymwneud â'r profiadau a godwyd mewn cyfweiliadau gyda mentoreion anabl.
- Ymwneud mwy mewn bywyd cyhoeddus*
- 8.14 Y dybiaeth sylfaenol wrth weithredu cynllun Drws i Ddemocratiaeth oedd pan gaiff mentoreion eu cefnogi'n ariannol, maent yn fwy abl a bodlon sefyll fel ymgeisydd cyngor (OB.8). Gall hyn fod yn wir, wrth edrych ar brofiad un mentorai anabl, a deimlai na allai ymwneud â llywodraeth leol cyn cymryd rhan yn y cynllun mentora oherwydd 'doedd neb yn gwybod pwy ddylai dalu am ddehonglwyr laith Arwyddion Prydain'. Yn ogystal, er bod y Rhaglen yn caniatáu iddynt gymryd rhan yn y cynllun, dangosodd hyn y byddai angen cymorth parhaus a chymorth gan sefydliadau / ffrydiau cyllido ehangach iddynt fod yn gallu sefyll fel ymgeisydd ac ymgyrchu mewn etholiad lleol.
- 8.15 Roedd hyn yn ymestyn hefyd i ran mentorai mewn bywyd cyhoeddus, ac yn enwedig llywodraeth leol, ar ôl i'r cynllun mentora ddod i ben gan nad oeddent yn gallu sefyll etholiad oherwydd y diffyg cymorth ariannol oedd ar gael. Mae'r astudiaeth achos o fewn [Cyngor Sir Torfaen](#) yn rhoi mwy o fanylion.
- 8.16 Er gwaethaf hyn, dywedodd un mentorai fod eu grŵp llafur lleol wedi talu am ddehonglydd, fel y gallent fynd i Fforwm Cydraddoldeb Anabledd. Gall hyn ddangos fod rhywfaint o ffrydiau cyllido ar gael. Gallai dibynnu ar bleidiau gwleidyddol i ddarparu'r cymorth hwn, fodd bynnag, ymddieithrio ymgeiswyr Annibynnol.
- Deall yr hyn sydd ei angen er mwyn creu cronfa yn y dyfodol*
- 8.17 Un o ganlyniadau'r rhaglen yw bod y weledigaeth am Gronfa o'r fath wedi cael ei thrafod. Mae hyn yn weddol arwyddocaol gan ei fod yn agor y drws i gynllun o'r fath yn y dyfodol, sy'n debygol o alluogi mwy o ymgeiswyr o gefndiroedd gwahanol i sefyll etholiad (IM.3).

Mwy o ymwybyddiaeth

- 8.18 Un arall o ganlyniadau'r Rhaglen oedd mwy o ddealltwriaeth ymhlith mentoreion (OC.5). Dywedodd cynghorydd a gyfwelwyd eu bod hwy hefyd, ar ôl mentora unigolyn anabl, wedi ennill dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o'r rhwystrau mae unigolion yn eu hwynebu. Roedd yr ymwybyddiaeth hon yn bwysig a bydd ei hangen os yw mwy o amrywiaeth mewn democratiaeth am gael ei gyflawni yn yr hirdymor ac os yw cynghorau am addasu eu harferion a'u prosesau i annog ymgeiswyr mwy amrywiol (IM.5).

Gwersi o genhedloedd eraill

- 8.19 Yn yr Alban, mae ganddynt Gronfa Mynediad i Swydd Etholedig (yr Alban), ar waith, a gaiff ei gweithredu gan Inclusion Scotland a'i chyllido gan Lywodraeth yr Alban (Inclusion Scotland, 2018). Mae'r Gronfa'n cynnig cymorth ariannol i bobl anabl sefyll yn etholiad Senedd yr Alban yn 2021, ac unrhyw is-etholiadau ar gyfer seddau awdurdodau lleol a Senedd yr Alban. Mae cymorth ariannol yn cynnwys y gost ar gyfer: trafnidiaeth, cynorthwyywyr personol, cymorth cyfathrebu, offer a thechnoleg gynorthwyol. Yn ôl Inclusion Scotland, 'yn etholiadau awdurdodau lleol 2017, roedd 39 o ymgeiswyr anabl a gafodd eu cefnogi gan gynllun peilot y Gronfa Mynediad i Swydd Etholedig. O'r ymgeiswyr hyn, cafodd 15 eu hethol, gan gynrychioli 4 gwahanol blaid wleidyddol mewn 12 cyngor gwahanol'. Mae'r meini prawf canlynol yn ofynnol ar gyfer cymhwysedd i'r Gronfa: hunan-ddiffinio fel rhywun anabl o dan ddiffiniad Deddf Cydraddoldeb 2010, nodi bwriad i geisio cael eu dewis, cael eu dewis, neu fwriadu ymgeisio mewn etholiad, a bod yn gymwys i fod yn ymgeisydd, yn unol â'r rheoliadau etholiadol perthnasol.
- 8.20 Fe wnaeth gwerthusiad Cronfa Mynediad i Swydd Etholedig i Bobl Anabl (Lloegr) archwilio pa mor effeithiol roedd y gronfa beilot o 2012 i 2015 wedi cyflawni'r nod o ddiwallu'r anghenion cymorth ychwanegol sy'n gysylltiedig ag anabledd a chostau y gallai pobl anabl eu

hwynebu wrth geisio am swydd etholedig, ac felly'n cynyddu cynrychioliaeth pobl anabl mewn bywyd gwleidyddol lleol a chenedlaethol (Swyddfa Cydraddoldeb y Llywodraeth, 2015). Fe wnaeth y Gronfa gefnogi 94 o unigolion ar gyfanswm cost o £418,733 ar draws etholiadau Seneddol, awdurdodau lleol a cynghorau tref a phlwyf, gyda chyfartaledd dyfarniad o £4,455 (Swyddfa Cydraddoldeb y Llywodraeth, 2015). Arweiniodd hyn at 67 o bobl yn sefyll etholiad a gafodd eu cefnogi gan y Gronfa na fyddai efallai wedi gwneud hynny pe na bai'r Gronfa ar gael a chafodd 10 o ymgeiswyr a gyllidwyd eu hethol (Swyddfa Cydraddoldeb y Llywodraeth, 2015). Yn ôl y gwerthusiad, roedd ymgeiswyr y Gronfa yn fwy amrywiol na chynrychiolwyr etholedig o safbwynt rhyw, ethnigrwydd ac oedran. Roedd argymhelliad clir fod y Gronfa'n cynrychioli gwerth am arian ac y dylai'r Gronfa barhau.

- 8.21 Yn Lloegr, ar 3 Rhagfyr 2018 fe wnaethant lansio Cronfa EnAble, a gaiff ei gweithredu gan Disability Rights UK a'i chyllido gan Swyddfa Cydraddoldeb y Llywodraeth, yn sgil cynllun peilot Mynediad at Swydd Etholedig (Disability Rights UK, 2018). Nod y Gronfa £250,000 yw helpu pobl anabl sy'n ceisio cael eu hethol yn yr Etholiadau Lleol ym mis Mai 2019 ac Etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau yn mis Mai 2020. Bydd y Gronfa'n talu costau addasiadau rhesymol sydd eu hangen i alluogi rhywun i sefyll am swydd etholedig, megis dehonglwyr Iaith Arwyddion Prydain, technoleg gynorthwyol, neu gynorthwydd personol, neu gostau tacsï lle nad yw moddau eraill o drafnidiaeth yn addas. Mae'r meini prawf cymhwysedd yn debyg i rai cronfa'r Alban, a rhaid ichi fod ag 'amhariad corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith niweidiol sylweddol a hirdymor ar eich gallu i gyflawni gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd', a bwriad gwirioneddol i ymgeisio am swydd etholedig, mewn etholiad sy'n digwydd yn ystod graddfa amser y gronfa.

- 8.22 Mae'r Cronfeydd a gafodd eu datblygu a'u gweithredu ar gyfer yr Alban a Lloegr yn awgrymu y gallai unigolion anabl yng Nghymru fod

dan anfantais sylweddol o gymharu ag unigolion yn y cenhedloedd eraill. Mae angen sylweddol felly i roi Cronfa ar waith a fydd yn cefnogi'n ariannol unigolion anabl yng Nghymru yn yr etholiadau lleol nesaf. Yn wyneb 'llwyddiannau' cymharol y cronfeydd yn Lloegr a'r Alban, mae gan Gymru'r potensial i ddilyn model tebyg. Dylai fod yn flaenoriaeth gan Lywodraeth Cymru i archwilio'r potensial am gorff allanol i gyflwyno'r cymorth ariannol gyda meini prawf clir ar gyfer cymhwysedd ac eglurder ar yr hyn y gall y Gronfa ei gefnogi.

Casgliadau

- 8.23 Mae gwerthusiad rhaglen Amrywiaeth mewn Democratiaeth wedi datgelu bod angen sylweddol am Gronfa Drws i Ddemocratiaeth yng Nghymru. Gan a chyflawnwyd y maes hwn o'r rhaglen, mae'n aneglur a fyddai'r swm gwreiddiol o £40,000 wedi bod yn ddigonol. Roedd, fodd bynnag, yn gychwyn fod y rhaglen y gallu gwario rhywfaint o adnoddau ariannol (£3,303.15) ar ddarparu cymorth i fentoreion anabl.
- 8.24 Mae'r cymorth ariannol sydd ar gael yn yr Alban a Lloegr yn gosod unigolion yng Nghymru, sy'n awyddus i sefyll am swydd etholedig, o dan anfantais. Byddai datblygu cronfa sy'n gyson ag arferion yn y cenhedloedd eraill yn helpu goresgyn hyn. Roedd gwersi allweddol o genhedloedd eraill yn awgrymu y dylai Cronfa newydd yng Nghymru gael ei gweithredu gan sefydliad trydydd parti sydd ag arbenigedd mewn gweithio gydag unigolion anabl, sydd wedi bod yn wers allweddol o raglen Amrywiaeth mewn Democratiaeth. Roedd gwerthusiad y cronfa Mynediad i Swydd Etholedig yn adrodd am grant o £4,455 ar gyfartaledd. Er y byddai angen modelu, gallai'r ffigur hwn helpu rhoi man cychwyn dangosol ar gyfer gwariant am bob unigolion i gael ei ystyried yng Nghymru. Yn ogystal â hyn, mae'n bwysig pennu meini prawf allweddol ar gyfer cymhwyso ac am beth y dyllid defnyddio'r dyraniad cyllid er mwyn sicrhau eglurder i fentoreion sydd ag anabledd, a'u mentoriaid.

8.25 Fel y nodwyd gan fentor, y diffyg cymorth parhaol oedd y rhwystr mwyaf a oedd yn wynebu mentoreion anabl ac roedd yn olygu fod unrhyw fudd o'r cynllun mentora mewn perygl o gael ei golli. Mae'r ffaith y gallai unigolion ac arnynt eisiau cymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus (a sefyll etholiad), ond yn cael eu hamddifadu o'r cyfle i wneud hynny, yn sgol diffyg cymorth a chyfyniadau cyllid, yn rhwystr gwirioneddol i fwy o amrywiaeth mewn democratiaeth. Gan na chafodd maes hwn y rhaglen ei gyflawni, mae'n aneglur a fyddai'r swm gwreiddiol o £40,000 wedi bod yn ddigonol. Cadarnhaol, fodd bynnag, yw nodi bod y rhaglen wedi gallu gwario rhywfaint o adnoddau ariannol ar ddarparu cymorth i fentoreion anabl.

9. Cyd-drafod â phleidiau gwleidyddol

Cyflwyniad a sail resymegol

- 9.1 Roedd camau gweithredu i bleidiau gwleidyddol yn un o themâu allweddol yr argymhellion o adroddiad Ar ôl Pwyso a Mesur (Grwp Arbenigwyr ar Amrywiaeth mewn Llywodraeth Leol, 2014). O dan y thema hon, dablygwyd tri argymhelliad, gyda'r rhain yn cynnwys (Grwp Arbenigwyr ar Amrywiaeth mewn Llywodraeth Leol, 2014):
- Dylai pleidiau gwleidyddol a llywodraeth leol ei hun annog menywod sy'n gynghorwyr llwyddiannus i weithredu fel mentoriaid ar gyfer ymgeiswyr posibl eraill, gan ymgysylltu â rhwydweithiau lleol priodol (Argymhelliad 10).
 - Dylid annog yr holl bleidiau gwleidyddol i ddatblygu strategaethau a fydd yn arwain at enwebu menywod yn ymgeiswyr mewn o leiaf 40 y cant o'r seddau hynny y mae'r blaid o dan sylw yn credu y gall eu hennill yn yr etholiadau lleol nesaf (Argymhelliad 11).
 - Dylai arweinwyr pob prif blaid gwleidyddol ymrwymo'n gyhoeddus o blaid y targed hwn (Argymhelliad 12).
- 9.2 Roedd ymateb Llywodraeth Cymru yn cydnabod na fwriadwyd yr argymhellion fel rhai uniongyrchol i Lywodraeth Cymru eu gweithredu, fodd bynnag, roedd yr ymateb yn amlinellu y gallent gydgyssylltu â llywodraeth leol a phleidiau gwleidyddol i weithredu'r argymhellion (Llywodraeth Cymru, 2014).

Amcanion

- 9.3 Fe wnaeth Briff Rhaglen Amrywiaeth mewn Democratiaeth fabwysiadu'r argymhellion yn uniongyrchol, yn unol ag adroddiad Ar ôl Pwyso a Mesur. Roedd y strategaeth pleidiau gwleidyddol o fewn rhaglen Amrywiaeth mewn Democratiaeth felly â'r nod o annog merched a oedd yn gynghorwyr i weithredu fel mentoriaid, annog datblygiad strategaeth enwebiadau pleidiau gwleidyddol ar gyfer

enwebiadau aelodau benywaidd, a gwneud ymrwymiad cyhoeddus i'r targed hwn.

9.4 Fel yr amlinellir ym Mriff y Rhaglen, y sefydliadau arweiniol i weithredu'r argymhellion hyn oedd y pleidiau gwleidyddol neu arweinwyr pleidiau gwleidyddol.

9.5 Yr amcan a ddatblygwyd felly fel rhan o'r gwerthusiad hwn oedd 'annog pob plaid wleidyddol i ymrwymo i ddewis ymgeiswyr mwy amrywiol' (OB.3).

Gweithredu a llwyddiannau

Dull gweithredu

9.6 Nod y dull gweithredu oedd cyd-drafod â phleidiau gwleidyddol i'w hannog i roi sylw i'r argymhellion hyn (A.19). Fel y nodwyd yng Nghynllun Gwaith 'Cam 2', y nod oedd creu cynllun gweithredu ar gyfer hyrwyddo amrywiaeth yn y broses ddewis ymgeiswyr a chyfarfod gyda chynrychiolwyr i drafod eu hymrwymiad i gynyddu amrywiaeth ymgeiswyr yn yr etholiadau llywodraeth leol gydag enwebiadau am fentoriaid (Llywodraeth Cymru, 2016a). Cynhaliwyd cyd-drafodaethau gyda chynrychiolwyr o bleidiau gwleidyddol yng Nghymru i gefnogi'r gweithgaredd hwn.

Gweithredu

9.7 Cyfarfu Cydgysylltydd y Prosiect a'r Pennaeth Democratiaeth â chynrychiolwyr gwleidyddol (sef swyddogion) drwy gydol rhaglen Amrywiaeth mewn Democratiaeth. Roedd cyfweiliadau gyda chynrychiolwyr y gwahanol bleidiau gwleidyddol yn cadarnau iddynt (yn gyffredinol) glywed yn gyntaf am y rhaglen trwy Gydgysylltydd y Prosiect. Nod y trafodaethau oedd annog datblygu strategaethau i gynyddu'r nifer o ferched a fyddai'n cael eu henwebu fel ymgeiswyr i o leiaf 40 y cant o seddau'r oedd y blaid o dan sylw yn eu hystyried yn enilladwy yn yr etholiadau lleol nesaf. Fe wnaeth pob plaid ymrwymo mewn egwyddor i'r nod o gynyddu amrywiaeth ymgeiswyr ac annog

mwyr o ferched i sefyll (Llywodraeth Cymru, 2017). Mae'n bwysig nodi bod y Blaid Lafur wedi ymrwymo i'r nod o 40 y cant ac i defnyddio rhestrau byr merched yn unig, lle bo'n bosibl. Roedd gan y Blaid Lafur eisoes Restrâu Byr Merched yn Unig ac roeddent wedi gwneud ymrwymïadau o'r blaen (ar lefel llywodraeth y Deyrnas Unedig) i gynyddu'r gynrychiolaeth o ferched etholedig. Fe wnaeth rhaglen Amrywiaeth mewn Democratiaeth gyflawni'r allbwn o ymrwymiad gan bleidiau gwleidyddol i gynyddu amrywiaeth (OP.10) o fewn y Blaid Lafur, ond dim ond yn achos merched yn hytrach nag unigolion o gefndiroedd amrywiol eraill. Nid oes tystiolaeth i awgrymu bod pleidiau eraill wedi cymryd camau uniongyrchol o ganlyniad i'r cynllun.

- 9.8 Roedd yr holl bleidiau gwleidyddol y cyd-drafodwyd â hwy fel rhan o'r gwaith maes yn mynegi ymwybyddiaeth fod angen gwella amrywiaeth ymysg cynrychiolwyr etholedig – ar bob lefel o lywodraeth. I raddau amrywiol, roedd pob plaid wleidyddol yn cymryd camau i geisio cynyddu'r amrywiaeth ymysg ymgeiswyr llywodraeth leol ar wahanol lefelau (gweler y drafodaeth isod). Mae'n annhebygol, fodd bynnag, y gellir priodoli newidiadau mewn ymwybyddiaeth yn uniongyrchol i raglen Amrywiaeth mewn Democratiaeth (OC.3), gan fod addunedau i gynyddu amrywiaeth ymysg ymgeiswyr etholedig wedi cael eu gwneud gan bleidiau gwleidyddol ar lefel y Deyrnas Unedig.
- 9.9 Roedd holl arweinwyr y pleidiau gwleidyddol yn cael eu hysbysu'n rheolaidd o gynnydd y prosiect trwy ddiweddariadau rheolaidd gan dîm gweithredu'r rhaglen (Llywodraeth Cymru, 2017). Cysylltwyd ag arweinwyr a gofynnwyd iddynt enwebu hyrwyddwyr amrywiaeth a/neu fentoriaid wrth gefn rhag ofn y byddai unrhyw fylchau'n codi ar unrhyw adeg yn ystod y rhaglen. Fe wnaeth y cyfweiliadau â phleidiau gwleidyddol ennyn ymatebion cymysg o ran y graddau o gyd-drafod a gafwyd gyda'r rhaglen. Dywedodd un, er enghraifft, na chawsant eu hysbysu ar ddiwedd y rhaglen beth oedd wedi cael ei gyflawni – 'Does gen i ddim syniad [beth a ddigwyddodd], ac roeddwn i ar y Grŵp Llywio'. Dywedwyd hefyd mai cymysg oedd yr ymrwymiad gan

bleidiau gwleidyddol, a bod presenoldeb mewn cyfarfodydd wedi gostwng tuag at ddiwedd y rhaglen.

9.10 Roedd cyfweiliadau cwmpasu gyda thîm gweithredu'r rhaglen yn ei gwneud yn amlwg y gallai fod mwy o gyd-drafod gwleidyddol fod wedi bod gyda'r maes gweithredu hwn, ond bod y diddordeb yn amrywio rhwng y pleidiau gwleidyddol a'i gilydd. Fel y dywedodd un rhanddeiliad, roedd agwedd pleidiau gwleidyddol yn 'dibynnu ar yr unigolion roedd y blaid wedi eu rhoi ymlaen' – roedd rhai o'r rhanddeiliaid pleidiau yn frwd, tra bod eraill angen 'hwb. Roedd y cynrychiolwyr o bleidiau gwleidyddol yn amrywio o safbwynt eu safle o fewn y blaid – fodd bynnag dywedwyd gan un rhanddeiliad 'weithiau rhywun heb gymaint â hynny o ddylanwad nac awdurdod y byddem yn siarad â nhw'. Wrth symud ymlaen, mae'n flaenoriaeth felly cyd-drafod ag unigolion gyda'r dylanwad ac awdurdod i wneud yr ymrwymïadau gofynnol (ee gweithredu hyfforddiant rhagfarn ddïarwybod i baneli dewis).

9.11 Mae gwersi allweddol a ddysgwyd ar gyfer gweithredu yn y dyfodol o fewn y Strategaeth Pleidiau Gwleidyddol yn ymwneud ag ymrwymiad cynnar gan arweinwyr pleidiau i sicrhau trafodaethau â'r cynrychiolydd gwleidyddol cywir ac y sicrheir ymrwymiad i'r rhaglen ganddo ef neu hi, law yn llaw â chyswllt parhaus â swyddfeydd yr Arweinwyr (Llywodraeth Cymru, 2017). Fel yr amlinellir yn y ddogfen Gwersi a Ddysgwyd, gellid datblygu deunyddiau gwybodaeth am gamau i'w cymryd ac iddynt y nod o godi ymwybyddiaeth a chynyddu amrywiol, er mwyn hwyluso ymrwymiad i gymryd camau o'r fath. Gallai hyn anelu at weithredu cadarnhaol cynaliadwy.

Dulliau pleidiau gwleidyddol

9.12 Mae'r gwerthusiad hwn wedi cynnwys adolygiad o ddulliau'r prif bleidiau yng Nghymru o ddewis ymgeiswyr ar gyfer etholiadau lleol, a pha oblygiadau y gall hyn ei gael ar alluogi cydraddoldeb ac amrywiaeth ymysg ymgeiswyr / y rheini a etholwyd. Mae'r drafodaeth

ym mhob plaid yn ymwneud â phwy sy'n gymwys i sefyll etholiad, gweithdrefnau dewis, agwedd at ddefnyddio cwtâu / rhestrau byr ar gyfer demograffeg, ac unrhyw faterion eraill a ddaeth i'r amlwg neu ddulliau a gymerwyd.

Llafur Cymru

- 9.13 Mae'r Blaid Lafur yn amlinellu gofynion cymhwysedd o fewn ei Lyfr Rheolau cenedlaethol sy'n berthnasol i bob rhan o'r Deyrnas Unedig. Er mwyn sefyll fel ymgeisydd mewn etholiad lleol, rhaid i unigolyn fod wedi cael aelodaeth ddi-dor o'r Blaid Lafur am o leiaf ddeuddeg mis (Y Blaid Lafur, 2018). Dywed y Llyfr Rheolau fod yn rhaid i unrhyw eithriadau gael eu cymeradwyo gan y Pwyllgor Gwaith Cenedlaethol (NEC). Mewn cyfweiliad gyda rhanddeiliad o Lafur Cymru, dywedwyd y gall yr eithriadau hyn fod yn berthnasol i'r rheini a allai fod, am resymau proffesiynol, wedi cael eu rhwystro rhag ymuno â phlaid. O fewn yr adran hon o'r Llyfr Rheolau mae adrannau E ac F o Gymal 1 yn pwysleisio y dylai'r blaid gydnabod rhwystrau a wynebwr gan bobl o wahanol ddemograffeg (Y Blaid Lafur, 2018). Dywed adran F y bydd y blaid 'yn cymryd camau ym mhob proses ddewis i annog lefel uwch o gynrychiolaeth a chyfranogiad grwpiau o bobl yn ein cymdeithas sydd ar hyn o bryd heb gynrychiolaeth ddigonol yn ein sefydliadau democrataidd' (Y Blaid Lafur, 2018).
- 9.14 Mae'r cam cyntaf o ddewis yn digwydd trwy'r Fforwm Ymgyrchu Lleol sy'n cymeradwyo'r rheini sydd wedi rhoi eu henwau ymlaen, yn unol â chanllawiau'r Pwyllgor Gwaith Cenedlaethol. Mewn cyfweiliad gyda rhanddeiliad o'r Blaid Lafur, dywedwyd bod y rhain yn bennaf er mwyn 'gwirio' ymgeiswyr, a bod gweithdrefnau cydraddoldeb, megis cynllun marcio a osodwyd, ac y gofynnir yr un cwestiynau i bob ymgeisydd, er mwyn ceisio osgoi gyhyd ag y bo modd unrhyw broblemau o ragfarn ddarwybod. Dywedwyd bod set o gwestiynau gwaharddedig, er mwyn osgoi gwahaniaethu (megis gofyn i ferched am feichiogrwydd, etc). Unwaith mae aelodau wedi cael eu rhoi ar

restr fer gan y Pwyllgor Gwaith Cenedlaethol a'r panel dewis, cytunir ar yr ymgeisydd gan aelodau'r blaid, ar sail un aelod un bleidlais (OMOV) (Y Blaid Lafur, 2018).

9.15 Mae'r Blaid Lafur yn defnyddio cyfres o weithdrefnau gweithredu cadarnhaol i gynyddu'r nifer o ymgeiswyr benywaidd mewn etholiadau ar bob lefel o lywodraeth. Dywedwyd mewn cyfweliad na ddefnyddir gweithredu cadarnhaol ar gyfer nodweddion gwarchodedig eraill, oherwydd gwaherddir hyn yn y Ddeddf Cydraddoldeb (2010). Roedd Ysgrifennydd Cyffredinol Llafur Cymru (gyda'r Pwyllgor Gwaith Cenedlaethol) yn cytuno ar restr o wardiau enilladwy, gyda gwahanol Fforymau Ymgyrchu Lleol ledled Cymru (Y Blaid Lafur, 2018). Cyn dewis ymgeiswyr, mewn wardiau enilladwy gyda dau neu dri aelod, rhaid i o leiaf un ymgeisydd fod yn ferch (Y Blaid Lafur, 2018). Wrth ddewis mewn ward enilladwy, gweithredir y bleidlais mewn dau etholiad: mae'r cyntaf yn dewis merch, ac mae'r ail yn dewis o'r ymgeiswyr sydd ar ôl. Yn ogystal, mae'r Blaid Lafur yn defnyddio Rhestrau Byr Merched yn Unig, ac fel yr uchod cytunir ar y rhestr o seddau enilladwy gydag Ysgrifennydd Cyffredinol Cymru a Fforymau Ymgyrchu Lleol. Ar gyfer y rhain mae'r rhestr fer o ymgeiswyr wedi ei ffurfio'n gyfan gwbl o ferched.

9.16 Mae gan y Blaid Lafur yn ogystal gyfres o gynlluniau mentora, megis Rhaglen Ymgeiswyr y Dyfodol sydd â'r nod o roi cyngor a hyfforddiant i aelodau ledled Cymru, a all ystyried cymryd rhan. Mae'r rhaglen ar waith ar gyfer etholiadau lleol, y Cynulliad a Seneddol. Enghraifft arall yw'r rhaglen, Jo Cox Women in Leadership, a gaiff ei chyflwyno ledled y Deyrnas Unedig. Mae'n rhoi hyfforddiant mewn arwain i ferched a hoffai fod mewn safleoedd arweiniol mewn llywodraeth leol, eu cymuned, neu o fewn y Blaid Lafur yn fwy cyffredinol.

Plaid Cymru

9.17 Yn ddiweddar, cynhaliodd Plaid Cymru ymchwil i'r graddau o amrywiaeth ymysg ei chynghorwyr sir, a ddogfennwyd mewn

adroddiad – Ymchwiliad i Amrywiaeth ym maes Llywodraeth Leol (Plaid Cymru, 2017). Rhwng pawb, roedd 51 allan o 197 o gynghorwyr yn ferched (26 y cant), a dau o leiafrif ethnig (1 y cant) (Plaid Cymru, 2017). Roedd yr adroddiad yn esbonio bod y lefel isel o gynghorwyr o leiafrifoedd ethnig yn adlewyrchu'r graddau isel o amrywiaeth mewn wardiau lle caiff cynghorwyr Plaid Cymru eu hethol yn nodweddiadol, fodd bynnag, nid yw'n esbonio lefel isel y gynrychiolaeth o gynghorwyr benywaidd. Roedd yr adroddiad yn amlinellu nifer o'r 'camau nesaf' mae'r blaid yn eu cymryd i wella amrywiaeth ymysg eu cynghorwyr. Mae'r newidiadau hyn yn adlewyrchu gweithdrefnau dewis ochr yn ochr â rhwystrau sefydliadol a diwylliannol y gall merched eu hwynebu. Roedd yr argymhellion yn yr adroddiad yn cynnwys:

- hyfforddiant cydraddoldeb i bob cynghorydd (ynghylch aflonyddu rhywiol)
- cyflwyno cynllun mentora i ddarpar gynghorwyr benywaidd posibl.

Yn gysylltiedig â'r adroddiad a grybwyllwyd, fe wnaeth Cynhadledd Flynyddol Plaid Cymru 2018 basio cynnig yn dweud y byddai'r blaid yn anelu at gyflawni'r canlynol:

- Penodi Cyfarwyddwr Cyfleoedd Cyfartal i arwain ar wella amrywiaeth a chydraddoldeb.
- Gweithredu rhaglen hyfforddiant, wedi ei thargedu at ferched a phobl BME.
- Cynyddu'r nifer o ferched ar eu cofrestr genedlaethol o ferched (mae gan bawb ar y rhestr yr hawl i'w cynnig eu hunain ymlaen i sefyll etholiad).
- Mabwysiadu polisi o efeillio etholaethau targed lle mae un sedd yn dewis ymgeisydd gwrywaidd a'r llall yn dewis ymgeisydd benywaidd.

9.18 Mewn cyfweiliad gyda rhanddeiliaid o Blaid Cymru, nodwyd bod y rhwystrau allweddol rhag dewis ymgeiswyr amrywiol cyn y broses

ddewis a'u bod yn fwy amlwg oherwydd y cyfanswm isel o ymgeiswyr i ddewis ohonynt. Fel gyda'r Democratiaid Rhyddfrydol (isod) dywedwyd bod y drefn o ddewis ymgeiswyr yn aml yn digwydd ar raddfa leol iawn.

Ceidwadwyr Cymreig

- 9.19 Yn wahanol i'r Blaid Lafur a Phlaid Cymru, nid oes gan y Blaid Geidwadol amodau ynghylch aelodaeth o'r blaid i rywun gael ei ddewis fel cynghorydd (Cynghorwyr y Ceidwadwyr, 2015). O ran cael carfan o ymgeiswyr i ddewis ohonynt, dywedwyd y gall aelodau eu cynnig eu hunain, ond hefyd gall y blaid fod yn chwilio am ddarpar gynghorwyr addas a dawnus. Er enghraifft, gall y Blaid Geidwadol yn lleol ofyn i arweinydd cymunedol gweithgar sefyll. Fel y dangoswyd yn y llenyddiaeth a drafodir uchod, mae'r fecanwaith hon ar gyfer dewis ymgeiswyr yn agored i ragfarn ddjarwybod sylweddol ar draul pobl â nodweddion gwarchodedig (ee merched, a phobl BME).
- 9.20 Fel gyda'r Blaid Lafur, cytunir ar restrau byr ymgeiswyr gan banel dewis, cyn pleidlais gan aelodau. Mewn cyfweiliad, dywedwyd y bydd y panel dewis yn gwneud y penderfyniad mewn ward lle nad oes nifer digonol o aelodau.
- 9.21 Nid yw'r Blaid Geidwadol yn defnyddio cwotâu na rhestrau byr sydd wedi eu targedu ar gyfer cynyddu merched (na demograffeg arall) mewn llywodraeth (leol). Mewn cyfweiliad gyda rhanddeiliad o'r Blaid Geidwadol, dywedwyd bod dewisiadau'n cael eu gwneud ar sail gallu, yn hytrach na ffactorau eraill, megis rhyw. Er hynny, ym mis Awst 2018 cyhoeddodd Cadeirydd y Blaid Geidwadol fod y blaid yn ceisio sicrhau bod hanner yr ymgeiswyr a roddir ar restrau byr yn ferched (Y Blaid Geidwadol, 2018). Dywedodd y sawl a gyfwelwyd mai'r rhwystr mwyaf sylweddol i gynyddu amrywiaeth, yn gyffredinol, oedd maint y garfan o ymgeiswyr – yn hytrach na'r gweithdrefnau dewis eu hunain. Dywedwyd bod ymgeiswyr yn cael eu dewis ar sail gallu, a chyfeiriodd at nifer o ddewisiadau roedd ef wedi bod â rhan ynddynt, lle'r oedd

ymgeiswyr benywaidd a / neu BME wedi cael eu dewis yn hytrach na dynion gwyn, hŷn, er gwaethaf y potensial y gallai panelau dewis fod â syniadau rhagdybiedig o ddemograffeg yr ymgeisydd y byddent yn ei ffafrio. Yr awgrym gan y rhanddeiliad, felly, oedd na fyddai rhagfarn ddarwybod o angenrheidrwydd yn rhwystr arwyddocaol i ddarpar ymgeiswyr posibl yn ystod gweithdrefn ddewis.

- 9.22 Yn ystod y cyfweiliad, dywedwyd y gall merched wynebu rhwystrau anghymesur wrth sefyll mewn etholiadau ar bob lefel, er enghraifft, 'gallai gofal plant fod yn broblem', a dywedwyd bod merched yn gyffredinol yn brin o hyder ac yn llai tebygol o'u cynnig eu hunain am rôl, o gymharu â dynion. Dywedwyd bod rhai swyddogion etholedig, o fewn y Blaid Geidwadol ar lefel y Deyrnas Unedig, (ee Aelodau Seneddol) yn cynnal sesiynau a chyfarfodydd, i annog merched i sefyll etholiad i lywodraeth.

Democratiaid Rhyddfrydol Cymru

- 9.23 Fel y nodir yng Nghyfansoddiad y Democratiaid Rhyddfrydol, mae'r gweithdrefnau dewis wedi eu datganoli i bleidiau ar lefel leol (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, 2015). Mewn cyfweiliad gyda rhanddeiliad o Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru, dywedwyd bod strwythurau'r blaid wedi eu ffurfio fel hyn er mwyn annog penderfyniadau mwy lleol o fewn y blaid. Er gwaethaf lle i amrywio ymysg y gwahanol grwpiau yng Nghymru, mae'r blaid yn amlinellu rhai egwyddorion allweddol ar gyfer gweithdrefnau dewis yn eu canllawiau 'Bod yn Gyngorydd', yn amlinellu, er enghraifft, pa ddull pleidleisio y dylid ei ddefnyddio. Yn ogystal, mae'r canllawiau'n nodi bod yn rhaid i unigolion, er mwyn cael eu dewis fel ymgeisydd, gael eu 'cymeradwyo' gan y blaid yn ehangach, sydd fel arfer yn golygu cyfweiliad a chymeradwyaeth gan banel dewis.
- 9.24 Yn wahanol i Ddemocratiaid Rhyddfrydol Lloegr a'r Alban, nid yw Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn defnyddio gweithredu cadarnhaol yn ffurf Rhestrau Byr Merched yn Unig i ddewis

ymgeiswyr. Mewn cyfweiliad, dywedwyd bod hyn oherwydd y gallai canolbwyntio ar ymgeiswyr benywaidd anfanteisio ymgeiswyr gwrywaidd sydd â gwahanol hunaniaethau ymylol (ee BME) – ‘dydych chi ddim yn datrys gwahaniaethu trwy gyflwyno gwahaniaethu ... does arnom ni ddim eisiau i ymgeiswyr abl gael eu troi ymaith’.

9.25 Yng nghynhadledd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn 2016, cafodd y cynnig ‘Gwella amrywiaeth ymysg Democratiaid Rhyddfrydol Cymru’ ei basio – ar ôl i’r blaid ymwneud â rhaglen Amrywiaeth mewn Democratiaeth. Mae’r cynnig yn gosod ymrwymiad cryf i gael gwared ar ragfarn a gwahaniaethu, ac yn nodi bod angen i gyrff etholedig fod yn fwy amrywiol, a chynrychioliadol o boblogaeth Cymru. Mae’r cynnig yn gwrthod y defnydd o restrau byr cyfyngedig, ar y sail y gallai hyn achosi rhaniadau. I wella amrywiaeth, roedd y cynnig yn argymhell y canlynol (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, 2016):

- Rhaid i baneli dewis gael cynrychiolaeth amrywiol – gan gynnwys o leiaf un dyn, un ddynes, ac un aelod o grŵp arall heb gynrychiolaeth ddigonol (LGBT+, BME, neu anabledd), ochr yn ochr ag aelod o blaid leol arall.
- Dylai pleidiau lleol (fel Plaid Ryddfrydol Canada) ddogfennu tystiolaeth sut mae darpar ymgeiswyr posibl o gefndiroedd heb gynrychiolaeth ddigonol wedi cael eu ceisio a chyflwyno’r dystiolaeth hon mewn adroddiad blynyddol.
- Dylai manteision amrywiaeth (ee amrywiaeth ymysg ymgeiswyr, rolau model ac aelodau pwyllgorau) gael eu hyrwyddo i aelodau Democratiaid Rhyddfrydol Cymru trwy raglen codi ymwybyddiaeth.

9.26 Mewn cyfweiliad dywedwyd bod Cymdeithas Cynghorwyr y Democratiaid Rhyddfrydol (ALDC) yn cynnig hyfforddiant, cymorth a mentora i bob ymgeisydd cyngor a’i bod yn ogystal yn cynnal ymgyrchoedd i wella cydraddoldeb cynrychiolaeth mewn llywodraeth leol (megis ar gyfer grwpiau BME). Yn ogystal, mae’r wefan yn

darparu cyfres o adnoddau y gall aelodau eu cael, megis cyngor ar gymeradwyo a dewis (ALDC, 2018).

Goblygiadau

9.27 Er bod y dulliau a ddefnyddir gan wahanol bleidiau gwleidyddol yn amrywio'n sylweddol, mae rhai themâu cyffredin y gallai cynllun yn y dyfodol eu hystyried:

- Gall paneli dewis adael lle i ragfarn ddarwybod.
- Dylai rhai gofynion cymhwysedd (ee i'r Blaid Lafur) gael eu hystyried a'u cyfleu yn glir i ddarpar fentoreion posibl a'u hymgorffori o fewn amserlenni gweithredu'r rhaglen.
- Mae agweddau pleidiau gwleidyddol tuag at gwtâu / rhestrau byr yn adlewyrchu ideoleg wleidyddol (ee cyfle cyfartal vs canlyniad cyfartal).
- Mae pleidiau gwleidyddol yn aml yn ei chael yn anodd cael ymgeiswyr i sefyll mewn etholiadau lleol.
- Gallai 'seddau diogel' fod yn gyfle i gynyddu amrywiaeth gwleidyddion etholedig.
- Mae'r nifer uchel (yn nodweddiadol) o seddau lle mae'r un aelod yn cael ei ail-ethol mewn etholiadau lleol yn golygu her o ran newid y ddemograffeg a gynrychiolir.
- Bydd yr etholiadau lleol nesaf yn digwydd yn yr un flwyddyn ag etholiadu cyffredinol (yn ôl y drefn bresennol) a all effeithio ar adnoddau pleidiau gwleidyddol i ymwneud â'r cynllun.

10. Casgliadau

- 10.1 Mae'r adran hon o'r adroddiad yn rhoi crynodeb o lwyddiannau allweddol rhaglen Amrywiaeth mewn Democratiaeth, a thrafodaethau ynghylch cryfderau a heriau allweddol. Mae rhestr lawn o'r hyn a gyflawnwyd, ochr yn ochr ag argymhellion adroddiad Ar ôl Pwysio a Mesur i'w gweld yn [Atodiad A](#).

Crynodeb

Rhaglen gyffredinol Amrywiaeth mewn Democratiaeth

- 10.2 Nod rhaglen Amrywiaeth mewn Democratiaeth oedd galluogi 'gwell amrywiaeth mewn llywodraeth leol' ac i broffil cynrychiolwyr llywodraeth leol adlewyrchu amrywiaeth pobl Cymru (Llywodraeth Cymru, 2014). Yn gyffredinol, fe wnaeth Llywodraeth Cymru lunio a gweithredu rhaglen bum maes ac iddi'r nod o ymdrin â'r argymhellion o fewn adroddiad Ar ôl Pwysio a Mesur (Grwp Arbenigwyr ar Amrywiaeth mewn Llywodraeth Leol, 2014). Llwyddodd Llywodraeth Cymru i recriwtio Cydgysylltydd Prosect i reoli rhaglen Amrywiaeth mewn Democratiaeth. Roedd gweithgareddau gwaith maes yn awgrymu y gallai fod wedi cynnal mwy o weithgaredd ledled Cymru pe bai ganddi fwy o adnoddau (amser, cyllid). Sefydlwyd y grŵp llywio i lywio rhaglen Amrywiaeth mewn Democratiaeth yn strategol.

Cynllun Mentora

- 10.3 Nod prif faes rhaglen Amrywiaeth mewn Democratiaeth, y cynllun mentora, oedd paru cynghorwyr â darpar ymgeiswyr posib yn y dyfodol, er mwyn datblygu eu hyder a'u gwybodaeth o lywodraeth leol. Roedd i hyn y nod hirdymor o gynyddu'r nifer o bobl o gefndiroedd amrywiol yn sefyll yn etholiadau llywodraeth leol 2017. Llwyddodd y Cynllun Mentora i recriwtio 51 o fentoreion a 64 o fentoriaid, er i rywfaint roi'r gorau iddi yn ystod y rhaglen. Dangosodd gweithgareddau gwaith maes fod y rhwystrau sy'n atal rhai pobl rhag ymgeisio am swydd etholedig yn effeithio yn yr un modd ar gymryd

rhan yn y cynllun – yn bennaf cael amser y tu allan i ddyletswyddau cyngor, gwaith cyflogedig, a / neu ddyletswyddau gofal plant, i gyflawni gweithgareddau mentora yn effeithiol (gweler yr [astudiaeth achos yma](#) am fwy o wybodaeth).

- 10.4 Ar ddiwedd y cynllun, dywedodd 39 y cant (20) o fentoreion fod arnynt eisiau sefyll etholiad ar ôl y rhaglen, gan awgrymu rhywfaint o lwyddiant tuag at nodau cyffredinol y prosiect. Yn gyffredinol fodd bynnag, mae'r niferoedd hyn ar raddfa rhy fach i effeithio'n sylweddol ar y gynrychiolaeth gyffredinol o bobl o gefndiroedd amrywiol fel cynghorwyr yng Nghymru.
- 10.5 Mae camau'r gwaith maes wedi rhoi darlun manwl o'r graddau o aeddfedrwydd y mae pob maes gweithredu wedi'i gyrraedd yn ôl y Matrics Aeddfedrwydd. Byddai'r adroddiad hwn yn barnu bod y cynllun mentora wedi gyrraedd 'aeddfedrwydd' (lefel 4),²⁸ oherwydd er i'r cynllun gael ei weithredu mae diffyg tystiolaeth ar hyn o bryd i awgrymu y cafodd cohort mwy o amrywiol o ymgeiswyr eu hethol (i'w briodoli'n uniongyrchol i'r rhaglen), nac i'r hyfforddiant a ddarparwyd gan y rhaglen ddatblygu sgiliau mentoriaid a mentoreion (Gweler [Atodiad G](#) am Matrics Aeddfedrwydd Amrywiaeth mewn Democratiaeth).
- 10.6 Yn ogystal, gellir barnu aeddfedrwydd hefyd ar sail y graddau y mae awdurdodau lleol yn mewnlannu gwersi a ddysgwyd i'r polisïau ac arferion. Cydnabyddir bod rhai awdurdodau wedi cyrraedd lefel uwch o aeddfedrwydd nag eraill ac y gellir dysgu gwersi o'r hyn a yrrodd un cyngor i weithredu'n annibynnol ar raglen Amrywiaeth mewn Democratiaeth. Mae'r gwersi hyn ymwneud yn bennaf â'r unigolion a oedd yn ymwneud â gweithredu'r rhaglen, yn ogystal â pha mor ymatebol oedd y cyngorau i weithredu polisi cydraddoldeb ac

²⁸ Mae gan y Matrics Aeddfedrwydd gyfanswm o bum lefel.

amrywiaeth yn fewnol cyn ymwneud â rhaglen Amrywiaeth mewn Democratiaeth.

Ymgyrch Gyfathrebu

- 10.7 Roedd yr ymgyrch gyfathrebu'n ceisio ennyn diddordeb y gymuned mewn llywodraeth leol trwy ymgyrchoedd allgymorth cyhoeddusrwydd (OB.9) a hyrwyddo a chyfathrebu'r meysydd gweithredu o fewn rhaglen Amrywiaeth mewn Democratiaeth a'r rhaglen ehangach ei hun. Gellir barnu i'r ymgyrch fod yn effeithiol wrth ystyried hyrwyddo a chyfleu rhai elfennau o weithredu, megis codi ymwybyddiaeth o'r cynllun mentora, a welodd fentoreion a mentoriaid yn ymgeisio a chymryd rhan. Yr hyn mae argraffiadau a gafwyd o'r gwaith maes a gynhaliwyd yn ei ddangos yw er bod yr ymgyrch gyfathrebu yn effeithiol yng nghyd-destun rhaglen Amrywiaeth mewn Democratiaeth, mae angen ymgyrch hyrwyddo ehangach a mwy cynhwysfawr i hyrwyddo rôl cynghorydd a phwysigrwydd mwy o amrywiaeth mewn llywodraeth. Byddai angen mwy o gwmpasu / ymchwil er mwyn penderfynu sianelau, gweithgareddau a graddfeydd amser y marchnata mwyaf addas ar gyfer yr ymchwil. Heb hyn, mae'n annhebygol y gellir cyflawni mwy o amrywiaeth mewn democratiaeth mewn llywodraeth leol yn y dyfodol agos.
- 10.8 Wrth ystyried yr wybodaeth a gasglwyd yn y gwerthusiad ochr yn ochr â'r Marics Aeddfedrwydd, awgrymir bod yr ymgyrch gyfathrebu wedi cyrraedd lefel aeddfedrwydd 4 (aeddfedrwydd), lle cyflawnwyd allbynnau, gan gynnwys ymwneud â deunyddiau a gweithgareddau hyrwyddo ([Atodiad G](#)). Profwyd mai cyfyngedig oedd graddau'r ymwneud â gweithgaredd y maes cyfathrebu o fewn y gwaith maes a wnaed, sy'n rhwystro iddi gael ei ddosbarthu fel lefel o aeddfedrwydd sy'n gosod esiampl. I gyrraedd y lefel hon, byddai angen i'r gweithgareddau (gan gynnwys digwyddiadau a chyfathrebu) fod yn fwy cyson, byddai angen i'r cyhoedd a grwpiau amrywiol fod yn ymwneud mwy a bod â mwy o ddealltwriaeth o'r diffyg amrywiaeth

mewn llywodraeth a goblygiadau negyddol hyn. Yn ogystal, byddai wedi bod yn rhaid sylwi ar i fwy o ymwneud gan bleidleiswyr a niferoedd chwyddedig o ymgeiswyr amrywiol o ganlyniad.

Cynllun Annog Cyflogwyr

- 10.9 Roedd gan y Cynllun Annog Cyflogwyr y nod o annog cyflogwyr y sector cyhoeddus a'r sector preifat i gefnogi staff a oedd yn dymuno gwasanaethu fel cynghorwyr. Fe wnaeth rhaglen Amrywiaeth mewn Democratiaeth gyflwyno tri digwyddiad 'Hawl i Holi' yn llwyddiannus gyda sefydliadau sector cyhoeddus a chynghorwyr. Roedd y daflen i gyflogwyr yn ychwanegiad defnyddiol i esbonio'r cynllun hwn. Fel y nodwyd yn y cyfweiliadau cwmpasu â thîm gweithredu'r rhaglen a'r ddogfen Gwersi a Ddysgwyd, cyfyngedig oedd yr ymwneud a'r llwyddiant o fewn y cynllun hwn, oherwydd diffyg adnoddau dynol ar gael i'w ymrwymo i'r maes gweithredu hwn a'r cymhelliad cyfyngedig i gyflogwyr.
- 10.10 Mae'r gwaith maes a'r adolygiadau desg yn awgrymu bod y cynllun Annog Cyflogwyr ar lefel canlyniadau (trydedd lefel)²⁹ y Matrics Aeddfedrwydd, yn sgil rhai cyflogwyr wedi ymwneud â'r cynllun a'i hyrwyddo, fodd bynnag, nid oes dim tystiolaeth i awgrymu bod y gweithgareddau annog hyn wedi arwain at nifer uwch o unigolion yn eu rhoi eu hunain ymlaen fel ymgeiswyr ([Atodiad G](#)). Mae'n bwysig nodi i'r gwaith maes gadarnhau bod angen cryf am faes sy'n cyddrafod â chyflogwyr, gan fod gwaith cyflogedig yn cael ei godi'n aml gan fentoreion / mentoriaid fel rhwystr i ddod yn gynghorydd, yn sgil yr ymrwymiad amser law yn llaw ag agweddau cyflogwyr.

Drws i Ddemocratiaeth

- 10.11 Arbrawf oedd y gronfa Drws i Ddemocratiaeth a oedd yn archwilio a oedd modd cael addasiad Cymreig o gynllun 'Mynediad at Swydd

²⁹ Lefel Canlyniadau: Gweithgareddau'n cael eu cyflwyno. Gellir sylwi ar yr allbynnau cychwynnol.

Etholedig' yn Lloegr. Ei nod oedd sefydlu cronfa gan y llywodraeth i ddarparu adnodd ariannol i bobl anabl a chael gwared ar unrhyw rwystrau y gallai anabledd eu hachosi i gymryd rhan a sefyll mewn llywodraeth leol. Roedd ymdrechion i wireddu'r gronfa arfaethedig hon yn aflwyddiannus yn sgil cyfyngiadau cyfreithiol.

- 10.12 Am y rheswm hwn, mae'r maes hwn o'r rhaglen ar lefel aeddfedrwydd 3 (canlyniadau), lle darparwyd rhywfaint o gyllid (£3,300) a lle sylwyd ar allbynnau cychwynnol. Yr allbynnau cychwynnol oedd bod mentoreion yn gallu mynychu hyfforddiant, cymryd rhan mewn cyfarfodydd mentora a chymryd rhan yn y Cynllun Mentora ([Atodiad G](#)). Fodd bynnag, ni pharhawyd y cyllid hwn ar ôl cymryd rhan yn rhaglen Amrywiaeth mewn Democratiaeth i helpu mentoreion i sefyll etholiad, ac ni cafodd cynllun Drws i Ddemocratiaeth ei sefydlu'n ffurfiol, sy'n rhwystro'r maes gweithredu hwn rhag cyrraedd lefel 4, aeddfedrwydd. I symud ymlaen i'r lefel hon, byddai angen i ymgeiswyr anabl fod wedi derbyn cymorth i sefyll etholiad yn gyson ledled Cymru. Cadarnhaodd y gwaith maes fod angen sylweddol am gyllid i helpu ymgeiswyr anabl, ac am gydnabyddiaeth y bydd angen cyllid ar sail barhaus.

Strategaeth pleidiau gwleidyddol

- 10.13 Nod yr amcan strategaeth pleidiau gwleidyddol oedd annog pob plaid wleidyddol i ymrwmo i ddewis ymgeiswyr mwy amrywiol. Mae argraffiadau cynnar yn awgrymu mai cymysg oedd llwyddiant yr ymwneud â chynrychiolwyr pleidiau gwleidyddol. Fe wnaeth rhaglen Amrywiaeth mewn Democratiaeth gyflawni'n rhannol yr allbwn o ymrwymiad gan bleidiau gwleidyddol i gynyddu amrywiaeth (OP.10) gyda'r Blaid Lafur, (o bosibl oherwydd bod y Blaid Lafur eisoes yn gweithredu cynlluniau tebyg), ond dim ond o ran merched yn hytrach nag unigolion o gefndiroedd amrywiol eraill.
- 10.14 Mae dadansoddiad o'r dystiolaeth a gasglwyd yn awgrymu bod maes strategaeth pleidiau gwleidyddol rhaglen Amrywiaeth mewn

Democratiaeth ar gam ‘canlyniadau’ y Matrics Aeddfedrwydd ([Atodiad G](#)). Mae’r strategaeth pleidiau gwleidyddol wedi cael ei gosod yma, yn sgil ymwneud â phleidiau gwleidyddol ac ymrwymiad i adolygu prosesau, ond tystiolaeth gyfyngedig er hynny i awgrymu bod y pleidiau gwleidyddol wedi adolygu na mabwysiadu prosesau eraill ar gyfer dewis ymgeiswyr, o ganlyniad i raglen Amrywiaeth mewn Democratiaeth.

10.15 I grynhoi, mae’r adroddiad hwn yn gosod y pum maes gweithredu yn y safleoedd canlynol ar y Matrics Aeddfedrwydd:

- Rhaglen Fentora: lefel aeddfedrwydd
- Ymgyrch Gyfathrebu: lefel canlyniadau
- Strategaeth Pleidiau Gwleidyddol: lefel canlyniadau
- Drws i Ddemocratiaeth: lefel canlyniadau
- Cynllun Annog Cyflogwyr: lefel canlyniadau.

10.16 Yn gyffredinol, mae’r asesiad o aeddfedrwydd yn dangos i raglen Amrywiaeth mewn Democratiaeth gael ei chyflawni i raddau cyfyngedig – yn yr ystyr mai dim ond y Cynllun Mentora a welodd gynnydd ymhellach na thrydedd lefel aeddfedrwydd.

11. Argymhellion

Argymhellion ar lefel strategol

Cyd-destun polisi

- 11.1 Roedd rhaglen Amrywiaeth mewn Democratiaeth yn ymwneud â'r cyd-destun a osodwyd iddi ar y cychwyn, fodd bynnag, gallai rhaglen yn y dyfodol sicrhau cydnawsedd strategol â newidiadau mewn polisi yn y dyfodol, yn enwedig rhoi sylw i newidiadau sydd wedi digwydd ers i'r rhaglen gael ei llunio gyntaf yn 2014.
- 11.2 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn dal i fod yn agenda bwysig i Lywodraeth Cymru, a dylai rhaglen Amrywiaeth mewn Democratiaeth yn y dyfodol sicrhau cysondeb clir â'i hamcanion. Gallai hyn olygu, er enghraifft, ymgorffori amcanion sy'n ymwneud â'r saith amcan llesiant, ochr yn ochr â'r dangosyddion cenedlaethol canlynol (Llywodraeth Cymru, 2015):
- y ganran sy'n teimlo'u bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau yn eu hardal leol
 - y ganran o bobl sy'n fodlon gyda'u gallu i gael at y cyfleusterau a'r gwasanaethau mae arnynt eu hangen
 - y ganran o bobl sy'n gwirfoddoli.
- 11.3 Datblygiadau eraill a fydd yn effeithio ar gyfranogiad pleidleiswyr mewn llywodraeth leol, yw'r cynnig i ostwng yr oedran pleidleisio i bobl ifanc 16 a 17 oed mewn etholiadau lleol (fel y trafodwyd yn yr adran bolisi uchod). Golyga hyn y dylai'r rhaglen yn y dyfodol ymgorffori allgymorth yn benodol i'r grwpiau hyn – er mwyn cynyddu'r niferoedd sy'n pleidleisio (os yw hynny'n un o'r camau y cytunwyd arnynt ar gyfer y prosiect). Yn yr un modd, bydd angen i fentora / hyfforddiant i ddarpar ymgeiswyr posibl ystyried sut y gall y grŵp hwn bleidleisio, a pha bolisiau allai apelio.
- 11.4 Mae'r adroddiad yn nodi hefyd fod Llywodraeth Cymru yn ddiweddar wedi cyhoeddi tystiolaeth gyfunol sy'n archwilio adnewyddiad

democrataidd. Mae'r dystiolaeth gyfunol hon yn archwilio mecanweithiau ar gyfer symbylu pobl sydd wedi ymddieithrio i gymryd rhan mewn prosesau democrataidd (Hunt & Nickson, 2019). Mae'n bwysig nodi y bydd angen i raglen Amrywiaeth mewn Democratiaeth yn y dyfodol gadw'r canfyddiadau hyn mewn cof a sicrhau eu mewnlannu iddi wrth ei gweithredu. Mae hyn yn neilltuol o bwysig ynghylch unrhyw newidiadau i'r broses bleidleisio ac argymhellion yn dyfodol ar gwestâu rhywiau.

- 11.5 Yn olaf, bydd newidiadau i ffiniau cynghorau (ar lefel sir neu ward) yn effeithio ar yr etholiadau lleol – gan y gall olygu nad fydd sedd gan gynghorwyr presennol. Mae'n bwysig nodi y gall hyn gynnig cyfleoedd i herio 'deiliaid seddau' trwy brosesau dewis ac allgymorth. Yn ogystal, gall newidiadau mewn ffiniau hefyd newid lliwiau gwleidyddol cynghorau – os nad yw seddau diogelu yn rhai 'diogel' mwyach, neu i'r gwrthwyneb. Unwaith eto, mae cyfle'n codi i ymgeiswyr mwy amrywiol gael eu hethol i lywodraeth leol os yw nifer uwch o seddau'n agored i ail-ddewis.

Mentora

- 11.6 Thema gref yn codi o'r gweithgareddau annog oedd yr anawsterau mae cynghorwyr yn eu hwynebu wrth gydbwyso eu dyletswyddau cyngor â chyfrifoldebau eraill, megis gwaith cyflogedig a gofal plant.
- 11.7 Yn gyffredinol, ni all rhaglen nac ymyrraeth llywodraeth yn ffurf mentora neu hyfforddiant fynd i'r afael â'r rhwystrau sefydliadol a strwythurol sylweddol sy'n rhwystro pobl rhag sefyll etholiad i lywodraeth leol. Yn unol â'r argymhelliad am 'gyfnod datblygu' i'w gynnwys mewn unrhyw gynllun yn y dyfodol (gweler isod), dylid cydnabod bod cynllun mentora (a gweithgareddau allgymorth tebyg) yn ymdrin â'r ffactorau 'meddal' (diwylliant, gwybodaeth, hyder) yn hytrach na'r ffactorau sefydliadol a grybwyllwyd. Felly, roedd y rhwystrau hyn (er gwaethaf ymdrechion ehangach i fynd i'r afael â hwy) yn parhau i rwystro cyfranogiad mewn llywodraeth leol ac yn

esbonio pam fod rhai mentoreion heb sefyll. Mae'n bwysig nodi nad yw'r materion hyn yn benodol i Gymru nac i lywodraeth leol, ac na all unrhyw gynllun mentora fyth wneud mwy na chyfraniad yn erbyn y rhwystrau hyn. Nid yw hyn yn dweud bod y rhwystrau 'meddal' yn ansylweddol, ac mae'r adborth gan rai fentoreion yn adlewyrchu hyn. Aeth rhai ohonynt ymlaen i sefyll am wahanol lefelau o lywodraeth, a dywedodd eraill eu bod yn teimlo'n fwy hyderus am ymwneud mewn llywodraeth leol yn y dyfodol neu wedi dysgu sgiliau 'defnyddiol', megis trwy'r hyfforddiant cyfryngau cymdeithasol.

11.8 Argymhellir yn gyffredinol fod angen i unrhyw gynllun yn y dyfodol gymryd camau pellach i gydnabod na all hyfforddiant a mentora ond mynd i'r afael â rhai rhwystrau, ac felly maent yn annhebygol o arwain at fentorai yn sefyll etholiad ym mhob achos.³⁰ Gallai canlyniadau megis gwybodaeth a ddysgwyd, cynnydd mewn hyder a chymryd rhan mewn agweddau eraill o fywyd cyhoeddus (ee gwirfoddoli, byrddau llywodraethwyr ysgol), fodd bynnag, gael eu cynnwys wrth lunio prosiectau. Gallai'r dewisiadau monitro gynnwys:

- arolygon diwedd rhaglen sy'n monitro canfyddiadau mentoreion o effeithiolrwydd cynlluniau
- ffurlenni adborth manylach ar ddiwedd digwyddiadau hyfforddi er mwyn cael adborth meintiol, parhaus drwy gydol y rhaglen (ee er mwyn sicrhau bod yr hyfforddiant yn addas i'r diben)
- gwreiddio gwerthuso a monitro i'r rhaglen o'r cychwyn.

Mae'n bwysig nodi y gellid cyflwyno'r adborth yn rheolaidd i unrhyw grwpiau llywio / rhanddeiliaid fel y gellir seilio'r gweithredu a'r penderfynu ar wybodaeth drwy gydol y rhaglen.

³⁰ Mae hyn yn tybio bod mentoreion yn cael eu recriwtio mewn dull tebyg i raglen flaenorol Amrywiaeth mewn Democratiaeth, heb amod eu bod yn gorfod sefyll mewn etholiad cyngor ar ddiwedd y cynllun.

Argymhellion gweithredol

Cyfnod datblygu

11.9 Thema allweddol a gododd o drafodaeth ynghylch gweithredu'r rhaglen oedd bod rolau'r prosiect heb eu diffinio ar gychwyn y rhaglen, ac – unwaith roedd diffiniadau wedi cael eu datblygu – ni chafodd y rhain eu cyfleu, na'u deall, gan gyfranogwyr y prosiect. Roedd hyn yn ymwneud – mewn rhai achosion – â diffyg dealltwriaeth ynghylch beth oedd rôl Hyrwyddwr Amrywiaeth o gymharu â Mentor, ond roedd yn ymwneud hefyd â disgwyliadau mentoreion a mentoriaid. Argymhelliad allweddol yw bod rhaglen Amrywiaeth mewn Democratiaeth yn y dyfodol yn cynnwys 'cyfnod datblygu' sylweddol cyn ei gweithredu. Mae Cynllun Rhwydwaith Cydraddoldeb Merched Cymru yn ddiweddar wedi cynnwys cyfnod datblygu yn ei cynllun nesaf, ar sail ei werthusiad. Byddai'r cyfnod datblygu yn cynnwys, o leiaf:

- Sefydlu prosesau gwerthuso a monitro mewnol fel y gellir arwain y gweithredu gan 'gwersi a ddysgwyd' drwy gydol y rhaglen. Byddai'r ddogfen 'fyw' hon yn cael ei diweddarau'n rheolaidd gan nodi cryfderau a heriau'r gweithredu, fel y gellir newid dulliau (ee ar gyfer recriwtio) fel bo'r angen.
- Diffiniadau a chyfrifoldebau clir ar gyfer holl rolau'r prosiect: y grŵp llywio, Cydgysylltydd y Prosiect, mentoriaid, hyrwyddwr amrywiaeth, mentoreion, etc.
- Asesiad o anghenion hyfforddiant (o fentoreion) ac archwiliad sgiliau o fentoriaid / cynghorwyr.
- Modelu ariannol i ddarganfod manylion penodol ar sut i gyllido a gweithredu cynllun Drws i Ddemocratiaeth / Mynediad i Swydd Etholedig yng Nghymru.
- Datblygu cyfnod recriwtio ar gyfer mentoriaid a Hyrwyddwyr Amrywiaeth, cyn recriwtio mentoreion – er mwyn sicrhau bod mentoriaid yn deall eu rôl yn drylwyr ymlaen llaw.

- Arfarniad opsiynau i adnabod y lefel gofynnol o adnoddau (amser, cyllid), sgiliau ac arbenigedd er mwyn sicrhau y gellir cyflwyno'r holl weithgareddau arfaethedig yn effeithiol. Er enghraifft, archwilio sawl Cydgysylltydd Prosiect sydd eu hangen i weithredu'r prosiect.³¹
- Llunio deunyddiau ar gyfer y prosiect i'w defnyddio gan fentoriaid a mentoreion (megis agendâu cyfarfodydd cyflwyno, a chynghor ar sut i osod / monitro nodau a chynnydd).
- Datblygu amserlen ar gyfer cyfnodau gweithredu a threfnu gweithgareddau'r prosiect o'u cwmpas (er enghraifft ymgyrch cyfryngau cymdeithasol Ewch Allan i Bleidleisio yn y cyfnod yn arwain at Etholiad y Cynulliad yn 2021).

Cynllun Mentora

11.10 Dylai'r cyfnod datblygu (uchod) gwmpasu'r graddau y dylai'r rhaglen ymwneud â'r rhai anoddaf eu cyrraedd (ee y rheini nad ydynt eisoes yn cymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus) neu â'r rheini sydd eisoes yn ymwneud â rhwydweithiau – gan y gallent hwy fod yn fwy tebygol o sefyll fel ymgeiswyr llywodraeth leol. Gallai fod posibilrwydd, er enghraifft, cael ffurf haenog o gysylltu, gyda nodau ac amcanion wedi eu teilwra ar gyfer y gwahanol boblogaethau:

- rhai nad ydynt yn cymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus – gyda'r nod cyffredinol o gymryd rhan yn rheolaidd mewn grŵp neu gynllun cymunedol
- rhai â diddordeb – y rheini sydd yn weithgar ac a hoffai ddysgu mwy am lywodraeth leol er budd eu cymuned neu grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol

³¹ Un o gryfderau allweddol y prosiect oedd bod llawer o'r rhai a gyfwelwyd yn dweud bod Cydgysylltydd y Prosiect yn Gydgysylltydd Prosiect hynod o effeithiol (o safbwynt ei chefnidir, dealltwriaeth a'r swm o waith a gyflawnodd). Thema gyffredin fodd bynnag oedd y gallai fod yn brin o adnoddau, ac nad oedd yn gallu ymwneud â gogledd Cymru i'r un graddau â'r de.

- rhai wedi eu symbylu – y rheini sy'n weithgar mewn bywyd cyhoeddus, ac sy'n debygol o sefyll mewn etholiad llywodraeth leol.

11.11 Argymhelliad arall o'r gwaith maes oedd bod y cynllun mentora yn rhy fyr – ac y dylai gael ei gyflwyno ar sail dreigl, o un cylch etholiadol i'r nesaf. Yn ogystal, dylid darparu cymorth (efallai yn ffurf mentora) i gynghorwyr sydd newydd eu hethol. Er enghraifft, gellid cynnal y berthynas fentora cyn yr etholiad yn ystod chwe mis cyntaf eu tymor.

Pleidiau gwleidyddol

- 11.12 Argymhelliad allweddol arall oedd y dylai unrhyw gynllun yn y dyfodol fod yn sensitif ynghylch sut mae'n ymwneud â phleidiau gwleidyddol. Roedd cytundeb cyffredinol gan y pleidiau gwleidyddol a fu'n cymryd rhan (ac o gyd-drafod â rhai cynghorwyr) ynghylch sut y gallai gweithdrefnau dewis fod yn bwynt allweddol lle gall 'rhagfarn ddjarwybod' fod yn rhwystr i rai pobl o gefndiroedd amrywiol. Mae gan wahanol bleidiau gwleidyddol amrywiol ddulliau o ymdrin â hyn – mae'r defnydd o Restrâu Byr i Ferched yn Unig neu'r agweddau at gwtâu yn enghreifftiau o wahaniaethau barn. Mae'r barnau hyn yn gyffredinol yn adlewyrchu ideolegau gwleidyddol, megis a ddylai sefydliadau neu unigolion chwarae mwy o ran wrth benderfynu ymddygiad. Rhaid i Lywodraeth Cymru fod yn sensitif i hyn, er mwyn sicrhau nad yw'n achosi tensiynau gwleidyddol (ee y canfyddiad fod Llafur Cymru neu Blaid Cymru yn gorfodi eu gwerthoedd ar wahanol bleidiau gwleidyddol). Felly, dylai unrhyw ymyrraeth sy'n targedu pleidiau gwleidyddol sicrhau cefnogaeth ac ymrwymiad ar draws y sbectrwm mewn modd gyhoeddus (megis datganiad ar y cyd).
- 11.13 Roedd adborth cymysg o ran y rôl y dylai rhaglen yn y dyfodol ei chael mewn cynnwys pleidiau gwleidyddol wrth symud ymlaen. Ar y naill law, mae gweithdrefnau dewis a phrosesau recriwtio yn rhan o gylch gwaith pleidiau gwleidyddol ac mae cyfran uchel o ymgeiswyr mewn etholiad ag ymlyniad at blaid gwleidyddol. Ar y llaw arall, cyfran fach iawn yn unig o'r cyhoedd yn gyffredinol sy'n aelod o blaid gwleidyddol ac felly gallai gweithredu fel hyn allgáu nifer mawr o bobl. Yn wyneb yr adborth cymysg, argymhellir archwilio hyn ac ymchwilio iddo ymhellach gydag adborth gan bleidiau gwleidyddol ar wahanol lefelau (o'r rhanbarthol i lawr i aelodau gweithgar ar lawr gwlad).

Hyfforddiant

11.14 Mae'r rhwystau a restrwyd yn yr adran flaenorol yn berthnasol hefyd i fynychu hyfforddiant. Argymhellir felly ddysgu lefel uwch o adnoddau i drefnu'r gweithgareddau hyfforddi, er mwyn sicrhau:

- Bod digwyddiadau hyfforddi yn cael eu cynnal ledled holl ranbarthau Cymru er mwyn sicrhau gwasgariad daearyddol mor eang â phosibl
- Bod yr amser gofynnol yn cael ei neilltuo i weithgareddau hyfforddi. Dywedodd un o'r rhai a gyfwelwyd y byddai dau ddiwrnod yn hytrach na dwy awr yn addas i gyfryngau cymdeithasol.
- Bod gweithgareddau hyfforddi yn cael eu cynllunio'n iawn, i ategu cyfnodau strategol / amcanion rhaglen.

Drws i Ddemocratiaeth

11.15 Mae'r gwaith maes yn awgrymu bod angen clir iawn am y rhaglen Drws i Ddemocratiaeth, neu rywbeth tebyg. Mae rhwystrau sy'n gysylltiedig ag anabledd yn arwyddocaol wrth rwystro pobl anabl sefyll etholiad am lywodraeth – ac mae'r rhain yn faterion y gellir mynd i'r afael â hwy gyda'r lefel iawn o gyllid a chymorth. Rhaid cydnabod yn ogystal y bydd yr angen yn barhaol i unrhyw ymgeisydd sydd angen y cymorth. Os caiff ei ethol i lywodraeth leol, bydd rhywun sydd, er enghraifft, angen dehonglydd iaith Arwyddion Prydain, yn dal i fod angen y cymorth hwn drwy gydol eu tymor fel cynghorydd. Rhaid i unrhyw lwfans cyllid ar gyfer hyn fod yn sensitif i'r ffaith fod weithiau warthnod ynglŷn â chynghorwyr yn hawlio costau, ac ni ddylai unrhyw berson anabl fod mewn perygl o driniaeth annheg yn sgil dibyniaeth am gymorth ariannol.

Ymgyrch Gyfathrebu

11.16 Roedd y gwaith maes yn amlygu bod angen cryf iawn i gyfleu rôl Cynghorau Sir (ochr yn ochr â Chynghorau Tref a Chymuned) i'r cyhoedd yn gyffredinol. Crybwyllwyd bod camddealltwriaeth yn aml

ynghylch graddau'r tâl a dderbynnir gan gynghorwyr yn gyfnewid am raddau'r gwaith maent yn ei wneud, a bod weithiau elyniaeth tuag at gynghorwyr, yn sgil diffyg dealltwriaeth o'r hyn maent yn gyfrifol amdano. Dyma rai argymhellion:

- Mae potensial i gynnwys addysg wleidyddol mewn ysgolion – naill ai wedi'i ymgorffori yn y cwricwlwm neu drwy ymweliadau gan gynghorwyr ag ysgolion. Bydd hyn yn bwysicach gyda'r rhagolygon o'r oedran pleidleisio'n gostwng i 16 fel y pennir yn yr adroddiad 'Senedd sy'n Gweithio i Gymru' (Panel Arbenigwyr ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad, 2017) .
- Dylid cynyddu cyfathrebu wyneb yn wyneb â'r cyhoedd gan y gall fod y ffordd fwyaf effeithiol o daflu goleuni ar rôl cynghorydd. Gellid archwilio graddfa a chwmpas cynllun o'r fath mewn cyfnod datblygu rhaglen (fel uchod).
- Adolygu cynnwys cyrsiau hyfforddi cyfryngau cymdeithasol i gynghorwyr a mentoreion. Dylai hyn gynnwys elfen o hyfforddiant ar sut i reoli sylwadau negyddol.

Cynllun Annog Cyflogwyr

11.17 O fewn y gweithgaredd gwerthuso a gyflawnwyd, y Cynllun Annog Cyflogwyr oedd elfen leiaf llwyddiannus rhaglen Amrywiaeth mewn Democratiaeth ac ychydig iawn y llwyddodd i ennyn diddordeb cyflogwyr. Fel y dywedwyd, mae rhwystr i ymgeisio am lywodraeth leol oherwydd gall pobl fod yn anfodlon cymryd toriad mewn gyrfa, ac efallai nad yw cyflogwyr / recriwtwyr yn gwerthfawrogi rôl cynghorydd ar CV unigolyn. Efallai y byddai ffyrdd gwahanol o weithio yn golygu na fyddai angen am doriad llwyr mewn gyrfa – gallai dulliau o weithio hyblyg liniaru'r risg hwn. Gallai cynllun yn y dyfodol weithio tuag at y canlynol:

- Hyrwyddo rôl cynghorydd fel rhywbeth defnyddiol ar gyfer datblygiad proffesiynol, yn sgil y nifer o sgiliau trosglwyddadwy a

ddysgir (gwybodaeth, cyflwyniadau, ysgrifennu adroddiadau, cadeirio cyfarfodydd, rhwydweithio, ymwneud â'r cyhoedd, etc).

- Rhoi cymorth gyn-gynghorwyr / cynghorwyr presennol i'w helpu i 'werthu' eu profiad i gyflogwyr.
- Cyd-drafod â chyflogwyr i dynnu sylw at y sgiliau defnyddiol a ddysgir trwy fod yn gynghorydd.

Cyfeiriadau

ALDC, 2018. [Tudalen hafan ALDO](#).

[Cyrchwyd December 2018].

Andrews, R. et al., 2005. Representative Bureaucracy, Organisational Strategy, and Public Service Performance: An Empirical Analysis of English Government. *Journal of Public Research and Theory*, Volume 15.

Apter, T. & Garnsey, E., 1994. Enacting inequality: Structure, agency, and gender. *Women's Studies International Forum*, 17(1), pp. 19-34.

Baclija, I., Brezovsek, M. & Hacek, M., 2008. Positive Discrimination of the Roma Minority: The case of Roma councillors in Slovenia. *ethnicities*, 15(2).

BBC News, 2018. [Ministers propose reducing number of councils from 22 to ten](#). [Ar-lein]

[Cyrchwyd 27 July 2018].

Bulut, Y. & Taniyici, S., 2006. Representatives and attitudes of municipal council members in Turkey: The case of Erzincan province. *Local Government Studies*, 32(4).

Campbell, R. & Lovenduski, J., 2014. *Cracks in the Glass Ceiling: Assessing the Fabian Women's Networks mentoring programme*, Llundain: Fabian Women.

Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus, 2014. *Adroddiad y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus: Adroddiad Cryno*, s.l.: Llywodraeth Cymru.

Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, 2017. *Arolwg o'r Aeldau yn Ymadael ym mis Mai 2017*, s.l.: s.n.

Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, 2017. *Arolwg o'r Aelodau yn ymadael ym mis Mai 2017*, s.l.: s.n.

Cynghorwyr y Ceidwadwyr, 2015. *Be A Conservative Councillor*, s.l.: Cymdeithas Llywodraeth Leol (Lloegr).

Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2008. [Cyfranogwyr Cynllun Cysgodi ACau Ymgrych y Bleidlais Ddu i raddio](#). [Ar-lein]

[Cyrchwyd 15 Mehefin 2018].

Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2012. *Local Election Results 2012*, s.l.: s.n.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2018. *Diwygio Gwasanaethau Cyhoeddus yn y Gymru Ddatganoledig: Amserlen o Ddatblygiadau Llywodraeth Leol*, Caerdydd: Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru, n.d. *Cynllun Datblygu Merched mewn Bywyd Cyhoeddus - Canllawiau Mentora*, s.l.: s.n.

Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, 2015. *Cyfansoddiad Democratiaid Rhyddfrydol Cymru*, s.l.: s.n.

Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, 2016. *Gwella Amrywiaeth ymysg Democratiaid Rhyddfrydol Cymru*, s.l.: s.n.

Dinolfo, S., Foust-Cummings, H. & Kohl, J., 2011. *Sponsoring Women to Success*, s.l.: Catalyst.

Disability Rights UK, 2018. [EnAble Fund](#). [Ar-lein] [Cyrchwyd Ionawr 2019].

Disability Wales, n.d. [Social Model](#). [Ar-lein]

Durose, C. et al., 2013. 'Acceptable Difference': Diversity, Representation and Pathways to UK Politics. *Parliamentary Affairs*, Volume 66.

Fabian Women, 2018. [Fabian Women Mentoring Programme](#). [Ar-lein] [Cyrchwyd 15 Mehefin 2018].

Game, C., 2009. Twenty-nine per cent of Women Councillors after a Mere 100 Years: Isn't it Time to look seriously at Electoral Quotas?. *Public Policy and Administration* , 24(2).

Grwp Arbenigwyr ar Amrywiaeth mewn Llywodraeth Leol, 2014. *Ar ol pwyso a mesur: Sicrhau Democratiaeth Amrywiol mewn Llywodraeth Leol yng Nghymru*, s.l.: s.n.

Hunt, M. & Nickson, S., 2019. *Adnewyddu Democrataidd: Tystiolaeth Gyfunol o blaid Diwygio Etholiadol mewn Llywodraeth Leol*, Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Inclusion Scotland, 2017. *Access to Elected Office Fund (Scotland) 2016-17 Pilot Evaluation Report*, s.l.: s.n.

Inclusion Scotland, 2018. [Inclusion to Elected Office Fund \(Scotland\)](#). [Ar-lein] [Cyrchwyd Ionawr 2019].

- Irranca-Davies, H., 2018. [Datganiad Ysgrifenedig - Nodi dwy flynedd ers cyhoeddi Adroddiad Arsylwi Terfynol Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn](#). [Ar-lein]
[Cyrchwyd October 2018].
- Kollman, K. & Waites, M., 2011. United Kingdom: changing political opportunity structures, policy success and continuing challenges for lesbian, gay and bisexual movements.. In: *The Lesbian and Gay Movement and the State: Comparative Insights into a Transformed Relationship*. Farnham: Ashgate, pp. 181-196.
- Llywodraeth Cymru, 2011. *Canllawiau Statudol Mesur Llywodraeth Leol 2011*, s.l.: Llywodraeth Cymru.
- Llywodraeth Cymru, 2011. *Cynllun mentora Camu Ymlaen Cymru: Adroddiad Gwerthuso*, Caerdydd: Cynulliad Cenedlaethol Cymru.
- Llywodraeth Cymru, 2013. *Arolwg Ymgeiswyr Llywodraeth Leol 2012*, s.l.: s.n.
- Llywodraeth Cymru, 2013. [Datganiad Ysgrifenedig - Penodi Grwp o Arbenigwyr ar Amrywiaeth mewn Llywodraeth Leol](#). [Ar-lein]
[Cyrchwyd Ionawr 2019].
- Llywodraeth Cymru, 2014 (a). *Ar ol Pwyso a Mesur: Sicrhau Democratiaeth Amrywiol mewn Llywodraeth Leol yng Nghymru*, Caerdydd: Llywodraeth Cymru.
- Llywodraeth Cymru, 2014. *Amrywiaeth mewn Democratiaeth - Briff y Rhaglen*, s.l.: s.n.
- Llywodraeth Cymru, 2014. [Cynllun Gweithredu'r Grwp Arbenigwyr ac Ymatebion Llywodraeth Cymru](#). [Ar-lein]
[Cyrchwyd 18 Gorffennaf 2018].
- Llywodraeth Cymru, 2014. *TOR and Role Guidance Diversity Champions*, s.l.: s.n.
- Llywodraeth Cymru, 2015. *Amrywiaeth mewn Democratiaeth - Cynllun Cyfathrebu*.
- Llywodraeth Cymru, 2015. [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015](#). [Ar-lein]
[Cyrchwyd 15fed Mehefin 2018].
- Llywodraeth Cymru, 2015. *Diversifying Democracy in Local Government in Wales - Mentee Application Pack*. s.l.:s.n.

Llywodraeth Cymru, 2015. *Sut mae mesur cynnydd cenedl? Dangosyddion Cenedlaethol Cymru*, Caerdydd: s.n.

Llywodraeth Cymru, 2016a. *Amrywiaeth mewn Democratiaeth - Canllawiau Cyfreithiol Cronfa Drws i Democratiaeth*, s.l.: s.n.

Llywodraeth Cymru, 2016a. *Cynllun Gwaith Prosiect Amrywiaeth mewn Democratiaeth Cam 2*. s.l.:s.n.

Llywodraeth Cymru, 2016. *Amrywiaeth mewn Democratiaeth - Cynllun Cyfathrebu - Atodiad 1*.

Llywodraeth Cymru, 2016. *Amrywiaeth mewn Democratiaeth - Cynllun Cyfathrebu - Atodiad 2*.

Llywodraeth Cymru, 2016. *Cynllun Cydraddoldeb Strategol ac Amcanion Cydraddoldeb*, Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru, 2017. *Gwersi a Ddysgwyd o'r Prosiect Amrywiaeth mewn Democratiaeth*, s.l.: s.n.

Llywodraeth Cymru, 2018. *Arolwg Ymgeiswyr Llywodraeth Leol 2017*, s.l.: s.n.

Llywodraeth Cymru, 2018. [Datganiad Llafar yn y Siambr ar Ddiwygio Llywodraeth Leol - y camau nesaf](#). [Ar-lein]
[Cyrchwyd Chwefror 2019].

Llywodraeth Cymru, 2018. [Y Prif Weinidog yn datgan blaenoriaethau deddfu](#). [Ar-lein]
[Cyrchwyd October 2018].

Llywodraeth Cymru, 2018. *Ymgynghoriad ar Ddiwygio Etholiadol ym Maes Llywodraeth Leol yng Nghymru - Crynodeb o Ymatebion*, s.l.: s.n.

Llywodraeth Cymru, 2018. *Ymgynghoriad Papur Gwyrdd Cryfhau Llywodraeth Leol: Cyflawni dros ein Pobl - Crynodeb o Ymatebion*, s.l.: s.n.

Llywodraeth y Deyrnas Unedig, 2017. [Charter of Fundamental Rights of the EU Right by Right Analysis, s.l.](#)

Mackay, F. & McAllister, L., 2012. Feminising British PoliticsL Six Lessons from Devolution in Scotland and Wales. *The Political Quarterly*.

Matysiak, I., 2015. The Feminization of governance in rural communities in Poland. *Gender, Place & Culture*, 22(5).

- ONS, 2011. *DC2101EW - [Ethnic group by sex by age](#)*. [Ar-lein]
[Cyrchwyd 27 Gorffennaf 2018].
- ONS, 2013. *[Disability in England and Wales: 2011 and comparison with 2001](#)*. [Ar-lein]
[Cyrchwyd 5 Medi 2018].
- ONS, 2016. *[Hunaniaeth Rywiol, y DU: 2016](#)*. [Ar-lein]
[Cyrchwyd 27 Gorffennaf 2018].
- Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol, 2019. *Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol: Adroddiad Blynnyddol*, s.l.: Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol.
- Panel Arbenigwyr ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad, 2017. *Senedd sy'n Gweithio i Gymru*, Caerdydd: Cynulliad Cenedlaethol Cymru.
- Panel Arbenigwyr Comisiwn y Cynghorwyr, 2009. *Adroddiad Panel Arbenigol Comisiwn Cynghorwyr Cymru: At ein Gwasanaeth?*, Caerdydd: s.n.
- Plaid Cymru, 2017. *Datganiad Plaid Cymru - Ymchwiliad i Amrywiaeth ym maes Llywodraeth Leol*, s.l.: s.n.
- Rallings, C., Thrasher, M., Borisyuk, G. & Shears, M., 2010. Parties, Recruitment and Modernisation: Evidence from Local Election Candidates.. *Local Government Studies*, 36(3).
- Ruedin, D., 2012. The Representation of Women in National Parliaments: A Cross-national comparison. *European Sociological Review*, 28(1).
- Sefydliad Diogelwch a Chydweithrediad yn Ewrop, 1990. *[Document of the Copenhagen meeting of the conference on the human dimension of the CSCE](#)*. Copenhagen
- Shan-Jan, S., 2018. Are Female Political Leaders Role Models? Lessons from Asia. *Political Research Quarterly*, 71(2).
- StatsCymru, 2011. *[StatsCymru - Poblogaeth breswyl arferol yn ol blwyddyn oedran unigol a rhyw](#)*. [Ar-lein]
[Cyrchwyd 7 Gorffennaf 2018].
- Swyddfa Cydraddoldeb y Llywodraeth, 2015. *Cronfa Mynediad at Swydd Etholedig i Bobl Anabl : Adroddiad Gwerthuso*, s.l.: s.n.
- Ty'r Cyffredin, 2010. *Cynhadledd y Llefarydd (ar Gynrychiolaeth Seneddol) - Adroddiad Terfynol*, s.l.: s.n.
- Un Llais Cymru, 2018. *[All About Councils](#)*. [Ar-lein]

Welsh Government, 2014 (b). *Commission on Public Service Governance and Delivery: Summary Report*, Cardiff: Welsh Assembly.

Welsh Government, 2014. *Siversity in Democracy Steering Group: Terms of Reference*. s.l.:s.n.

Welsh Government, 2017. *White Paper, Reforming Local Government: Resilient and Renewed*, s.l.: s.n.

Welsh Government, 2018. [Local Government Reform](#). [Ar-lein]
[Cyrchwyd 27 July 2018].

WLGA, 2014. [Report calls for greater councillor diversity in 2017](#). [Ar-lein]
[Cyrchwyd 27 July 2018].

Y Blaid Geidwadol, 2018. [Brandon Lewis: Why we need 50% women on our candidates list](#). [Ar-lein]
[Cyrchwyd Rhagfyr 2018].

Y Blaid Lafur, 2018. *Llyfr Rheolau 2018*, Llundain: Iain McNicol, General Secretary.

Y Gymdeithas Diwygio Etholiadol, 2018. *Lleisiau Newydd: Sut y gall gwleidyddiaeth Cymru ddechrau adlewyrchu Cymru*, s.l.: s.n.

Atodiad A Casgliadau ochr yn ochr ag Argymhellion Ar ôl Pwysu a Mesur

11.18 Mae'r adran ganlynol yn cyflwyno llwyddiannau'r rhaglen Amrywiaeth mewn Democratiaeth y sylwyd arnynt yn y Gwerthusiad, ochr yn ochr ag argymhellion adroddiad Ar ôl Pwysu a Mesur, a'r amcanion thematig a ffurfiwyd ar gyfer yr gwerthusiad hwn, mewn tablau isod.

Elfen 1: Gwellu'r ymateb i'r Arolwg Ymgeiswyr Llywodraeth Leol

Argymhellion o'r adroddiad Ar ôl Pwysu a Mesur		Llwyddiannau
1	Dylai Llywodraeth Cymru, llywodraeth leol, CLILC ac Un Llais Cymru gydweithio i egluro pwrpas yr arolwg a'i bwysigrwydd. Dylai hyn gynnwys adroddiad ar brif bwyntiau'r arolwg cyntaf, er mwyn i'r rheini sy'n cael yr holiadur allu gwerthfawrogi ei bwrpas yn well.	Er gwaethaf gweithredu nifer o argymhellion (lledaenu'r arolwg ar-lein, a chyn dydd yr etholiad) gostyngodd cyfansam y nifer o ymatebion i'r arolwg o 3,394 yn 2012, i 1,701 yn 2017.
2	Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod modd llenwi a dychwelyd holiadur yr arolwg nesaf ar-lein.	
3	Dylid gwahanu'r arolygon ymgeiswyr ar lefelau sir a chymuned, a'u cynnal fel dau arolwg gwahanol (gan gymryd y bydd etholiadau'n cael eu cynnal yr un diwrnod)	
4	Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu methodoleg	
5	Dylai Llywodraeth Cymru gytuno â llywodraeth leol i gyflogi un darparwr ymchwil, megis Uned Data Llywodraeth Leol, i gynnal yr arolwg ar ran awdurdodau lleol yn yr etholiadau nesaf.	

Elfen 2: Gwellu'r wybodaeth o'r Arolwg

Argymhellion o'r adroddiad Ar ôl Pwysu a Mesur		Llwyddiannau
6	Dylai Llywodraeth Cymru gymharu'r rhestr gwestiynau â'r rheini sy'n cael eu defnyddio mewn arolygon cynghorwyr mewn rhannau eraill o'r DU. Dylai hefyd, fel rhan o'r adolygiad cyffredinol o'r cwestiynau, benderfynu a ddylid ychwanegu neu ddiwygio unrhyw rai er mwyn gallu eu cymharu'n well. Rhaid iddi beidio â pheryglu nod canolog yr arolwg, sef mesur cynnydd dros amser..	Diwygiodd yr arolwg gyfres o'i gwestiynau (megis ynghylch anabledd) i fod yn fwy cyson â setiau data ehangach (fel cynghorwyr yn y DU) a data cyfrifiad. Golyga hyn, fodd bynnag, fod rhywfaint o'r data nad yw'n gymharol rhwng 2012 a 2017, sy'n mynd yn erbyn prif nod yr arolwg o ran cynhyrchu astudiaeth hydredol o amrywiaeth yr ymgeiswyr yng Nghymru dros amser.
7	Dylai Llywodraeth Cymru ystyried comisiynu gwaith ymchwil i wella'r arolwg nesaf, gyda'r nod o gael data ansoddol o sampl o ymatebwyr ynghyd â chyfweld â sampl o ymgeiswyr posibl a oedd wedi penderfynu peidio â sefyll yn ddiweddarach.	
8	Dylai fod yn ofynnol i awdurdodau lleol archwilio'r data ar gyfer eu hardal eu hunain, a datblygu strategaethau i geisio gwella amrywiaeth mewn etholiadau yn y dyfodol.	
9	Dylai awdurdodau lleol gynnal cyfweiliadau ymadael â chynghorwyr sy'n penderfynu peidio ag ailsefyll, er mwyn asesu'r rhesymau dros hynny. Dylai CLILC gasglu data dienw gan yr awdurdodau lleol a chyhoeddi adroddiad ar ôl pob etholiad cyffredin.	

Elfen 3: Camau i bleidiau gwleidyddol

Argymhellion o'r adroddiad Ar ôl Pwysu a Mesur		Llwyddiannau
10	Dylai pleidiau gwleidyddol a llywodraeth leol ei hun annog menywod sy'n gynghorwyr llwyddiannus i weithredu fel mentoriaid ar gyfer ymgeiswyr posibl eraill, gan	<i>Amcan 3: Annog pob plaid wleidyddol i ymrwymo i ddewis ymgeiswyr mwy amrywiol.</i> Gweithiodd Llywodraeth Cymru gyda phleidiau gwleidyddol a llywodraeth leol i annog cynghorwyr benywaidd i weithredu fel mentoriaid gyda 37 (73%) o fentoriaid benywaidd yn y rhaglen. Roedd y graddau y

	ymgysylltu â rhwydweithiau lleol priodol.	teimlai'r mentoriaid eu bod yn cael eu cefnogi a'u hannog i wirfoddoli fel mentoriaid gan eu plaid wleidyddol yn amrywio – roedd gan rai ddiddordeb yn y rôl waeth beth oedd eu hymlyniad, tra yn achos eraill, roedd mentora eisoes yn cael ei annog gan eu plaid yn ganolog ac ar lefel leol.
11	Dylid annog yr holl brif bleidiau gwleidyddol i ddatblygu strategaethau a fydd yn arwain at enwebu menywod yn ymgeiswyr mewn o leiaf 40% o'r seddi hynny y mae'r plaid o dan sylw yn credu y gall eu hennill yn yr etholiadau lleol nesaf.	<i>Amcan 3: Annog pob plaid wleidyddol i ymrwymo i ddewis ymgeiswyr mwy amrywiol.</i> Bu Llywodraeth Cymru'n cyd-drafod â chynrychiolwyr o bob plaid wleidyddol i'w hannog i ddatblygu prosesau a strategaethau ar gyfer ymgeiswyr enwebedig benywaidd. Yn gyffredinol, er bod pob plaid wleidyddol yn mynegi diddordeb ac ymrwymiad i gynyddu amrywiaeth eu hymgeiswyr – nid oedd unrhyw newidiadau sylweddol i unrhyw bolisiâu unrhyw un o'r pleidiau gwleidyddol y gellir eu priodoli'n uniongyrchol i'r rhaglen Amrywiaeth mewn Democratiaeth.
12	Dylai arweinwyr pob prif plaid wleidyddol ymrwymo'n gyhoeddus o blaid y targed hwn.	<i>Amcan 3: Annog pob plaid wleidyddol i ymrwymo i ddewis ymgeiswyr mwy amrywiol.</i> Y Blaid Lafur oedd yr unig plaid wleidyddol i wneud ymrwymiad cyhoeddus o blaid y targed hwn. Mae pob plaid wleidyddol wedi cydnabod yr angen i gynyddu'r nifer o ymgeiswyr amrywiol, ond mae ymdrechion yn aml yn amrywio gan ddibynnu ar grwpiau unigol ar lefel etholaeth. Mae'n annhebygol y gellir priodoli'r ymwybyddiaeth hwn i gynyddu amrywiaeth yn gyfan gwbl i'r rhaglen Amrywiaeth mewn Democratiaeth, er y gallai fod wedi cyfrannu at drafodaethau'n digwydd ar lefel leol, Cymru a'r Deyrnas Unedig.

Elfen 4: Gwellu cyfranogiad mewn llywodraeth leol

Argymhelliad	Llwyddiannau
13	Dylai Llywodraeth Cymru gydweithio â
	<i>Amcan 2: Adnabod mentoreion addas a</i>

	CLILC, grwpiau cydraddoldeb ac os yn briodol, Llywydd y Cynulliad, i sefydlu cynllun cysgodi/mentora yn ystod y ddwy flynedd cyn yr etholiadau lleol nesaf. Byddai modd ehangu hyn i gynnwys cynghorau tref a chymuned, ar y cyd ag Un Llais Cymru.	<i>chyflwyno Cynllun Mentora addas</i> Sefydlwyd cynllun mentora cyn etholiadau 2017 a oedd yn cynnwys pob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru (er bod dau wedi gwrthod y gwahoddiad i gymryd rhan (Llywodraeth Cymru, 2017)). Cofrestrodd cyfanswm o 65 o gynghorwyr fel mentoriaid a chofrestrodd 51 o bobl i fod yn fentoreion o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol o awdurdodau lleol yng Nghymru. Ychydig y bu'r rhaglen yn ymwneud ag Un Llais Cymru – nid oedd unrhyw bartneriaethau mentoreion/mentoriaid mewn cyngor tref/cymuned.
14	Dylai awdurdodau lleol annog ysgolion uwchradd i drefnu i gynghorwyr lleol siarad â myfyrwyr ysgol am eu rôl, fel rhan o'r nod "Dinasyddiaeth Weithgar" yn y Fframwaith Addysg Bersonol a Chymdeithasol. Dylid annog cynghorwyr o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol i gymryd rhan yn hyn.	<i>Amcan 6: Cynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r rhaglen</i> Defnyddiwyd gweithgareddau codi ymwybyddiaeth y cyhoedd gan dîm y rhaglen a rhanddeiliaid ehangach. Cyflwynwyd hyfforddiant i wella gallu cynghorwyr. Cyflawnodd rhai cynghorwyr a chynghorau weithgareddau hyrwyddo (fel ymweliadau ysgolion), fodd bynnag, nid oes fawr o dystiolaeth i'r rhaglen gyflawni newid sylweddol yng nghanfyddiadau'r cyhoedd o lywodraeth leol.
15	Dylai cynghorau cymuned fanteisio ar ddarpariaethau'r Mesur i gyfethol "cynghorwyr" ifanc i rôl heb bleidlais. Dylai cynghorau sir ystyried manteision mabwysiadu gweithdrefnau tebyg, gan gynnwys creu Cabinetau Ieuencid "Cysgodi". Dylid cynnal ymgyrch gydag Un Llais Cymru a phartïon eraill â buddiant i hyrwyddo cynghorau tref a chymuned er mwyn codi	Ar yr olwg gyntaf, nid oedd y cydweithio ag Un Llais Cymru mor llwyddiannus ag y gobeithiwyd. Er hynny, lansiwyd ymgyrch gyfathrebu yn hyrwyddo llywodraeth leol ac yn annog chwarae rhan mewn cymunedau. Roedd hyn yn defnyddio deunyddiau fel posteri, taflenni a ffiurfiau eraill o gyfathrebu. Fodd bynnag, ychydig a wyddir am effeithiolrwydd y gweithgareddau cyfathrebu a hyrwyddo hyn, heb neb o'r rhai y cysylltwyd â

	ymwybyddiaeth y cyhoedd o rôl y cynghorau a'u llwybr posibl i fywyd gwleidyddol ar gyfer grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol.	hwy yn crybwyll mwy o ymwybyddiaeth o'r gymuned neu gymryd rhan gyhoeddus yn eu Cynghorau Cymuned / Tref o ganlyniad i'r rhaglen.
16	Dylai Llywodraeth Cymru ystyried gwerthuso'r prosiect Ceisio am Swydd Etholiadol a gynhaliwyd yn ystod yr etholiadau yn Lloegr, ac ystyried cyflwyno cynllun tebyg ar gyfer yr etholiadau lleol nesaf.	<i>Amcan 8: Cyflwyno cymorth ariannol wedi'i dargedu sy'n galluogi pobl ag anabledd i chwarae mwy o ran mewn bywyd gwleidyddol (cronfa Drws i Ddemocratiaeth)</i> Roedd cymorth ariannol i bobl anabl yn cael ei ddyfarnu trwy'r cynllun mentora. Cymerwyd camau i ystyried a datblygu cynllun tebyg; fodd bynnag, roedd cyfyngiadau cyfreithiol yn gwneud hyn yn amhosibl ei symud ymlaen erbyn etholiadu lleol 2017. Roedd gwaith maes yn cadarnhau bod angen cryf am raglen sy'n cynnig cyllid i ymgeiswyr anabl, er mwyn eu galluogi i ymgyrchu / cyd-drafod â'r cyhoedd.
17	Dylid annog "Hyrwyddwyr Aelodau" ym mhob cyngor i chwarae rôl allanol i annog pobl i gyfranogi mwy mewn llywodraeth leol.	<i>Amcan 1: Sefydlu Hyrwyddwyr Amrywiaeth a / neu Mentoriaid ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru</i> Sefydlwyd Hyrwyddwyr Amrywiaeth ym mhob un awdurdod lleol ond dau yng Nghymru. Roedd amrywiaeth yng ngweithgaredd yr Aelodau a oedd yn Hyrwyddwyr o ran chwarae rhan allanol wrth annog mwy o gyfranogiad mewn llywodraeth leol, gyda rhai yn gosod esiampol ac eraill yn ymwneud llai. Yn gyffredinol, yr adborth cyffredinol oedd nad oedd rôl yr Hyrwyddwr Amrywiaeth wedi cael ei ddiffinio'n dda, ac na wnaeth, yn y mwyafrif o achosion, arwain at weithgareddau hyrwyddo sylweddol. Mewn un achos cyflawnodd yr Hyrwyddwr Amrywiaeth ei rôl trwy arwain ar gyflwyno gweithgareddau Amrywiaeth mewn Democratiaeth yn


		annibynnol o Gydgylltydd y Prosiect.
18	Dylid annog pob cynghorydd nad yw'n bwriadu ail-sefyll yn yr etholiadau canlynol i fentora olynydd posibl ar gyfer ei sedd.	<i>Amcan 1: Sefydlu Hyrwyddwyr Amrywiaeth a / neu Mentoriaid ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru</i> Anfonwyd pecynnau gwybodaeth a deunyddiau'n hyrwyddol rôl y mentor at bob awdurdod lleol yng Nghymru. Unwaith eto, sefydlwyd Hyrwyddwyr Amrywiaeth ym mhob awdurdod lleol ond dau yng Nghymru. Roedd nifer o rwystrau a oedd rhwystro cyngorwyr rhag dod yn fentoriaid – yn bennaf yr ymrwymiad amser y byddai'n ei olygu. <i>Amcan 2: Adnabod mentoreion addas a chyflwyno Cynllun Mentora addas</i> Cyhoeddwyd ffurflen gais i fentoreion er mwyn dewis mentoreion addas ar gyfer y rhaglen. Llwyddiant allweddol y rhaglen oedd mor gynhwysol oedd y rhaglen fentora a'r ddarpariaeth o adnoddau a chyfleusterau i sicrhau y gallai pawb o'r mentoriaid a'r mentoreion chwarae rhan mor llawn â phosibl.
19	Ymgyrch gyhoedduswydd ac addysgiadol, sy'n cynnwys Llywodraeth Cymru, llywodraeth leol a phartneriaid perthnasol sy'n ymwneud â chydaddoldeb a dinasyddiaeth, er mwyn sicrhau bod y cyhoedd yn cael gwybodaeth briodol am lywodraeth leol, a bod y syniad o fod yn weithgar mewn llywodraeth leol yn cael ei gyfleu yn y gymuned.	<i>Amcan 5: Gwellu gallu cyngorwyr ymwneud â'r cyhoedd trwy sesiynau hyfforddi</i> <i>Amcan 9: Cyflwyno ymgyrch aml-lwyfan i hyrwyddo ymwybyddiaeth o lywodraeth leol (radio, teledu, cyfryngau cymdeithasol, taflenni, rhwydweithio).</i> Lansiwyd ymgyrch gyhoedduswydd a oedd yn cynnwys deunyddiau a gweithgareddau hyrwyddo fel presenoldeb a rhwydweithio mewn digwyddiadau, cyflwyniadau ac ymwneud â chyfryngau cymdeithasol. Cyflawnwyd hyn drwy gydol yr holl raglen. Oherwydd yr amser a oedd wedi mynd heibio rhwng i'r rhaglen gau a'r gwerthusiad, roedd
20	Ymgyrch barhaus, yn gysylltiedig â 18 uchod, i sicrhau bod yr angen i wella amrywiaeth mewn llywodraeth leol yn	

	dal yn amlwg ymhlith y cyhoedd, ac i gadw cysylltiad â rhwydweithiau grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol. Dylai hyn gynnwys rhoi cyhoeddusrwydd i fodelau rôl, wedi'i dargedu er mwyn cyrraedd cynulleidfaoedd priodol.	llawer o gyfranogwyr y gwaith maes na allent gofio manylion y sesiynau hyfforddi a / neu pa mor ddefnyddiol oeddent yn eu golwg hwy. Hyfforddiant cyfryngau cymdeithasol oedd yr hyn a nodwyd amlaf, a'r mwyafrif yn ei gael yn ddefnyddiol ond dywedodd rhai na roddwyd digon o adnoddau ar ei gyfer. <i>Amcan 4: Cydweithio gyda rhwydweithiau cydraddoldeb a grwpiau eirioli sy'n bod eisoes yng Nghymru</i> Llwyddwyd i gydweithio â rhwydweithiau cydraddoldeb a grwpiau eirioli sy'n bod eisoes. Fodd bynnag, nid chynhaliwyd y cysylltiadau'n llawn drwy gydol y rhaglen, a allai fod wedi effeithio ar lefelau cyhoeddusrwydd.
21	Dylai'r ymgyrch hon hefyd gynnwys cydweithio â chyflogwyr er mwyn ei gwneud yn haws i'w gweithwyr fod yn aelodau cyngor. Dylai cyflogwyr yn y sector cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, ddangos esiampl drwy ei gwneud yn haws i'w gweithwyr sefyll a gwasanaethu fel cynghorwyr.	<i>Amcan 7: Cydweithio gyda chyflogwyr ledled Cymru</i> Cafodd cyflogwyr sector cyhoeddus eu cynnwys drwy gydol y rhaglen Amrywiaeth mewn Democratiaeth, ac yn benodol y cynllun Ymwneud Cyflogwyr. Ymrwymodd sefydliadau i fod yn gyflogwr cefnogol gyda thri digwyddiad 'Hawl i Holi' yn cael eu cynnal gyda sefydliadau sector cyhoeddus (fel Gwasanaeth Ambiwylans Cymru a Gwasanaeth Tân De Cymru) a chynghorwyr. Cyfyngedig oedd y llwyddiant tuag at yr amcan hwn, fodd bynnag, gyda'r gwaith maes yn amlygu angen i fynd i'r afael â chanfyddiad cyflogwyr o gynghorwyr.

22	Dylid annog sefydliadau yn y sector preifat, yn enwedig y rheini sy'n elwa o brosesau caffael Llywodraeth Cymru, i gefnogi staff sy'n dymuno gwasanaethu fel cynghorwyr, fel rhan o'u rhaglenni Cyfrifoldeb Cymdeithasol Corfforaethol. Dylid gofyn i CBI gefnogi'r nod hon.	<i>Amcan 7: Cydweithio gyda chyflogwyr ledled Cymru</i> Yn gyffredinol ni fu'r rhaglen yn ymwneud â sefydliadau sector preifat. Fel y nodwyd, dangosodd y gwaith maes fod angen am raglen i gweithio gyda chyflogwyr i hyrwyddo sgiliau a ddysgir wrth fod yn gynghorydd, a galluogi unigolion i gymryd amser i ffwrdd ar gyfer y rôl. Gellid cyflawni hyn trwy arferion gwaith hyblyg.
23	Dylai awdurdodau lleol nad ydynt eisoes yn darlledu eu cyfarfodydd ddechrau gwneud hynny, yn ogystal â manteisio'n llawn ar yr holl gyfryngau cymdeithasol eraill i gysylltu â'r cyhoedd yn ehangach.	<i>Amcan 9: Cyflwyno ymgyrch aml-lwyfan i hyrwyddo ymwybyddiaeth o lywodraeth leol (radio, teledu, cyfryngau cymdeithasol, taflenni, rhwydweithio).</i> <i>Amcan 5: Gwella gallu cynghorwyr ymwneud â'r cyhoedd trwy sesiynau hyfforddi</i> Fe wnaeth rhai cynghorwyr gymryd camau (fel defnyddio cyfryngau cymdeithasol) i hyrwyddo'u gweithgareddau. Nid yw'n eglur i ba raddau mae hyn i'w briodoli'n uniongyrchol i'r rhaglen Amrywiaeth mewn Democratiaeth.

Atodiad B Model Rhesymeg

Model Rhesymeg Amrywiaeth mewn Democratiaeth



Atodiad C Methodoleg fanwl

- 11.19 Ffurfiwyd y fethodoleg gan ddilyn cwestiynau ymchwil y gwerthusiad hwn, ac mae felly'n cwmpasu holl rychwant y gwerthusiad.
- 11.20 Mae'r Gwerthusiad yn seiliedig ar Theori Newid (ToC), gan herio'r naratif sy'n sail i'r rhaglen. Mae'r dull hwn wedi arwain yr holl werthusiad ac wedi gosod sail allweddol y cynhyrchwyd ein deunyddiau ymchwil, gan gynnwys y Model Rhesymeg, arni.

Adroddiad cychwynnol ac adolygiad llenyddiaeth

- 11.21 Rhoddwyd rhestr gynhwysfawr o lenyddiaeth i'r tîm gwerthuso ei adolygu a'i gynnwys yn yr adolygiad llenyddiaeth. Cynhwyswyd llenyddiaeth berthnasol ehangach hefyd. Rhoddodd hyn ddealltwriaeth fanwl o'r cyd-destun y tu ôl i'r prosiect a'r hyn roedd yn gyrru'r rhaglen Amrywiaeth mewn Democratiaeth.
- 11.22 Roedd yr adroddiad cychwynnol yn amlinellu sut y byddai'r gwerthusiad yn cael ei gyflawni, gyda chynllun gwaith manwl, amserlen, rolau a chyfrifoldebau a risgiau gwerthuso. Cafodd yr adroddiad cychwynnol ei adolygu a'i drafod mewn gweithdy a chafodd unrhyw adborth ei ymgorffori yn yr adroddiad cychwynnol terfynol.

Datblygu Theori Newid, Fframwaith Gwerthuso a Matrics Aeddfedrwydd

- 11.23 Roedd y Model Rhesymeg a'r Mynegai Tybiaethau sy'n sail i'r Theori Newid yn helpu i asesu'r graddau y cyflawnwyd amcanion ac allbynnau, pam iddynt gael eu cyflawni a beth a hwyluswyd drwy'r rhaglen i'w cyflawni. Roedd hyn yn arwain y gwerthusiad o ran y cwestiynau i'w gofyn a'r atebion i'w darganfod, er mwyn sicrhau bod cwmpas llawn y rhaglen yn cael ei gwerthuso, a bod y casgliadau a'r argymhellion o ganlyniad yn ddigonol ac yn gadarn.
- 11.24 Cynhaliwyd cyfweiliadau cwmpasu manwl gyda phedwar aelod o dîm cyflwyno'r rhaglen Amrywiaeth mewn Democratiaeth. Defnyddiwyd y cyfweiliadau manwl fel sail ar gyfer cam nesaf y gwerthusiad; sef cynhyrchu dulliau gwerthuso.
- 11.25 Arweiniodd y cyfweiliadau a'r adolygiad desb at ddealltwriaeth ehangach o'r prosiect gan osod sail ar gyfer datblygu'r Model Rhesymeg drafft. Roedd elfennau'r Model Rhesymeg yn cynnwys:

- gyrwyr polisi'r rhaglen (gan gynnwys yr adroddiad allweddol, Ar ôl Pwyso a Mesur)
- anghenion y rhaglen (fel y nodwyd gan y gyrwyr polisi a'r cyd-destun)
- amcanion y rhaglen (fel y nodwyd gan adroddiad Ar ôl Pwyso a Mesur a'r tîm gweithredu wrth gychwyn y rhaglen)
- y gweithgareddau a gwblhawyd drwy gydol y rhaglen er mwyn cyrraedd yr amcanion a gynigiwyd (fel a hysbyswyd gan ddogfennaeth y prosiect, cofnodion gweithgareddau a chyfweliadau cwmpasu)
- Yr allbynnau, canlyniadau a'r effeithiau a fwriadwyd ar gyfer y rhaglen (fel a hysbyswyd gan Gam 2 y gwaith maes).

Gweler [Atodiad B](#) am y Model Rhesymeg llawn.

11.26 Mae dull ailadroddol ac esbyglol o ddatblygu Theori Newid llwyddiannus yn hanfodol. Felly, ymgorfforwyd adborth a dderbyniwyd i'r Model Rhesymeg Terfynol er mwyn sicrhau ei gywirdeb. Caiff proses yr adborth hwn a'r ffordd y'i gweithredwyd yn y Model Rhesymeg ei adlewyrchu yn Nhabl 12 isod.

Tabl 7 Trafodaeth Theori Newid a Datblygiad y Model Rhesymeg

Cam Datblygu Dulliau	Adborth	Mabwysiadu
Model Rhesymeg Drafft 1	Rhannu'r dull gyda'r cleient a derbyn adborth	Ymgorffori'r adborth yn y Model Rhesymeg
Model Rhesymeg Drafft 2	Gweithdy a oedd yn trafod y Model Rhesymeg gyda thîm gweithredu'r rhaglen a'r Cydgysylltydd Prosiect blaenorol (11/06/18).	Ymgorffori'r adborth yn y Model Rhesymeg
Model Rhesymeg Drafft 3	Gweithdy gyda grŵp llywio'r gwerthusiad a oedd yn trafod y tybiaethau a oedd yn sail i'r theori newid rhwng gwahanol gamau'r Model Rhesymeg. (10/07/18)	Ymgorffori'r adborth yn y Model Rhesymeg. Roedd adborth o'r gweithdy'n amlygu'r tybiaethau allweddol a oedd yn sail i weithredu'r rhaglen. Rydym wedi ymgorffori'r tybiaethau ehangach hyn i'n Mynegai Tybiaethau a'r Fframwaith Gwerthuso.

Drafft Terfynol y Model Rhesymeg Theori Newid	Y cleient yn arwyddo Drafft Terfynol y Model Rhesymeg Theori Newid	
---	--	--

Ffynhonnell: Cynllun y Prosiect Gwerthuso

- 11.27 Wrth ddatblygu'r Theori Newid a'r Model Rhesymeg fe wnaeth y tîm gwerthuso gychwyn cynhyrchu ymchwil pellach a dulliau gwerthuso (a arweiniwyd gan y camau cychwynnol hyn).
- 11.28 Roedd y Mynegai Tybiaethau'n amlygu lle'r oedd tybiaethau penodol yn gosod sail i'r broses rhwng gwahanol gamau'r model rhesymeg (gweler Ffigur 1 isod). Megis, lle mae tybiaethau i weithgareddau ddod yn allbynnau. Er enghraifft, gellir bwriadu i allbwn o 100 o daflenni hyrwyddo yn cael eu dosbarthu arwain at ganlyniad o fwy o ymwybyddiaeth. Fodd bynnag, mae'r tybiaethau sy'n sail i'r Theori Newid hwn yn cynnwys bod y taflenni hyrwyddo'n cynnwys yr wybodaeth gywir, eu bod yn cyrraedd y gynulleidfa iawn a'u bod yn cael eu hystyried mewn gwirionedd gan y gynulleidfa honno. Cafodd y tybiaethau sylfaenol hyn eu profi trwy eu hadeiladu i mewn i'n canllawiau pwnc.
- 11.29 Roedd y Fframwaith Gwerthuso'n galluogi'r tîm gwerthuso i fapio'r wybodaeth benodol sydd angen ei chasglu er mwyn herio neu wirio'r rhyngddibyniaethau achosol a nodwyd yn y Theori Newid (gweler Ffigur 2 isod). Cafodd yr anghenion ymchwil hyn eu ystyried ochr yn ochr â dulliau casglu data drwy gydol y gwerthusiad. Mae'r Fframwaith yn amlygu dangosyddion a fydd yn darparu'r casgliadau angenrheidiol inni, y cwestiynau i'w gofyn a'r dadansoddiad i'w gyflawni.
- 11.30 Cafodd y Matrics Aeddfedrwydd hefyd ei ddatblygu ar y cam hwn (gweler [Atodiad G](#)). Dull oedd hwn a oedd yn profi aeddfedrwydd (lefel cynnydd / camu ymlaen) yr hyn y gallai'r rhaglen eu cyflawni o fewn pob maes cyflawni. Roedd y Matrics Aeddfedrwydd yn mapio cynnydd o safbwynt lefel sylfaenol, cynnydd cynnar, canlyniadau, aeddfedrwydd ac enghraifft. Ar gyfer pob maes, cafodd y safle *disgwyliedig* ar bob lefel o aeddfedrwydd ei fapio cyn i *dystiolaeth* (o'r gwaith maes a wnaed) alluogi'r tîm gwerthuo i fapio aeddfedrwydd *gwirioneddol*. Roedd hyn yn dileu'r posibilrwydd o ragfarn ymchwilwyr a allai ddigwydd wrth i ddealltwriaeth gael ei ennill trwy ymchwil.

Ffigur 1 Detholiad o'r Mynegai Tybiaethau

Amcanion ->Mewnbynau ac Adnoddau						
Amcanion		Tybiaethau			Mewnbynau	
OB.1	Sefydlu Hyrwyddw yr Amryw iaeth a/neu Mentoriaid ym mhob Awdurdod Lleol yng Nghymru	AS.1	Adnodd	Mae Cyngorwyr yr ar gael i fod yn fentoriaid / hyrwyddw yr amryw iaeth ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru	IN.3	Cyngorwyr yr ar gael i fod yn fentoriaid
		AS.2	Ysgogiad	Mae Cyngorwyr yr ar gael i fod yn fentoriaid / hyrwyddw yr amryw iaeth ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru	IN.3	Cyngorwyr yr ar gael i fod yn fentoriaid
		AS.3	Ysgogiad	Mae pob awdurdod lleol yng Nghymru yn fodlon cymryd rhan yn y rhaglen Amryw iaeth mew n Democratiaeth	IN.3	Cyngorwyr yr ar gael i fod yn fentoriaid
		AS.4	Adnodd	Mae cyllid ac amser ar gael i hwyluso cyfranogiad Hyrwyddw yr Amryw iaeth / mentoriaid	IN.2	Cefnogaeth a hyrwyddo gan y Gweinidog.
		AS.5	Adnodd	Mae digon o amser, adnoddau ac arbenigedd o fewn y rheolwr prosiect / tîm prosiect i hyrwyddo a rheoli rôl y mentor / hyrwyddw r yn llwyddiannus.	IN.3	Cyngorwyr yr ar gael i fod yn fentoriaid
					IN.9	Cyllid
					IN.7	Amser, ymdrech a sgiliau'r rheolwr prosiect, a'r tîm prosiect
					IN.9	Cyllid
					IN.11	Systemau llywodraethu
					IN.12	Rheolaeth
		AS.6	Ysgogiad	Bydd y rheini sy'n gweithio mewn awdurdodau lleol yn cefnogi'r amcan hwn	IN.2	Cefnogaeth a hyrwyddo gan y Gweinidog.
OB.2	Adnabod mentoreion addas a chyflwyno rhaglen fentora addas	AS.7	Adnodd	Mae digon o fentoreion posibl â diddordeb yn y rhaglen.	IN.4	Gw eithgor cyhoeddusrwydd a chynllun gw eithredu ymgyrch hyrwyddo.
		AS.8	Ysgogiad	Mae diddordeb gan fentoreion posibl o amryw iaeth o wahanol grwpiau a dangynrychiolir	IN.4	Gw eithgor cyhoeddusrwydd a chynllun gw eithredu ymgyrch hyrwyddo.
		AS.9	Adnodd	Mae gan fentoreion posibl yr amser a'r adnoddau angenrheidiol i ymwneud â'r rhaglen	IN.14	Cyfathrebu a marchnata
		AS.10	Ysgogiad	Bydd mentoreion yn ymatebol i weithgareddau hyrwyddo	IN.2	Cefnogaeth a hyrwyddo gan y Gweinidog.
					IN.4	Gw eithgor cyhoeddusrwydd a chynllun gw eithredu ymgyrch hyrwyddo.
					IN.14	Cyfathrebu a marchnata
OB.3	Annog pob plaid w leidyddol i ymrwymo i ddew is ymgeiswyr mwy amrywiol	AS.11	Ysgogiad	Mae gan bleidiau gw leidyddol angen am y rhaglen Amryw iaeth mew n Democratiaeth.	IN.2	Cefnogaeth a hyrwyddo gan y Gweinidog.
					IN.4	Gw eithgor cyhoeddusrwydd a chynllun gw eithredu ymgyrch hyrwyddo.
		AS.12	Ysgogiad	Bydd pleidiau gw leidyddol yn ymatebol i hyrwyddo'r rhaglen Amryw iaeth mew n Democratiaeth	IN.14	Cyfathrebu a marchnata
					IN.2	Cefnogaeth a hyrwyddo gan y Gweinidog.
		AS.13	Adnodd	Mae gan bleidiau gw leidyddol yr adnoddau i adolygu gw eithdrefnau dew is mewnol	IN.4	Gw eithgor cyhoeddusrwydd a chynllun gw eithredu ymgyrch hyrwyddo.
					IN.14	Cyfathrebu a marchnata
		AS.14	Ysgogiad	Nid yw pleidiau gw leidyddol eto yn ymrwymo i ddew is ymgeiswyr mwy amrywiol	IN.2	Cefnogaeth a hyrwyddo gan y Gweinidog.
					IN.4	Gw eithgor cyhoeddusrwydd a chynllun gw eithredu ymgyrch hyrwyddo.

Ffigur 2 Detholiad o'r Fframwaith Gwerthuso

Gyrwyr Polisi Beth yw 'r polisiâu allweddol sy'n gyrru sail resymegol Amryw iaeth mew n Democratiaeth?		Cwestiwn Gwerthuso (Adran)	Cwestiynau Gwerthuso	Ffynonellau Tystiolaeth	
				Adolygiad Dogfennaeth y Prosiect	Adolygiad Llenyddiaeth Allanol
P.1	Adroddiad Ar ôl Pwysu a Mesur	A oeddy prosiect Amryw iaeth mew n Democratiaeth yn gyson â'r amcanion polisi pan gafodd ei sefydlu? Sut mae'r polisiâu hyn wedi newid ers rhaglen Amryw iaeth mew n Democratiaeth?	Beth oedd argymhellion adroddiad Ar ôl Pwysu a Mesur? A w naeth hyn newid wrth i'r prosiect gael ei weithredu?		
P.2	Deddf Cydraddoldeb (2010) a Rheoliadau (2011)		Beth mae polisi a rheoliadau cydraddoldeb y Deyrnas Unedig yn ceisio'i gyflawni? A w naeth rhaglen Amryw iaeth mew n Democratiaeth ddiw allu'r anghenion / fodloni'r rheoliadau hyn? A ydyw hyn wedi newid wrth i'r prosiect gael ei weithredu?		
P.3	Cynllun Cydraddoldeb Strategol Llywodraeth Cymru		Beth yw'r nodau o fewn Cynllun Cydraddoldeb Strategol Llywodraeth Cymru? A w naeth y prosiect Amryw iaeth mew n Democratiaeth gyflawni'r nodau / cynlluniau hyn? A w naeth hyn newid wrth i'r prosiect gael ei weithredu?		
P.4	Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015)		Beth yw'r themâu / nodau o fewn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol? Sut mae'r rhain yn berthnasol i'r rhaglen Amryw iaeth mew n Democratiaeth? A gaw sant eu cyflawni gan y rhaglen? A w naethant newid wrth i'r rhaglen gael ei gwneithredu?		
P.5	Gwerthusiad o'r cynllun Mynediad i Swydd Etholedig		Beth yw'r nodau yn y Gwerthusiad o'r cynllun Mynediad i Swydd Etholedig? A w naeth rhaglen Amryw iaeth mew n Democratiaeth gyflawni'r nodau hyn? A w naeth y nodau hyn newid wrth i'r rhaglen gael ei gwneithredu?		

11.31 Cafodd y Matrics Aeddfedrwydd nifer o ddibenion drwy gydol y gwerthusiad, fel yr amlinellir isod.

- Fel dull ymchwil o fewn y prif weithgaredd ymchwil, fel y gallai rhanddeiliaid asesu cynnydd a wnaed, a'i effeithiau ar sefydliadau / cyfranogwyr y rhaglen.
- Ffordd o strwythuro'r dadansoddiad o'r dystiolaeth sylfaenol ac eilaidd.
- Dull cyfathrebu ehangach i ddangos gwaith y rhaglen Amrywiaeth mewn Democratiaeth a'r meysydd i'w datblygu ymhellach.
- Fel dull meincnodi i fapio aeddfedrwydd datblygiad y cynllun o fewn awdurdodau lleol.

Cam 1 y gwaith maes a'r adroddiad interim

11.32 Fel rhan o gam 1 y gwaith maes, cyflawnwyd dadansoddiad desg o'r holl ddata eilaidd a gasglwyd gan y rhaglen drwy gydol yr adeg roedd ar waith, ochr yn ochr ag adolygiad o ddata eilaidd o ffynonellau allanol. Roedd hyn yn cynnwys adolygiad o lenyddiaeth ac adroddiadau, megis Arolwg Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru o Aelodau a oedd yn Gadael, ac Arolwg Ymgeiswyr Llywodraeth Leol Llywodraeth Cymru o 2012 a 2017. Gellir gweld y dadansoddiad eilaidd o yn yr adolygiad llenyddiaeth lle mae wedi'i ymgorffori o fewn y drafodaeth ym mhob un o feysydd gweithredu'r rhaglen.

11.33 Roedd yr adroddiad interim yn cynnwys yr adolygiad desg, cyfweiliadau cwmpasu, dadansoddiad o'r gwaith maes a gyflawnwyd o fewn y cam cyntaf a golwg gynnar ar werthusiad o'r rhaglen Amrywiaeth mewn Democratiaeth.

Cam 2 y gwaith maes

11.34 Y dasg cyntaf a wnaed o fewn y cam hwn oedd cynhyrchu deunyddiau ymchwil, gan gynnwys canllawiau pwnc (canllawiau pwnc ar gyfer cyfweiliadau a grwpiau ffocws). Cafodd hyn ei lywio gan y dulliau gwerthuso a ddatblygwyd eisoes (fel y trafodwyd uchod).

11.35 Cafodd yr holl ddeunyddiau ymchwil a'r ohebiaeth eu darparu'n ddwyieithog, roedd y cyswllt cyntaf â darpar gyfweleion yn ddwyieithog ac roedd cyfweiliadau a grwpiau ffocws yn cael eu cynnig drwy gyfrwng yr iaith a ddewisai'r cyfranogwyr. Yn ystod

cyfnod y gwaith maes cynhaliwyd un grŵp ffocws yn ddwyieithog a hwyluswyd dau gyfweiliad yn y Gymraeg.

- 11.36 Fel rhan o gam 2 y gwaith maes, cynhaliwyd 29 o gyfweiliadau lled-strwythuredig gyda mentoriaid, mentoreion, pleidiau gwleidyddol a rhanddeiliaid ehangach. Mae dadansoddiad o'r cyfweiliadau a gynhaliwyd i'w weld yn y tabl isod.

Tabl 8 Crynodeb o gyfweiliadau lled-strwythuredig a gynhaliwyd

Cyfranogwyr cyfweiliadau	Nifer a gynhaliwyd
Mentoreion	11 (naw ohonynt yn fenywaidd, tri yn anabl, dau yn LGBT, chwech yn ifanc a dau o ethnigrwydd du a lleiafrifol)
Mentoriaid	11 (tri ohonynt yn annibynnol, tri Llafur, tri o Blaid Cymru, dau o'r Democratiaid Rhyddfrydol ac un cynghorydd Ceidwadol)
Rhanddeiliaid	3 Rhanddeiliad (dau o Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, un o Un Llais Cymru).
Cynrychiolwyr Pleidiau Gwleidyddol	4 (Llafur, Ceidwadwr, Plaid Cymru a Democrat Rhyddfrydol)

Ffynhonnell: Gwaith maes y Gwerthusiad

- 11.37 Cychwynnodd y cyfweiliadau hyn ym mis Medi 2018, ar ôl i recriwtio gael ei wneud, a daeth i ben yn gynnar ym mis Tachwedd 2018. Mae'n bwysig nodi fod angen adolygu'r nifer o fentoreion y gellid eu cyfweld. Roedd hyn oherwydd bod rheoliad GDPR wedi dod i rym ychydig ynghynt, a oedd yn ei gwneud yn ofynnol i'r tîm polisi llywodraeth leol a'r Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi geisio caniatâd gan fuddiolwyr i rannu data personol a sensitif a gasglwyd pan oeddent yn cymryd rhan yn y rhaglen.
- 11.38 Cynigiwyd yn wreiddiol y byddai 25 o gyfweiliadau'n cael eu cynnal gyda mentoreion, fodd bynnag, roedd maint llai y sampl (o 21 o fentoreion a roddodd ganiatâd) yn cyfyngu ar hyn. Gallai hyn fod wedi cyfyngu ar allu'r gwerthusiad i wneud dyfarniad cynhwysfawr ar lwyddiant y cynllun mentora.
- 11.39 Y bwriad oedd i'r cyfweiliadau â mentoreion gael eu cynnal gan ddefnyddio sampl strwythuredig, er mwyn cael cyfranogiad gan amrywiaeth o gyfranogwyr y rhaglen

(ee o wahanol nodweddion gwarchodedig), nid oedd modd cael y sampl hwn oherwydd y cyfyngiadau a gododd yn sgil rheoliad GDPR.

- 11.40 Er i'r mwyafrif o'r cyfweiliadau hyn gael eu cynnal dros y ffôn, roedd yn rhaid i'r tîm gwerthuso fod yn hyblyg er mwyn sicrhau'r gyfradd ymateb uchaf bosibl a chael gwared ar rwystrau i gynnwys darpar gyfranogwyr posibl. Er enghraifft, fe wnaethom gynnal dau gyfweiliad â mentoreion wyneb yn wynebu mewn lleoliad hwylus i'r cyfweleion. Roedd hyn yn cynnwys cyfweiliad a gynhaliwyd trwy gymryd nodiadau gydag unigolyn ar ôl i ddehonglydd laith Arwyddion Prydain dynnu allan. Yn ogystal, cynhaliwyd cyfweiliad hefyd trwy Google hangout³² er mwyn glynu at ofynion unigolyn arall. Ar bob cam yn y gwerthusiad, cymerwyd camau i gadw cyfranogwyr yn ddienw yn ystod proses yr ymchwil ac i ddilyn gofynion GDPR yn uniongyrchol.
- 11.41 Cynhaliwyd pedwar grŵp ffocws hefyd o fewn y cam hwn o'r gwaith maes. Cynhaliwyd y grwpiau ffocws yn rhai o'r prif gynghorau (cynghorau dinas a sir) ledled Cymru. Roedd hyn yn cynnwys gwahoddiadau i Hyrwyddwyr Amrywiaeth, Arweinwyr Cynghorau, Penaethiaid Gwasanaethau Democrataidd, a chynghorwyr o wahanol bleidiau gwleidyddol. Cynhaliwyd y grwpiau ffocws yn Abertawe, Conwy, Powys a Rhondda Cynon Taf, gan sicrhau persbectif Cymru gyfan o brofiadau cyfranogwyr.
- 11.42 Cynhaliwyd y grwpiau ar ôl i nifer o gyfweiliadau lled-strwythuredig ddigwydd er mwyn defnyddio themâu a oedd yn dod i'r amlwg a'u trafod hwy mewn dyfnder mewn grŵp. Roedd y grwpiau ffocws yn trafod safbwyntiau'r gwahanol gynghorau ar y ffactorau amgylcheddol, diwylliannol a sefydliadol a allai fod yn rwystrau neu'n alluogwyr i amrywiaeth mewn cynghorau lleol yn gyffredinol. Roeddent hefyd yn cynnwys trafodaeth o'r graddau roedd awdurdodau lleol yn ymwneud â'r rhaglen, fel yn ôl y Matrics Aeddfedrwydd.
- 11.43 Gweithgaredd gwaith maes pellach a gyflawnwyd ar y cam hwn oedd yr adolygiad o strategaeth a pholisi cydraddoldeb ac amrywiaeth pleidiau gwleidyddol. Roedd hyn yn cynnwys adolygu dogfennaeth a gyhoeddwyd gan y pedair plaid wleidyddol

³² Gwasanaeth negeseuon ar-lein yw Google hangout

amlycaf yng Nghymru: Llafur, Ceidwadwyr, Plaid Cymru a'r Democratiaid Rhyddfrydol.

Dadansoddiad

- 11.44 Unwaith y cafodd pob cam o'r gwaith maes a'r casglu data ei gwblhau, gwnaed dadansoddiad ansoddol mewn dyfnder er mwyn penderfynu ar themâu a oedd yn dod i'r amlwg, casgliadau ac argymhellion. Cafodd hyn ei hwyluso â meddalwedd mapio'r meddwl, a oedd yn galluogi ffordd effeithiol o gasglu data ynghyd. Rhan allweddol o'r dadansoddiad hwn oedd gweithdy canfyddiadau mewnol lle daeth holl aelodau'r tîm gwaith maes at ei gilydd i drafod canfyddiadau a'r casgliadau a oedd yn dod i'r amlwg.
- 11.45 O fewn y dadansoddiad, lluniwyd astudiaethau achos allweddol o'r gwaith maes. Ffurfiwyd chwe astudiaeth achos, gyda dull amrywiol er mwyn ennill gwell dealltwriaeth o'r amrywiaeth o brofiadau a brofwyd gan y rheini a fu'n ymwneud â'r rhaglen. Roeddent yn cynnwys pedair astudiaeth achos o barau a oedd yn galluogi'r wybodaeth o gyfweiliadau â mentoreion a mentoriaid cael ei chasglu ynghyd i ddeall y gwahanol fathau o berthynas rhwng mentor a mentora. Yn ogystal, cynhwyswyd astudiaeth achos o brofiad Hyrwyddwr Amrywiaeth ac astudiaeth achos o brofiad unigol mentora. Mae'n bwysig nodi bod yr astudiaethau achos yn galluogi i feysydd o'r 'arferion gorau' gael eu hamlinellu, ochr yn ochr â modelau rôl y gellir rhannu eu profiadau gyda rhanddeiliaid, a'r cyhoedd mewn gweithgareddau cyfathrebu ynglŷn â'r rhaglen. Fodd bynnag, roedd hefyd yn datgelu meysydd lle gellid gwella'r gwaith mentora. Mae'r achosion hyn yn allweddol os bydd rhaglen debyg fyth yn y dyfodol.
- 11.46 Ar ôl cwblhau'r gwaith maes a'r dadansoddiad, cwblhawyd y gweithgaredd gwerthuso wrth gynhyrchu allbwn terfynol; sef yr adroddiad gwerthuso terfynol.

Adroddiad gwerthuso terfynol

- 11.47 Cwblhawyd strwythur yr adroddiad gwerthuso terfynol cyn cychwyn y gwaith maes. Roedd hyn yn gosod sail i'r trafodaethau ac yn sicrhau bod pob agwedd yr rhaglen yn cael ei chynnwys o fewn y gwaith maes. Mae'r Adroddiad Terfynol yn cydymffurfio â chanllawiau arddull Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth ac mae wedi bod trwy adolygiad helaeth a phrosesau sicrhau ansawdd. Mae hyn yn

cynnwys adolygiad gan arbenigwr sicrhau ansawdd mewnol a rhanddeiliaid gwerthuso allweddol (gan gynnwys grŵp llywio'r gwerthusiad).

Er mwyn sicrhau bod canfyddiadau'r gwerthusiad ar gael i bawb, bydd Four Cymru yn cynhyrchu fersiynau hawdd eu deall a'u darllen o grynoded y gwerthusiad terfynol yn ogystal â ffeithluniau i ddangos taith cyfranogydd mentora. Bydd Miller Research yn cydgysylltu â Grŵp Llywio'r Gwerthusiad i amlinellu rhestr o ddewisiadau arfaethedig wrth gyflwyno'r crynodeb mewn fformatau a / neu gyfryngau eraill.

Atodiad D Aelodaeth y Grŵp Llywio

Aelod	Sefydliad a rôl
Lisa James (<i>Cadeirydd</i>)	Dirprwy Gyfarwyddwr Is-adran Democratiaeth, Moeseg a Phartneriaeth Llywodraeth Cymru
Frank Cuthbert (<i>Dirprwy Gadeirydd</i>)	Pennaeth Craffu, Democratiaeth a Chyfranogi Llywodraeth Cymru
Christine Ayers	Rheolwr Polisi Democratiaeth Llywodraeth Leol – Llywodraeth Cymru
Joy Kent	Chwarae Teg
Martin Eaglestone	Llafur Cymru
Roger Pratt	Ceidwadwyr Cymreig
Brendan D’Cruz	Democratiaid Rhyddfrydol Cymru
Anna Nicholl	Plaid Cymru
Daniel Hurford	Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Shannon Robinson	Un Llais Cymru
Marie Rosenthal	Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd – Caerdydd
Sian Williams	Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd – Conwy
Jonathan Jones	Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd – Caerffili
Natalie Drury-Styles	Swyddfa’r Llywydd (Cynrychiolwyd gan Alice Randone tan fis Medi 2014)
Cathy Kennedy	Cydgysylltydd y Prosiect

Atodiad E Astudiaethau Achos

Astudiaeth Achos 1

Profiad Mentorai

Roedd Mentorai A yn gynghorydd tref, y gofynnwyd iddi gan gynghorydd sir i gymryd rhan yn y cynllun. Ei phrif gymhelliad dros gymryd rhan oedd ei bod hi'n ystyried sefyll etholiad fel cynghorydd sir ond bod arni eisiau dysgu mwy am y rôl cyn rhoi ei henw ymlaen. Rhoddodd arweinwyr rhaglen Amrywiaeth mewn Democratiaeth o fewn Cyngor Sir A ddewis iddi o fentoriaid posibl a dewisodd hi Fentor A. Fe fu Mentorai A a Mentor A yn cyfarfod yn rheolaidd i drafod prosesau gwneud penderfyniadau mewn Cyngor Sir, a'r gwahaniaethau rhwng cynghorau Sir a Thref. Nid aeth Mentorai A i ddim o'r hyfforddiant oherwydd ei bod yn profi rhai problemau iechyd ar y pryd.

Profiad Mentor

Cofrestrodd Mentor A i fod yn fentor yn y rhaglen, oherwydd roedd mentora yn rhywbeth roedd Cyngor Sir 1 wedi bod yn ei wneud p'run bynnag, i gael dewis mwy amrywiol o gynghorwyr. Clywodd am raglen Amrywiaeth mewn Democratiaeth yn benodol trwy'r Gwasanaethau Democratiaidd yn y cyngor, a oedd yn recriwtio Cynghorwyr i ymrwmo fel mentoriaid. Yn gyffredinol, roedd Mentor A yn gweld ei rôl fel un bwysig wrth roi mwy o hyder i Fentorai A ynghylch ymgychu a chyflawni gweithgareddau cynghorydd o ddydd i ddydd (megis curo ar ddrysau). Roedd Mentor A yn ystyried y rôl fel un 'anwleidyddol'.

Canlyniadau

Penderfynodd Mentorai A sefyll yn etholiadau Cynghorau Sir 2017 ac enillodd ei sedd fel aelod annibynnol. Nid yw'n priodoli ei phenderfyniad i sefyll i raglen Amrywiaeth mewn Democratiaeth, oherwydd roedd yn rhywbeth roedd hi'n ystyried ei wneud p'run bynnag. Dywedodd fodd bynnag iddi ddysgu mwy ynghylch sut mae Cynghorau Sir yn gweithredu, a bod y rhaglen wedi ennyn mwy o ddiddordeb ynddi mewn materion amrywiaeth a cynrychiolaeth merched mewn llywodraeth leol. Yn gyffredinol, dywed y byddai'n argymhell y rhaglen i ddarparu ymgeiswyr posibl yn y dyfodol oherwydd 'dyma'r unig ffordd' y gall unigolion ddarganfod a yw'r rôl yn addas iddynt ai peidio. Mae Mentor A bellach yn aelod o naw pwyllgolr yn y cyngor, yn ei hystyried ei hun yn 'fwy ffeministaidd', wedi bod yn ymwneud â gweithgareddau Mis Hanes Du yng Nghymru, ac mae hi hefyd wedi edrych ar fwy o allgyrraedd LGBT+.

Dywed Mentor A fod y cyngor, o ganlyniad i raglen Amrywiaeth mewn Democratiaeth yn y cyngor yn gyffredinol, wedi denu amrywiaeth o bobl newydd i'r cyngor. Dywed fod ganddynt bellach fwy o ferched yn eu Cyngor, sy'n bwysig wrth fynd i'r afael â'r ofnusrwydd wrth ymladd etholiad. Dywedodd hefyd iddo sylwi ar newid yn hyder ei fentorai, a'u bod yn dal i gadw cysylltiad. Yn gyffredinol, dywed y byddai'n argymhell y rhagen, y byddai'n fentor eto, a'i fod yn 'gobeithio y bydd yn parhau'.

'Mae'n wirioneddol bwysig fod pobl yn teimlo y gallan nhw fod yn rhan o ddemocratiaeth ac

nad yw'n bell oddi wrthynt'

- Mentorai A

'Yn sicr dylid cynnig mentora, mae angen iddo fod yno ac yn hawdd ei gael i unrhyw un sydd arno ei eisiau'

- Mentor A

Astudiaeth Achos 2

Profiad Mentorai

Fe wnaeth Mentorai B ddarganfod y cynllun mentora drwy gyfryngau cymdeithasol a chofrestrodd fel y gallai ennill mwy o ddealltwriaeth o rôl cynghorydd a sut roedd llywodraeth leol a systemau gwleidyddol yn gyffredinol yn gweithio. Fel aelod o'r Blaidd Cyfraddoldeb Merched, roedd Mentorai B eisoes yn hynod o frwd ynghylch amrywiaeth mewn gwleidyddiaeth a 'neidiodd am y cyfle' i gymryd rhan pan ddaeth yn glir mai un o nodau'r cynllun oedd cynyddu cynrychiolaeth mewn llywodraeth leol. Roedd Mentorai B â'i bryd ar sefyll etholiad mewn rhyw ffordd neu'i gilydd, cyn iddi sefyll y pen draw fel ymgeisydd am y Cynulliad yn 2016. Ar ôl cwblhau'r ffurflen gais, cafodd Mentorai B ei pharu gyda'i mentor, cynghorydd Annibynnol o'r cyngor. Datblygodd berthynas wych gyda Mentor B. Yn ystod y cyfnod mentora, bu Mentorai B mewn cyfarfodydd a digwyddiadau cynghorwyr gyda'i mentor. Roedd y canllawiau a dderbyniodd gan Fentor B yn cynnwys canllawiau o ran gweithdrefnau, cyngor ar ymgyrchu, cyngor ar ymwneud â'r cyhoedd a phwysigrwydd canfasio wrth sefyll etholiad. O ganlyniad, roedd Mentorai B yn ganmoliaethus iawn o'r cynllun mentora, fodd bynnag, roedd yn argymhell hysbysebu'r cynllun yn ehangach er mwyn ennyn diddordeb grwpiau mwy anodd eu cyrraedd. Argymhellodd hefyd fod y cynllun yn cael ei ddilyn gan gyngor a chymorth pellach ar ôl i'r cyfnod mentora ddod i ben.

Profiad Mentor

Roedd Mentor B yn ei hail dymor fel cynghorydd pan gytunodd i fod yn fentor fel ran o gynllun mentora Amrywiaeth mewn Democratiaeth. Fel dynes gydag anabledd, mae hi'n teimlo'n gryf ynghylch mwy o amrywiaeth mewn gwleidyddiaeth ac yn ddiweddar enillodd wobwr Busnes Cymru. Gwahoddwyd Mentor B i ymuno â'r cynllun gan Gydgyssylltydd Prosiect Amrywiaeth mewn Democratiaeth. Roedd y rôl yn rhoi boddhad mawr iddi. Cafodd Mentor B ei pharu â dau fentorai o dan y cynllun mentora. Datblygodd berthynas dda gyda Mentorai B a bu'n cyfarfod yn rheolaidd â hi i ddarparu sesiynau mentora. Bu hefyd yn mynychu digwyddiadau plaid Mentorai B i gynnig cefnogaeth. Roedd Mentor B yn cael y cyrsiau hyfforddi y bu'n eu mynychu fel rhan o'r cynllun yn ddefnyddiol iawn, ac roedd hi'n meddwl bod Cydgysylltydd y Prosiect yn 'ffantastig'. Yn benodol, roedd hi'n canmol y sylw roedd y cynllun yn ei roi i fanylion, gan gynnwys hygyrchedd adeiladau, y ddarpariaeth o ddehonglwyrr a chydabyddiaeth o anghenion dietegol yn yr holl weithgareddau / digwyddiadau.

Canlyniadau

Roedd Mentorai B yn cael y berthynas mentorai / mentor yn werthfawr iawn ac yn ddefnyddiol i'w hymdrechion gwleidyddol yn y dyfodol. Roedd Mentorai B hefyd yn cael y cynllun yn ddefnyddiol iawn, rhywbeth y 'dysgodd lawer' oddi wrtho, yn enwedig trwy'r mentor a'r cyrsiau hyfforddi cyfryngau cymdeithasol. Credai Mentorai B fod ei pherthynas fentora wedi cael ei gwneud yn haws gan y ffaith fod swyddfeydd Mentor B yn agos i'w rhai hi a'i bod yn Annibynnol. Dywedodd y gallai fod wedi gwrthdaro gyda mentor o deyrngarwch gwleidyddol arall. Cytunai Mentor B fod bod yn aelod annibynnol wedi ei galluogi hi i fod yn amhleidiol a darparu cyngor a chefnogaeth yn fwy effeithiol i'r ddau o'i mentoreion er eu bod o gefndiroedd gwleidyddol gwahanol.

Er bod gan Fentorai B ddealltwriaeth dda o lywodraeth leol ymlaen llaw, datblygodd dealltwriaeth bellach i sut mae'r rôl yn gweithio'n ymarferol. Mae'n meddwl bod angen rhoi sylw i agwedd y cyhoedd at lywodraeth leol, gan nad oes fawr o ddealltwriaeth o'r hyn mae cynghorwyr yn ei wneud ac 'am beth y defnyddir yr arian'. Er ei bod yn cael y cyfle i ddeall safbwyntiau trawsbleidiol yn agwedd wirioneddol ddefnyddiol o'r rhaglen, cafodd un profiad o alw enwau mewn cyfarfod o'r cyngor, rhywbeth roedd yn credu a allai 'ddigalonni' pobl rhag ymgeisio am lywodraeth. Mae'n gobeithio y byddai cynnydd yn amrywiaeth cynghorwyr yn newid hyn. Mae Mentorai B yn teimlo'n gryf hefyd am yr angen am newid diwylliant mewn llywodraeth leol a symudiad oddi wrth 'fwlio'. Mae'n credu y byddai hyn, ynghyd â system gymorth a lles effeithiol i gynghorwyr, yn gwneud y rôl yn fwy deniadol ac y gallai gynyddu'r nifer o ymgeiswyr amrywiol yn sefyll am y rolau hyn.

Mae Mentorai B yn gweithio'n llawn-amser a dealodd o'i phrofiad y gall fod yn anodd iawn bod yn gynghorydd tra'n gweithio.

Mae Mentor B a Mentorai B wedi cynnal perthynas trwy gyfryngau cymdeithasol ers i'r cynllun mentora ddod i ben. Mae'r ddwy yn ymwybodol iawn o'r angen i gynyddu amrywiaeth yn y system wleidyddol yng Nghymru ac wedi ymrwymo i gefnogi hyn. Cred Mentor B y dylai fod y cynllun mentora wedi barhau yn hirach i hwyluso datblygu mwy ar fentoreion. Mae hi'n cefnogi ail gam a allai helpu ymgeiswyr yn y cyfnod yn arwain at etholiadau 2022. Cred Mentorai B y dylid ystyried mesurau eraill fel cwotâu i wella amrywiaeth ymgeiswyr. Roedd y ddwy yn cytuno mai'r pleidiau eu hunain, eu prosesau a'u systemau dewis sydd angen newid er mwyn cyflawni mwy o amrywiaeth mewn democratiaeth.

Safodd Mentorai B fel ymgeisydd am y Cynulliad yn 2016 ond ni chafodd ei hethol. Fodd bynnag, mae'n dal yn weithgar iawn o fewn ei phlaid ac nid yw'n diystyru sefyll eto yn y dyfodol. Mae hi ar hyn o bryd yn Llywodraethwr Ysgol, yn cyflawni'r rôl o arwain ar faterion yn ymwneud â chydaddoldeb.

'Y mwyaf amrywiol yw sefydliad, y gorau mae'n perfformio'

- Mentorai B

'Nid yw newid yn digwydd nes yr heriwn y sefyllfa fel mae ar hyn o bryd. Mae'n rhaid i rywun wneud hyn.'

- Mentor B

Astudiaeth Achos 3

Profiad Mentorai

Fe wnaeth Mentorai C ymuno â'r cynllun mentora oherwydd bod ganddi ddiddordeb yn ei hardal leol a bod arni eisiau chwarae mwy o ran. Ar ôl darganfod y cynllun trwy'r rhyngwyd (trwy e-bost gan Lywodraeth Cymru), roedd hi o dan yr argraff mai nod y cynllun oedd torri i lawr y rhwystrau a oedd yn wynebu grwpiau â nodweddion gwarchodedig mewn llywodraeth leol. Roedd Mentorai C wedi gweithio i awdurdod lleol yn y gorffennol, felly roedd ganddi eisoes ddealltwriaeth dda o sut mae cynghorau'n gweithio. Cafodd ei pharu â'i mentor, a oedd yn gynghorydd Llafur mainc gefn ar y pryd. Ni chafodd Mentorai C lawer o berthynas â'i mentor oherwydd cyfyngiadau amser. Roedd hi'n gweithio'n llawn amser ac roedd ei mentor yn brysur iawn, felly roedd hyn yn ei gwneud yn anodd trefnu cyfarfodydd. Cafodd ddau wahanol fentor yn ystod y cynllun, fodd bynnag, er ei bod yn teimlo'i bod yn cael ei chroesawu a'i hannog gan y ddau, roedd amser yn dal i fod yn rhwystr allweddol. Cyfarfu â'i mentor cyntaf ddwywaith a'i hail fentor unwaith. Yn y cyfarfodydd hyn buont yn trafod strwythur y cyngor, cyfarfodydd y cyngor a gwleidyddiaeth plaid. Canfu Mentorai C hefyd fod digwyddiadau'r cynllun yn cael eu cynnal yng Nghaerdydd yn bennaf, a oedd yn bellter hir i'w deithio ac yn ei rhwystru hi rhag eu mynychu.

Profiad Mentor

Cafodd Mentor C ei wahodd gan gydgyssylltydd y rhaglen i gymryd rhan yn y cynllun mentora ac aeth i'r digwyddiad lansio. Penderfynodd ymwneud â'r cynllun oherwydd mae'n gweld amrywiaeth fel mater pwysig mewn llywodraeth leol ac mae'n cefnogi gwella mynediad, goresgyn rhwystrau a gwrthbwysu unrhyw rwystau. Roedd gan Fentor C ddwy o fentoreion, rhywbeth y mae'n cydnabod ei fod braid yn uchelgeisiol. Dywedodd ei bod yn anodd iawn trefnu amser cyfleus i gyfarfod y mentoreion oherwydd ymrwymïadau gwaith. Roedd profiad Mentor C wedi ei arwain i gredu ei bod yn bwysig cael teyrngarwch gwleidyddol tebyg gyda mentorai er mwyn rhoi'r cymorth gorau bosibl iddynt a bod yn fwy rhagweithiol. Roedd gan Fentor C deyrngarwch gwleidyddol tebyg i'w ail fentorai a oedd yn sefyll etholiad ac felly roedd yn gallu rhoi cyngor ar hyn. Credai y gallai mentora rhywun a oedd yn sefyll yn eich erbyn fod yn wrthdrawiad buddiannau ac yn llesteirio'r berthynas fentora.

Canlyniadau

Nid yw canfyddiad y mentorai o lywodraeth leol wedi newid ers y cynllun, gan na fu'n ymwneud llawer. Fodd bynnag, mae'n credu bod amrywiaeth yn gwella, yn enwedig yn ei hardal hi. Mae hi'n credu bod rhwystrau i gynyddu amrywiaeth ymgeiswyr yn cynnwys

amser (gyda chyfyngiadau cyflogaeth) a hyder. Roedd Mentorai C yn ystyried llai o brofiad fel rheswm dros ddiffyg hyder a phryder y byddai cynghorwyr eraill, mwy profiadol yn 'eich saethu i lawr' mewn cyfarfodydd. Yn yr un modd, nid yw canfyddiadau Mentor C wedi newid; mae'n credu y dylai amrywiaeth mewn democratiaeth gael ei ddilyn ymhellach a bod angen i'r cynllun mentora barhau er mwyn sicrhau mwy o amrywiaeth yn yr hirdymor. Roedd y ddau'n cytuno y byddai ganddynt ddiddordeb mewn chwarae rhan yn y cynllun eto, fodd bynnag, roedd Mentor C yn pwysleisio'r pwysigrwydd o gyrraedd cynulleidfaoedd sydd eisoes yn ymwneud yn wleidyddol ac sy'n bwriadu sefyll etholiad os yw Amrywiaeth mewn Democratiaeth am gael ei wireddu. Roedd Mentorai C yn cytuno na fu'r mentoriaid ar ei hôl yn ei hannog, na fu hithau ar eu hôl hwythau chwaith. Roedd ail fentorai Mentor C yn llwyddiannus yn ei hetholiad ac maent yn dal mewn cysylltiad. Roedd y teyrngarwch gwleidyddol tebyg yn helpu ei berthynas a'i allu i roi cyngor gyda'r fentorai hon. Mae Mentorai C yn dal i fod yn weithgar yn ei hardal leol ac yn gwirfoddoli fel ysgrifennydd i gymuned leol.

'Byddwn yn ymuno eto a byddwn yn ei argymhell i bobl eraill'

- Mentorai C

'Y gobaith yw bod y cynllun wedi cynyddu cynrychioliaeth yn y tymor byr, mae angen iddo barhau i'w sicrhau yn yr hirdymor'

- Mentor C

Astudiaeth Achos 4

Profiad Mentorai

Roedd Mentorai D wedi clywed am y gwasanaeth mentora trwy Anabledd Cymru, lle'r oedd hi'n gweithio ar y pryd. Mae Mentorai D yn fyddar ac roedd yn ei chael yn anodd cymryd rhan mewn llywodraeth leol cyn y cynllun oherwydd nid oedd neb a gysylltodd â hwy yn gwybod pwy a allai (ac a ddylai) dalu am ddehonglwyd laith Arwyddion Prydain. Roedd gan Fentorai D ddiddordeb mewn gwleidyddiaeth yn gyffredinol ar lefel gyffredinol a lleol. Dynodwyd mentor, a oedd yn byw yn yr un ardal, ar ei chyfer. Fe wnaethant ddatblygu perthynas dda a byddent yn cyfarfod unwaith y mis i drafod sut mae cyngor lleol yn gweithio, ei ddiben a beth mae'r swydd yn ei olygu. Fe wnaeth Mentorai D hefyd fynd i gyfarfodydd craffu a chynghorau cymuned gyda Mentor D, a byddent yn trafod wedyn sut yr aethant. Fe wnaeth y ddau ddilyn yr hyfforddiant a gynigiwyd fel rhan o'r cynllun ac roeddent o'r farn ei fod yn hynod ddefnyddiol. Er bod Mentorai D yn bwriadu sefyll etholiad i lywodraeth leol, nid oedd yn gallu sefyll oherwydd y diffyg cymorth ariannol a oedd ar gael. Byddai arni angen dehonglydd llawn-amser pe bai hi'n sefyll etholiad.

Profiad Mentor

Roedd Mentor D yn deall bod y cynllun yn ceisio cael mwy o bobl sydd â heriau i fywyd cyhoeddus, hyrwyddo dinasyddiaeth weithgar ac yn y pen draw annog amrediad mwy

amrywiol o gynghorwyr. Penderfynodd Mentor D ymwneud â'r cynllun ar ôl derbyn e-bost amdano. Fodd bynnag, credai y gellid bod wedi gwneud mwy i dynnu sylw cynghorwyr eraill at y cynllun. Roedd hefyd wedi bod yn fentor ar gynllun blaenorol yn Llundain. Cytunai Mentor D fod y berthynas fentora a oedd ganddo gyda Mentorai D yn un gadarnhaol. Roedd hefyd yn siomedig iawn pan ddaeth yn amlwg, ar ôl e-bostio Llywodraeth Cymru, na fyddai cyllid ar gael y tu allan i'r cynllun i Fentorai D fel y gallai symud ymlaen a sefyll mewn etholiad llywodraeth leol.

Canlyniadau

Ar ôl cymryd rhan yn y cynllun mentora, roedd gan Fentorai D ddyheadau i ymgeisio mewn etholiad llywodraeth leol. Roedd Mentorai D a Mentor D yn siomedig pan ymddangosai hyn yn amhosibl o dan y systemau cyllido presennol. Yn benodol, credai Mentor D fod cymorth parhaus yn gwbl hanfodol, neu fel arall byddai unrhyw fudd ei ddeuai trwy'r cynllun yn cael ei golli. Er gwaethaf hyn fe wnaeth y ddau ddysgu llawer o'r cynllun. Fe wnaeth dealltwriaeth Mentorai D o lywodraeth leol wella'n sylweddol, a chafodd Mentor D hefyd ddealltwriaeth o'r anawsterau y mae'r rheini o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol yn eu hwynebu mewn llywodraeth leol. Fe wnaeth y ddau ganfod yr hyfforddiant a ddarparwyd yn ddiddorol a defnyddiol, yn enwedig yr hyfforddiant cyfryngau cymdeithasol. Yn benodol, credai Mentor D fod hyder Mentorai D wedi cynyddu'n fawr drwy gydol y cynllun mentora. Yn gyffredinol, byddai'r ddau yn argymhell y cynllun i eraill ac yn credu ei fod yn brofiad da. Ymhlith argymhellion ar gyfer y dyfodol a gynigiwyd gan Fentorai D oedd y dylid cynnwys mwy o wybodaeth ar brosesau dewis ac ymgyrchu fel rhan o'r cynllun. Hefyd, gellid bod wedi defnyddio mwy ar Facebook i hyrwyddo'r rhaglen a byddai ail gam i arwain y rheini a oedd yn sefyll etholiad wedi bod yn fuddiol.

'Roedd arna' i eisiau gwybod mwy am y cyngor a'r broses o wneud penderfyniadau, a dyna a wnes i'

- Mentorai D

'Mae'n wastraff llwyr o arian cyllido mentorai a mentoreion ac wedyn disgyn ar y glwyd olaf'

- Mentor D

Astudiaeth Achos 5

Profiad Mentor

Roedd Mentor E yn aelod cabinet pan gychwynnodd cynllun mentora Amrywiaeth mewn Democratiaeth. Hi oedd yr unig fenyw yn y cabinet. Fel aelod newydd yn 2012, buan y daeth yn ymwybodol o ddiffyg cydbwysedd rhwng y rhywiau, gyda dim ond 16 allan o 59 o gynghorwyr yn fenywod.

Mae gan Fentor E ddiddordeb mawr mewn cynyddu amrywiaeth mewn gwleidyddiaeth ac

roedd yn awyddus i 'arwain y gad' am fwy o amrywiaeth yn y cyngor pan gafodd wybod am y cynllun trwy Adran Ddemocratiaeth Llywodraeth Cymru. Fe dderbyniodd y rôl Hyrwyddwr Amrywiaeth i'r cyngor.

Datblygodd Mentor E berthynas agos gyda phawb o'i mentoreion. Fe wnaeth y cyngor ddyfeisio eu sesiynau / strwythur eu hunain i geisio hynny o brofiad ag oedd modd i'r mentoraï. Roedd rôl y mentor yn cynnwys yn bennaf arweiniad a chymorth a oedd yn cael ei wneud yn glir yn yr hyfforddiant a gynigiwyd i fentoriaid wrth i'r cynllun fynd yn ei flaen. Fe wnaeth Cydgysylltydd y Prosiect argraff dda ar Fentor E, a oedd yn credu ei bod yn gefnogol ac yn gynhwysol iawn.

Gan fod y rhaglen Amrywiaeth mewn Democratiaeth yn cychwyn o ddim, cymerodd amser i'r fframwaith gael ei ddyfeisio a'i ddatblygu. Felly, roedd yn anochel fod rôl yr Hyrwyddwr Amrywiaeth wedi cymryd amser i gael ei lunio'n ffurfiol ac i raglen hyfforddiant gael ei rhoi ar waith. Er bod Mentor E yn gwybod beth oedd arni eisiau ei gyflawni, byddai wedi bod yn haws i'r cynllun ennill ei blwyf ledled Cymru pe bai fframwaith ar gychwyn y rhaglen y gellid ei ddefnyddio i gyflawni cynlluniau gwella, yn hytrach a'r angen i gynllunio'n lleol yn y cyfamser. Er gwaethaf hyn, gwyddai fod pob cyngor yn wahanol a bod yn rhaid iddynt gymryd cyfrifoldeb am eu hagenda amrywiaeth eu hunain os oedd am fod yn llwyddiannus yn yr hirydd.

Canlyniadau

Ar ôl bod yn Hyrwyddwr Amrywiaeth i'r cynllun, mae Mentor E yn parhau i geisio mwy o amrywiaeth a chynrychiolaeth yn y cyngor. Mae hi'n credu bod ar lywodraeth leol angen cynghorwyr sydd ag amrywiaeth helaeth o ddiddordebau, ymrwymadau ac ystyriaethau (ee pobl sydd â phlant bach a swyddi) i fod yn nes at adlewyrchu'r etholwyr a gwneud y penderfyniadau gorau bosibl ar eu rhan. Mae Mentor E yn credu i'r cynllun gael effaith pellgyrhaeddol yn ei chynghor, gan fod hyd yn oed y cynghorwyr nad oedd yn fentoriaid eu hunain wedi dod yn fwy ymwybodol o'r diffyg amrywiaeth mewn llywodraeth trwy wybod am y cynllun.

Yn y tymor byr, y canlyniadau o'r cynllun oedd i fentoraï sefyll etholiad i'r cyngor ac ennill. Yn yr hirdymor, mae wedi annog mwy o ymrwymiad i amrywiaeth. Mae'r cyngor wedi lleihau cyfartaledd oedran cynghorwyr i lawr i 56, mae ganddynt y cynghorydd ieuengaf yng Nghymru (bellach yn 20 oed) ac mae ganddynt un cynghorydd o leiafrifoedd ethnig.

Yn ogystal, maent wedi parhau â gweithgareddau a ddechreuasant o dan y cynllun mentora. Maent yn parhau i fynychu neu gynnal digwyddiadau cydraddoldeb megis digwyddiadau te parti cydraddoldeb ac fe wnaethant gynnal sesiwn lleiafrifoedd ethnig yn ddiweddar.

Roedd Mentor E yn argymhell gwneud mwy o farchnata a hyrwyddo'r buddion o gael ymgeiswyr a chynghorwyr mwy amrywiol. Dylai hyn bwysleisio budd cymdeithasol mwy o amrywiaeth mewn gwleidyddiaeth. Mae hi'n argymhell hefyd fod y cynllun yn parhau ac yn cael ei ddatblygu ymhellach os yw am gael effaith cadarnhaol hirdymor.

Mae Mentor E yn dal mewn cysylltiad gyda'i Mentorai a byddai'n hapus i fod yn fentor eto.

'Mae angen inni ddal ati i gyrchu amrywiaeth, mae angen inni ddal i ddysgu a datblygu'n rhaglen. Ein nod hirdymor yw gwneud ein cyngorau'n wirioneddol gynrychioliadol o'r cymunedau maent yn eu gwasanaethu'

- Mentor E

Astudiaeth Achos 6

Profiad Mentorai

Roedd Mentorai F yn fentorai o fewn cynllun mentora Amrywiaeth mewn Democratiaeth. Cyn ymuno, cymerodd ran mewn cwrs Merched yn Gwneud Gwahaniaeth a oedd â'r nod o wella amrywiaeth mewn rolau arwain. Roedd ar Fentorai F eisiau parhau'r mentora a dderbyniodd a manteisiodd ar y cyfle i gymryd rhan pan glywodd am y cynllun Amrywiaeth mewn Democratiaeth trwy'r cwrs hyfforddi. Fe wnaeth gais ar-lein i'r cynllun wedyn. Dywedodd ei fod yn hawdd ei ddarganfod oherwydd ei bod yn gwybod beth roedd hi'n chwilio amdano; fodd bynnag, gellid bod wedi tynnu mwy o sylw ato ar dudalennau mwy poblogaidd. Roedd gan Fentorai F ddiddordeb mewn dysgu mwy am y system wleidyddol yn y Deyrnas Unedig a sut roedd yn gweithio, gan fod system gwbl wahanol yn ei gwlad enedigol, o'r lle'r oedd hi wedi mudo. Roedd y cynllun wedi symleiddio'r rôl a'i gwneud yn hawdd a hygyrch.

Tra oedd hi'n fentorai, cymerodd Mentorai F ran yn y cwrs hyfforddi cyfryngau cymdeithasol a oedd yn cael ei gynnig. Dywedodd fod y sesiwn hyfforddi yn ddefnyddiol gan ei bod yn esbonio pethau nad oedd hi wedi eu gwybod o'r blaen, megis sut i amserlennu negeseuon. Roedd hyn yn arbennig o ddefnyddiol i Fentorai F, a oedd wedi sefydlu busnes arlwy'o'n ddiweddar ac roedd arni eisiau ei hyrwyddo ar gyfryngau cymdeithasol.

Ar y cychwyn, roedd cydgysylltydd y rhaglen yn ei chael yn anodd paru Mentorai E lle'r oedd hi'n byw. Cafodd ei pharu â'i mentor, o gyngor cyfagos, a oedd yn golygu na allent gyfarfod mor aml ag y byddai Mentorai F wedi'i hoffi, yn sgil rhwystrau pellter ac amser. Er hynny, fe wnaethant ddatblygu perthynas dda ac roeddent yn cyfathrebu'n rheolaidd trwy e-bost, a chafodd gymorth gwych gan ei Mentor. Ar yr adegau roeddent yn gallu cyfarfod, roedd eu sesiynau'n gynhyrchiol a defnyddiol iawn. Yn gyffredinol, mae Mentorai F yn teimlo iddi gael yr hyn roedd arni'i eisiau o'r berthynas.

Canlyniadau

Er nad oedd Mentorai F yn barod ar gyfer sefyll etholiad i'r cyngor lleol oherwydd llawer o ymrwymïadau eraill, byddai'n ystyried sefyll yn y dyfodol pan fydd ei phlant wedi tyfu i fyny. Ym marn Mentorai F, unwaith eich bod yn adnabyddus yn y gymuned roedd yn llawer haws mynd i chwarae rhan mewn gwleidyddiaeth yn y Deyrnas Unedig. Dysgodd fod y rôl yn

llawer haws nag oedd wedi'i feddwl ar y cychwyn, a'i bod yn ymwneud â gwasnaethu eich cymuned a gwneud lles iddi, rhywbeth a oedd yn apelio ati. Fe wnaeth Mentorai F gyfarfod pobl o wahanol gefndiroedd trwy ei rhan yn y cynllun ac mae wedi cynnal perthynas gyda'i mentor, mentoreion eraill a Chydgyssylltydd y Prosiect er hynny, rhywbeth sydd, yn ei barn hi, yn fudd gwirioneddol o'r cynllun. O ran argymhellion ar gyfer y dyfodol, hoffai Mentorai F gael cynllun dilynol, gan gynnwys y camau nesaf a pharhau â'r cyfathrebu. Ei barn hi yw, er mwyn i'r cynllun fod yn wirioneddol lwyddiannus yn yr hirdymor, mae angen iddo fod yn gynllun tair blynedd o leiaf. Mae hi hefyd yn argymhell bod cynlluniau ar wahân yn cael eu lansio mewn gwahanol ardaloedd fel ei bod yn haws cydgysylltu. Er ei bod yn credu y gallai'r cynllun fod wedi bod yn fwy dwys, mae hi'n cydnabod y problemau o ran adnoddau sydd gan lawer o fentoreion a mentoriaid. Mae hi'n awgrymu y gallai trefniadau neu gymorth gofal plant helpu i oresgyn hyn.

Byddai Mentorai F yn argymhell y cynllun i eraill a byddai'n fentorai eto. Mae hi o'r farn fod y canlyniad o fentoreion yn gwasanaethu mewn rolau llywodraeth leol yn llwyddiant allweddol a'i fod i'w briodoli i'r cynllun. Mae Mentorai F yn dal yn weithgar iawn mewn bywyd cyhoeddus, ac mae hi'n gwirfoddoli ar hyn o bryd mewn Canolfan Ofalwyr Lleol, mae hi ar fwrdd Canolfan Gymunedol Affricanaidd ac mae hi'n llywodraethwr ysgol.

'Roedd yn gynllun da. Mae'n helpu mudwyr a phobl nad ydynt yn Brydeinwyr i ddeall sut mae'r drefn wleidyddol yn gweithio a bydd sydd angen ei wneud i wasanaethau yn ein cymuned'

- Mentorai F

Atodiad F Matrics Aeddfedrwydd

	Lefel sylfaenol (1)	Cynnydd cynnar (2)	Canlyniadau (3)	Aeddfedrwydd (4)	Enghraifft (5)
Maes	<i>Polisi / syniad yn cael ei dderbyn gan Lywodraeth Cymru.</i>	<i>Mewnbynnau a seilwaith yn eu lle i gyflawni amcanion.</i>	<i>Gweithgareddau'n cael eu cyflawni. Gellir sylwi ar allbynnau cychwynnol.</i>	<i>Allbynnau'n cael eu cyflawni'n gyson ledled Cymru. Gellir sylwi ar ganlyniadau'n deillio ohonynt.</i>	<i>Allbynnau a chanlyniadau'n cael eu cyflawni'n gyson. Effeithiau mwy hirdymor yn cael eu cyflawni. Mae'r rhaglen yn cael effaith trawsffurfiannol.</i>
Rhaglen Mentora	Llywodraeth Cymru'n cytuno i recriwtio mentoreion o'r cyhoedd yn gyffredinol o gefndiroedd amrywiol, a allai fod â diddordeb mewn ymgeisio am lywodraeth leol ond yn teimlo nad oes ganddynt yr wybodaeth a'r hyder i wneud hynny.	Mentoreion yn ymrwymo'r amser i fod yn fentoreion, a Chydgysylltydd y Prosect ar waith i gydgysylltu camau cyntaf y mentor a'r mentoraï.	Mentoreion yn cael eu recriwtio mewn rhai awdurdodau lleol ac yn cael eu paru â mentor.	Mentoreion wedi cael eu recriwtio o bob awdurdod lleol, o amrywiaeth o gefndiroedd gwahanol. Mentoreion yn datblygu eu wybodaeth a'u hyder trwy gyfarfodydd / gweithgareddau rheolaidd gyda'u mentor.	Mentoreion yn rhoi eu hunain ymlaen fel ymgeiswyr yn etholiad lleol 2017. Cohort mwy amrywiol. o gynghorwyr yn cael eu hethol yn etholiadau lleol 2017.
	Llywodraeth Cymru'n cytuno i recriwtio mentoriaid o awdurdodau lleol ledled Cymru i ddarparu cymorth i fentoreion.	Cynghorwyr yn ymrwymo'r amser i fod yn fentoriaid, a Chydgysylltydd y Prosect ar waith i gydgysylltu camau cyntaf y mentor a'r mentoraï.	Mentoriaid yn cael eu recriwtio mewn rhai awdurdodau lleol ac yn cael eu paru â mentoraï.	Mentoriaid yn cael eu recriwtio ym mhob awdurdod lleol. Mentoriaid yn cysylltu'n rheolaidd â mentoreion i ddarparu hyfforddiant a chynghor defnyddiol.	Cohort mwy amrywiol. o gynghorwyr yn cael eu hethol yn etholiadau lleol 2017.
	Llywodraeth Cymru'n cytuno i ddarparu hyfforddiant i fentoriaid a mentoreion er mwyn iddynt ddatblygu galluedd mewn mentora, cyfryngau cymdeithasol, etc.	Cydgysylltydd y Prosect wedi rhoi darparwyr hyfforddiant ar waith. Mentoriaid / mentoreion yn gweld gwerth dilyn hyfforddiant.	Dyddiau hyfforddiant cyntaf yn cael eu cynnal. Mentoreion a mentoriaid yn mynd iddynt.	Mentoriaid a mentoreion yn mynychu amrywiaeth o ddigwyddiadau hyfforddi ledled Cymru. Sgiliau a gwybodaeth yn cael eu datblygu.	Mentoriaid a mentoreion wedi datblygu setiau sgiliau y maent yn gallu eu trosglwyddo i ymgeiswyr yn y dyfodol a chynghorwyr presennol.

Ymgyrch Gyhoeddusrwydd / Cyfathrebu	Llywodraeth Cymru'n cytuno i weithio mewn partneriaeth gyda sefydliadau allanol i hyrwyddo'r cynllun Amrywiaeth mewn Democratiaeth i'r cyhoedd.	Mae gan Gydgysylltydd y Prosiect adnoddau a chysylltiadau ar gael i wneud cysylltiadau cychwynnol â grwpiau trydydd parti. Mae Grŵp Llywio'r Prosiect yn cytuno i hyrwyddo'r cynllun i'w rhwydweithiau.	Y cysylltiad cyntaf â sefydliadau trydydd parti yn cael ei wneud. Maent yn cychwyn hyrwyddo'r cynllun i'w rhwydweithiau.	Amrywiaeth helaeth o grwpiau (yn cynrychioli amrywiol fuddiannau) yn cymryd rhan ledled Cymru a'r rheini'n hyrwyddo'r cynllun AmD yn weithgar i'w rhwydweithiau.	Pobl o gefndiroedd amrywiol yn fwy ymwybodol o weithgareddau eu cyngor lleol, yn ogystal â'r cynllun AmD. Mwy o gyfranogi ac ymwneud a mwy o bleidleiswyr yn troi allan mewn gweithgareddau / etholiadau cyngor.
	Llywodraeth Cymru'n cytuno i ddatblygu deunyddiau hyrwyddo (copi caled ar ar-lein)	Mae gan Gydgysylltydd y Prosiect yr adnoddau a'r sgiliau i ddatblygu deunyddiau hyrwyddo. Mae'r grŵp llywio yn cytuno i gyfrannu er mwyn sicrhau hygyrchedd.	Cychwyn dosbarthu deunyddiau.	Deunyddiau'n cael eu dosbarthu'n rheolaidd ac yn cyrraedd pobl o amrywiol gefndiroedd. Ymwybyddiaeth o'r cynllun yn cynyddu.	Y cyhoedd yn gwybod mwy am weithgareddau eu cyngor lleol a'r cynllun AmD. Mwy o gyfranogi ac ymwneud a mwy yn troi allan i bleidleisio.
	Llywodraeth Cymru'n cytuno i gynnal digwyddiadau a mynd iddynt i hyrwyddo'r cynllun Amrywiaeth mewn Democratiaeth.	Mae gan Gydgysylltydd y Prosiect yr adnoddau i fynd i ddigwyddiadau. Mae Rheolwr y Prosiect yn gwybod am ddigwyddiadau i'w mynychu.	Rheolwr y prosiect yn mynychu / cynnal y digwyddiadau cyntaf. Dosbarthu nwyddau a meithrin ymwybyddiaeth y rhai sy'n mynychu.	Digwyddiadau a gweithgareddau cyhoeddusrwydd yn cael eu cynnal / mynychu yn rheolaidd a chyson, gan gyrraedd aelodau o'r cyhoedd ledled Cymru. Mae gan y cyhoedd well ymwybyddiaeth o weithgareddau llywodraeth leol.	Y cyhoedd yn gwybod mwy am weithgareddau eu cyngor lleol a'r cynllun AmD. Mwy o gyfranogi ac ymwneud a mwy yn troi allan i bleidleisio.

	Llywodraeth Cymru'n cytuno i gynnal digwyddiadau i hyrwyddo'r cynllun AmD trwy ymgyrch gyfryngau cymdeithasol.	Mae gan Gydgysylltydd y Prosiect yr adnoddau a'r sgiliau i gynnal ymgyrch gyfryngau cymdeithasol yn rheolaidd. Cytunir ar hashnodau a sloganau hyrwyddo.	Y negeseuon cyfryngau cymdeithasol cyntaf yn cael eu cyhoeddi ar-lein. Rhywfaint o ymwneud â chyfranogwyr AmD a'r cyhoedd yn gyffredinol.	Negeseuon cyfryngau cymdeithasol wedi cael eu defnyddio, gydag amrywiaeth helaeth o bobl (cyfranogwyr a'r cyhoedd yn gyffredinol) yn ymateb i gyfrifon (ee 'hoffi' / 'dilyn') a defnyddio hashnod.	Presenoldeb sylweddol ar-lein. Y cyhoedd yn gwybod mwy am weithgareddau eu cyngor lleol. Mwy o gyfranogi a mwy o bleidleiswyr yn troi allan.
Cynnwys Pleidiau Gwleidyddol	Llywodraeth Cymru'n cytuno i gyd-drafod â phleidiau gwleidyddol – i'w hannog i adolygu prosesau mewnol i gael gwared ar unrhyw rwystau y gall pobl o gefndiroedd amrywiol eu hwynebu wrth sefyll etholiad.	Mae gan Gydgysylltydd y Prosiect yr adnoddau a'r cysylltiadau i gyd-drafod â phleidiau gwleidyddol yng Nghymru.	Cysylltiadau cyntaf â phleidiau gwleidyddol yng Nghymru (ar lefel genedlaethol). Rhywfaint o ymrwymiad i adolygu prosesau.	Pob plaid wleidyddol yng Nghymru yn adolygu eu prosesau dewis ymgeiswyr er mwyn gwella hygyrchedd i bobl o amrywiol gefndiroedd.	Pleidiau gwleidyddol yn adolygu a diwygio eu prosesau mewnol i gynyddu hygyrchedd.
Drws i Ddemocratiaeth	Llywodraeth Cymru'n cytuno i ddarparu cyllid i ymgeiswyr llywodraeth leol sydd ag anableddau, i ddygymod â rhwystrau (ee trafniadaeth)	Cytunwyd ar y lefel o gyllid, ac mae prosesau gweinyddol ar waith	Darpar fuddiolwyr posibl yn cymryd rhan. Darparu cyllid i'r ymgeiswyr cyntaf.	Cyllid yn cael ei ddarparu i amryw o ymgeiswyr. Buddiolwyr yn adrodd budd y cynllun (ee mwy yn gallu mynd i leoliadau neu'n gallu cysylltu).	Cyllid yn cael ei ddarparu ledled Cymru i bob ymgeisydd sydd angen y cymorth. Mwy o bobl ag anableddau yn cael eu hethol i lywodraeth leol.

Cynllun Cyflogwyr	Llywodraeth Cymru'n cytuno y byddai cael cyflogwyr i annog eu gweithwyr i ymgeisio mewn etholiadau llywodraeth leol yn annog mwy o bobl o amrywiol gefndiroedd i sefyll.	Mae gan Gydgysylltydd y Prosiect adnoddau a chysylltiadau ar gael i gymryd rhan yn y cynllun.	Rhai cyflogwyr wedi bod yn cyd-drafod â Chydgysylltydd y Prosiect. Maent wedi hyrwyddo'r cynllun i'w gweithwyr.	Pob cyflogwr yn weithgar yn hyrwyddo'r cynllun AmD a sefyll etholiad llywodraeth leol, i'w gweithwyr. Mae gan weithwyr fwy o ymwybyddiaeth o weithgareddau llywodraeth leol a sut i sefyll.	Cyflenwad mwy o ymgeiswyr i'r etholiadau llywodraeth leol, ac ymwybyddiaeth ehangach o'r cynllun.
Awdurdod Lleol	Llywodraeth Cymru'n cytuno i gyd-drafod ag Awdurdodau Lleol i hyrwyddo'r cynllun AmD a phenodi Hyrwyddwr Amrywiaeth.	Mae gan Gydgysylltydd y Prosiect adnoddau i gyd-drafod â'r cynghorau a hyrwyddo'r cynllun.	Hyrwyddwr Amrywiaeth yn cael ei benodi mewn rhai Awdurdodau Lleol. Cynghorau yn ymatebol i nodau ac amcanion y rhaglen Amrywiaeth mewn Democratiaeth.	Hyrwyddwyr Amrywiaeth yn cael eu penodi ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru. Mae'r Hyrwyddwr Amrywiaeth yn adolygu ac yn ymdrin yn barhaus â materion cydraddoldeb ac amrywiaeth wrth iddynt godi.	Awdurdodau Lleol yn gweithredu polisïau cydraddoldeb ac amrywiaeth heb fod angen fawr ddim cymorth gan y rhaglen AmD. Y rhaglen mentor / mentoraï yn gweithredu'n annibynnol.

Atodiad G: Cylch Gorchwyl Hyrwyddwyr Amrywiaeth

Cefndir

- 11.48 Wrth lansio adroddiad y Grŵp Arbenigwyr, Ar ôl Pwyso a Mesur: Sicrhau Democratiaeth Amrywiol mewn Llywodraeth Leol yng Nghymru, cyhoeddodd y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth ei bwriad i sefydlu rhwydwaith o Hyrwyddwyr Amrywiaeth o fewn y Prif Gyngorau yng Nghymru.
- 11.49 Ysgrifennodd y Gweinidog at Arweinwyr Cyngorau yn gofyn iddynt enwebu Cyngorydd i lenwi'r rôl hon, gan eu hannog i benodi aelod a fyddai'n cynrychioli model rôl i grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol, os yn bosibl.

Nodau

- 11.50 Un o'r themâu yn adroddiad y Grŵp Arbenigwyr yw gwella cyfranogiad mewn llywodraeth leol. Mae hyn yn cynnwys cynllun cysgodi/mentora, annog ymwneud gan bobl ifanc trwy gyfethol, sefydlu rhwydwaith o aelodau sy'n hyrwyddwyr ac ymgyrch i hyrwyddo'r rôl a gwaith cyngorwyr a llywodraeth leol. Rhagwelir y byddai Hyrwyddwyr Amrywiaeth yn chwarae rhan strategol flaenllaw wrth hwyluso hyn o fewn y cyngor ac mewn cymunedau lleol, gan weithio gyda chynghorwyr eraill, Pwyllgorau Gwasanaethau Democratiaidd, swyddogion Gwasanaethau Democratiaidd, swyddogion sy'n arwain ar gydraddoldeb ac amrywiaeth ac aelodau arweiniol eraill megis y rheini sydd â chyfrifoldeb dros gydraddoldeb a chymorth a datblygiad aelodau.

Rôl Hyrwyddwyr Amrywiaeth

- 11.51 Rôl Hyrwyddwyr Amrywiaeth yw hyrwyddo argymhellion y Grŵp Arbenigwyr sy'n ymwneud â llywodraeth leol trwy gynnig cyswllt lleol, gweladwy â'r argymhellion a grynhoir o dan y thema gwella cyfranogiad.

Rhagwelir y byddai'r Hyrwyddwyr Amrywiaeth yn ymwneud â'r swyddogaethau canlynol:

- Chwarae rhan mewn ymgyrchoedd cyfryngau – cyfweiliadau / erthyglau newyddion ar yr hyn a'u hysgogodd hwy i fod yn gynghorwyr; anawsterau y gwnaethant eu hwynebu; pa welliannau fyddai'n gwneud y rôl yn haws.

- Rhoi cymorth mentora a chysgodi i unigolion sydd â diddordeb mewn dod yn Gynghorwyr a/neu recriwtio cyd-gynghorwyr/cyn-gynghorwyr i gyflawni'r rôl.
- Hyrwyddo'r rôl o fod yn Gynghorydd – beth mae Cynghorwyr yn ei wneud, sut mae'r cyngor yn gweithredu.
- Defnyddio cyfryngau cymdeithasol – ee cyfraniadau twitter i hyrwyddo diddordeb yn yr adroddiad, llwydoraeth leol a bod yn gynghorydd.
- Hyrwyddo argymhellion y Grŵp Arbenigwyr sy'n ymwneud â llywodraeth leol – trwy ymweliadau ag ysgolion uwchradd; awdurdodau lleol i gael mentoriaid ac aelodau sy'n hyrwyddwyr; ymwneud â grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol yn cael ei gyflawni gan awdurdodau lleol.
- Bod yn rym sy'n pwysu am ddemocratiaeth amrywiol mewn llywodraeth leol yn yr etholiadau nesaf.

11.52 Mae gan y mwyafrif o awdurdodau ddisgrifiadau rôl ar gyfer eu Hyrwyddwyr/aelodau arweiniol.

11.53 Dyma fframwaith disgrifiad rôl (rhan o gyfres Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru) y gellid ei ddefnyddio fel sail i ddisgrifio rôl yr Hyrwyddwr Amrywiaeth.

Disgrifiad o Rôl Aelod Arweiniol / Hyrwyddwr Amrywiaeth

11.54 Atebolrwydd: I'r cyngor llawn

11.55 Diben a gweithgareddau'r rôl: Rôl yr Hyrwyddwr Amrywiaeth yw hyrwyddo'r argymhellion sy'n codi o waith y Grŵp Arbenigwyr ar Amrywiaeth mewn llywodraeth leol, gan ddarparu cyswllt lleol, gweladwy â'r argymhellion a grynhoir o dan y thema gwella cyfranogiad. Rhagwelir y byddai Hyrwyddwyr Amrywiaeth yn:

11.56 O fewn y cyngor

- Hyrwyddo amrywiaeth ddemocrataidd o fewn blaenoriaethau corfforaethol a gwasanaethau'r Cyngor
- Hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy'r cyngor ac yn y gymuned leol
- Gweithio gyda'r Cadeirydd a'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, Arweinwyr Datblygu Aelodau a Hyrwyddwyr Cydraddoldeb i sicrhau bod aelodau etholedig o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol yn cael cyfle addas am gymorth a datblygiad er mwyn galluogi cydraddoldeb cyfle o fewn y cyngor

- Gweithio gydag adrannau cyhoedduswydd cynghorau i gysylltu â'r cyfryngau i hyrwyddo rôl cynghorydd
- Gweithio gydag aelodau eraill i recriwtio mentoriaid i unigolion sydd â diddordeb mewn dod yn gynghorwyr
- Rhwydweithio a rhannu'r arferion gorau yn rhanbarthol ac yn genedlaethol.

11.57 Yn y gymuned

- Hyrwyddo rôl a gwaith Cynghorwyr lleol.
- Annog pobl o leol o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol i gymryd rhan a chael llais mewn bywyd cymunedol a gwleidyddol.
- Gweithio gyda grwpiau cymunedol a chyd-aelodau i drefnu cymorth mentora a chyfleoedd cysgodi i unigolion sydd â diddordeb mewn dod yn Gynghorwyr.
- Defnyddio a hyrwyddo'r defnydd o gyfryngau cymdeithasol – ee cyfraniadau twitter i hyrwyddo diddordeb mewn llywodraeth leol a bod yn gynghorydd.
- Gweithio gyda swyddogion a chyd-aelodau i hyrwyddo argymhellion y Grŵp Arbenigwyr sy'n ymwneud â llywodraeth yn y gymuned trwy, er enghraifft, ymweliadau ag ysgolion uwchradd, mudiadau lleol fel Sefydliad y Merched etc.
- Bod yn rym sy'n pwysu am dddemocratiaeth amrywiol mewn llywodraeth leol yn yr etholiadau nesaf.

11.58 Gwerthoedd

Ymrwymo i werthoedd y Cyngor a'r gwerthoedd canlynol mewn swydd gyhoeddus:

- Bod yn agored a thryloyw
- Gonestrwydd ac unplygrwydd
- Goddefgarwch a pharch
- Cydraddoldeb a thegwch
- Gwerthfawrogi gwahaniaeth diwylliannol
- Cynaliadwyedd
- Arweinyddiaeth gynhwysol.